



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales


Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed,
Ysgolion ac Addysg Gynnar


Adroddiad Interim:


# Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant Teirblwydd














Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed,
Ysgolion ac Addysg Gynnar

Adroddiad Interim:

# Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant Teirblwydd

Lluniwyd a dyluniwyd gan
Uned Graffeg,
CartoGraffeg,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

© Hawlfraint y Goron 2000
Cyhoeddwyd gyntaf 2000

ISBN 0 7504 2427 3

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 1 |
| Cylch Gwaith yr Adolygiad Polisi | 1 |
| Amserlen | 1 |
| Ymgynghori | 2 |
| Crynodeb o’r Ymatebion | 2 |
| Lefel Gyfredol y Ddarpariaeth | 3 |
| Effaith Ehangu ar Ddarparwyr Gofal Plant | 3 |
| Materion | 4 |
| Patrwm y Ddarpariaeth | 4 |
| Ansawdd y Cwricwlwm | 5 |
| Hyfforddi | 6 |
| Cydraddoldeb Darpariaeth | 6 |
| Cyllido | 7 |
| Adeiladu Partneriaethau | 7 |
| Casgliad | 8 |
| Crynodeb o'r casgliadau allweddol | 9 |
| Atodiadau | 11 |
| Atodiad A - Cylch Gwaith yr Ymgynghorydd Arbenigol | 11 |
| Atodiad B - Ymgynghori a rhestr o'r cyrff y rhoddwyd gwahoddiad iddynt roi cyflwyniadau yn ysgrifenedig ac ar lafar | 13 |
| Atodiad C - Yr Ymatebion | 17 |
| Atodiad D - Cofnodion Pwyllgor yn ymwneud â'r adroddiad hwn | 99 |
| Atodiad E - Llyfryddiaeth | 112 |

## Rhagarweiniad

Sefydlwyd y Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 8. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys addysg, yn ogystal â'r cwricwlwm cenedlaethol a chymwysterau hyd at 16 oed; pob agwedd ar weinyddiaeth a threfniadaeth ysgolion; materion plant yn gyffredinol, ac eithrio cyfrifoldeb cynradd dros wasanaethau cymdeithasol sydd yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rosemary Butler AC yw'r Ysgrifennydd Cynulliad sy'n gyfrifol am y maes hwn.

Mae aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| William Graham (Cadeirydd) | Ceidwadwr | Dwyrain De Cymru |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Rosemary Butler (Ysgrifennydd y Cynulliad) | Llafur | Gorllewin Casnewydd |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| John Marek | Llafur | Wrecsam |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwr | Canol De Cymru |
| Jenny Randerson | Democrat Rhyddfrydol | Canol Caerdydd |
| Owen John Thomas | Plaid Cymru | Canol De Cymru |

## Cylch Gwaith yr Adolygiad Polisi

- ystyried patrwm presennol darpariaeth addysg i blant teirblwydd;
- asesu a fyddai ei ehangu o fudd i blant o'r fath yn addysgol ac o ran datblygiad;
- asesu cost ehangiad o'r fath a fyddai'n gosod baich newydd ar awdurdodau lleol y byddai'n rhaid ei gydnabod o ran eu cyllido;
- asesu effaith ehangiad ar allu cylchoedd chwarae a darparwyr preifat i ddarparu gofal plant i blant o dan oedran gorfodol ysgol; a
- gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant ynghylch polisïau'r dyfodol.

## Amserlen

Dechreuodd y Pwyllgor drwy wahodd nifer o gyrff i roi sylwadau ar yr hyn yr oeddent am ei weld yn cael ei ddarparu yng Nghymru. Wrth ystyried yr wybodaeth a gafwyd, ar lafar ac yn ysgrifenedig, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn dymuno penodi ymgynghorydd arbenigol i werthuso'r wybodaeth a rhoi cyngor i'r Pwyllgor wrth ystyried y mater.

Mae'r adroddiad interim hwn yn nodi casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor hyd yn hyn mewn perthynas â'r materion y mae angen mynd i'r afael â hwy a'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor, ar y cyd â'r ymgynghorydd arbenigol, yn rhoi ystyriaeth bellach i'r wybodaeth a ddaeth i law a'r arferion gorau sy'n bodoli yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Y bwriad yw cyhoeddi adroddiad yn yr hydref sy'n nodi casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor ar batrwm y ddarpariaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

# Ymgynghori

Rhoddodd y Pwyllgor wahoddiad i 64 o gyrff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig a daeth 48 o ymatebion i law. Gellir gweld y llythyr ymgynghori a rhestr lawn y rhai a wahoddwyd i ddarparu cyflwyniadau ysgrifenedig yn Atodiad B.

| Gwahoddiadau | Ymatebion |
|---|---|
| Awdurdodau Addysg Lleol (22) | 18 |
| Partneriaethau Blynyddoedd Cynnar (22) | 4 ymateb ar y cyd gydag Awdurdodau Addysg Lleol a 6 ymateb unigol |
| Cyrff (15) | 15 |
| Unigolion (5) | 5 |

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniadau llafar gan y canlynol:

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC)
Estyn
Dr Gill Harper Jones
Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM)
Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru (WPPA)
Plant yng Nghymru
Yr Athro Sonia Jackson
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
Yr Athro E.C. Melhuish

Derbyniodd y Pwyllgor gyfanswm o ryw 170 o dudalennau o gyflwyniadau ysgrifenedig a chafwyd cyfeiriadau at nifer o lyfrau ac erthyglau ynghylch y pwnc. Ceir llyfryddiaeth o'r cyfeiriadau yn Atodiad E.

## Crynodeb o'r Ymatebion

Ceir cynnwys y cyflwyniadau ysgrifenedig yn llawn yn Atodiad C a gellir gweld cofnodion perthnasol y Pwyllgor sy'n cofnodi ystyriaeth y Pwyllgor yn Atodiad D.

Yr oedd yr ymgynghoriad yn nodi'r meysydd consensws canlynol:

- mae cyfleoedd dysgu cynnar i blant ifanc iawn yn fuddiol; mae'r drafodaeth yn ymdrin â natur a lleoliad y cyfleoedd hynny;

- dylid gweld cyfleoedd dysgu cynnar fel parhad yn y broses ddysgu gyffredinol;
- mae chwarae yn gydran hanfodol yn natblygiad cymdeithasol, personol a deallusol cynnar y plentyn;
- yr oedd cyfranogiad cynnar rhieni a gofalwyr yn helpu plant ifanc iawn o ran eu datblygiad;
- yn ei adroddiad "Gofal Plant yng Nghymru" a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 1999, daeth y Pwyllgor Materion Cymreig i'r casgliad mai dysgu drwy chwarae yw'r dull cywir ar gyfer plant ifanc iawn.

## Lefel Bresennol y Ddarpariaeth

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant teirblwydd mewn lleoliadau a gynhelir yng Nghymru wedi bod ar lefel o ryw 50% ers cryn amser bellach er bod tipyn o amrywiaeth rhwng Awdurdodau Addysg Lleol. Mae hyn yn cymharu â'r ddarpariaeth o ryw 33% yn Lloegr. Mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth wedi pennu targed ar gyfer cynyddu darpariaeth Lloegr i 66% erbyn 2003 a bydd arian ychwanegol ar gael i gyllido'r ehangiad hwn. Nid oes targed ar gyfer ehangiad pellach wedi'i bennu ar gyfer Cymru.

Er bod 14 o Bartneriaethau Gofal Plant a Datblygiad Blynyddoedd Cynnar lleol yn cynnwys lleoliadau preifat a gwirfoddol yn eu cynlluniau, pan na fydd lleoedd ar gael yn y sector cynaledig yn unig y bydd y mwyafrif yn ariannu lleoedd yn y sectorau preifat a gwirfoddol. Ni roddir unrhyw arian tuag at ddarpariaeth ar gyfer plant teirblwydd gan un o'r partneriaethau. Yn y sector cynaledig y ceir y ddarpariaeth yn bennaf.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi mynegi dymuniad i ehangu darpariaeth os oes cyllid ychwanegol ar gael; ond nid yw cynlluniau partneriaeth blynyddoedd cynnar 1999-2000 yn nodi cynlluniau arwyddocaol ar gyfer ehangiad cyffredinol.

## Effaith Ehangu ar Ddarparwyr Gofal Plant

Mae llawer o'r farn bod yr ehangiad hyd yn hyn o ran addysg blynyddoedd cynnar wedi arwain at gau cylchoedd chwarae a chyfleusterau meithrinfeydd preifat o ganlyniad i ehangiad mewn ysgolion a gynhelir.

Yn erbyn y cefndir hwn comisiynwyd arolwg annibynnol gan y Cynulliad Cenedlaethol i edrych ar rôl cylchoedd chwarae wrth ddarparu gofal plant ac addysg gynnar. Mae'r adroddiad wedi dod i law ac mae'n cael ei ystyried.

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn pryderu'n arbennig os bydd y duedd bresennol i gynyddu darpariaeth sector cynaledig ar gyfer plant teirblwydd yn parhau bydd yn peryglu datblygiad a chynnydd o ran nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ystyried Cylchoedd Meithrin fel sylfaen i sicrhau bod yr Iaith Gymraeg yn goroesi ynghyd â'r sefyllfa bresennol o gynyddu nifer y bobl a all siarad Cymraeg.

# Materion

Y materion y mae'n rhaid i'r Pwyllgor eu hystyried o ran polisi yw:

- Patrwm y Ddarpariaeth;
- Ansawdd y Cwricwlwm;
- Goblygiadau Hyfforddi;
- Cydraddoldeb Darpariaeth.

## Patrwm y Ddarpariaeth

Ymhlith y rhai a ymatebodd i wahoddiad y Pwyllgor i gyflwyno'u sylwadau, cafwyd consensws ysgubol yn cefnogi'r syniad bod manteision addysg gynnar effeithiol yn fwy na'r anfanteision. Yr oedd yr ymatebwyr a gefnogai'r farn hon yn gwneud hynny ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael trwy ymchwil o nifer o ffynonellau academaidd. Ceir rhestr o'r rhain yn y llyfryddiaeth yn Atodiad E. Yr oedd y consensws hefyd yn cefnogi'r syniad bod addysg gynnar i blant tair a phedair mlwydd oed yn rhan o barhad ag addysg ffurfiol ar gyfer plant pum mlwydd oed ac na ellid eu hystyried ar wahân. Yn hyn o beth, teimlwyd y dylai'r strategaeth derfynol a argymhellwyd gan y Pwyllgor ar gyfer plant tair i bum mlwydd oed gael ei hintegreiddio â'r Rhaglen Cychwyn Cadarn a'r Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol.

Wrth wneud hyn yr oedd yr ymatebwyr yn cydnabod nad yw addysg ffurfiol drwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn dechrau nes yr oedran ysgol statudol o bum mlwydd oed yn unol â Deddf Addysg 1996. Mynegwyd ambell safbwynt y dylid codi'r oedran ysgol statudol i chwe blwydd oed o leiaf. Yr oedd y rhai a oedd o blaid y ddadl hon yn cyfeirio at astudiaethau rhyngwladol o gyrhaeddiad plant wyth mlwydd oed. Gwelwyd bod plant a gychwynnodd ar addysg ffurfiol yn chwech neu'n saith mlwydd oed hyd yn oed, wedi cyflawni lefelau cyrhaeddiad uwch yn wyth mlwydd oed na'r plant a gychwynnodd ar addysg ffurfiol yn bum mlwydd oed.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad ofyn i Estyn roi adroddiad ar fanteision ac anfanteision dechrau ar addysg ffurfiol yn chwe blwydd oed yn hytrach na phum mlwydd oed, sef yr oedran statudol ar hyn o bryd. Dylid cwblhau'r Adroddiad mewn pryd i'w gynnwys yn adolygiad ACCAC o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru. Mater i'w ystyried yn y tymor hir oedd hwn ac ni ddylai effeithio ar ystyriaeth bresennol y Pwyllgor.

Bu'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y cydbwysedd y dylid ei daro rhwng datblygiad sy'n seiliedig ar chwarae a chyfleoedd dysgu ffurfiol ochr yn ochr â'r lleoliadau a oedd fwyaf buddiol i blant. Mynegodd cyrff yn y sector gwirfoddol y farn nad yr amgylchedd dysgu mwy ffurfiol a ddarperir gan ysgolion, yn arbennig lle gallai'r cymarebau oedolion/plant fod dipyn yn uwch nag mewn lleoliadau gofal plant ffurfiol, sy'n darparu orau ar gyfer anghenion datblygu plant ifanc iawn. Pwysleisiodd tystiolaeth a sylwadau Llywodraeth Leol bod traddodiad hir o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar mewn lleoliadau cynaledig, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig lle'r oedd darpariaeth mewn sectorau eraill yn dueddol o fod yn wan.

Bu'r Pwyllgor yn trafod yr wybodaeth a gyflwynwyd ynghylch y lefelau staffio mwyaf priodol ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar. Ar hyn o bryd mae'r lefelau staffio sydd wedi'u pennu'n statudol ar gyfer gofal plant yn wahanol i'r hyn sydd wedi'i bennu mewn canllawiau addysg. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad mai ansawdd y staff oedd y ffactor pwysicaf a gwnaed addewid i dalu sylw arbennig i'r wybodaeth gan ACCAC ynglŷn ag achredu cymwysterau.

## Ansawdd y Cwricwlwm

Mae'r lleoliadau cynaledig a'r rhai na chynhelir a ariennir yn gyhoeddus dan bartneriaethau datblygiad blynyddoedd cynnar a gofal plant yn anelu at feincnod safonau cyffredin a nodir yn fframwaith ACCAC 'Canlyniadau Dysgu Dymunol' a luniwyd ym 1996. Croesawyd y 'Canlyniadau Dymunol' ac mae ACCAC wedi'u hadolygu yn erbyn cefndir adolygiad cyffredinol y Cwricwlwm Cenedlaethol. Nid oes unrhyw newidiadau yn yr arfaeth.

Mae canllawiau'r 'Canlyniadau Dymunol' yn nodi bod cwricwlwm y blynyddoedd cynnar yn ymwneud â'r plentyn. Nid y cynnwys yn unig sy'n bwysig ond hefyd cyd-destun y dysgu. Cafodd y Pwyllgor ei ddarbwyllo'n benodol gan gyngor ACCAC fel a ganlyn:

"it is especially appropriate to think of the curriculum for under fives as being experienced rather than delivered." (ACCAC Submission).

Ategwyd y farn honno yng nghyflwyniad Uned Blynyddoedd Cynnar Plant yng Nghymru:

"Young children learn through exploration, first hand experience, play and communication."

Yn y canllawiau ar 'Ganlyniadau Dymunol' mae ACCAC yn nodi chwe maes dysgu a phrofiad a'r canlyniadau dymunol sy'n cyd-fynd â hwy. Nodir y chwe maes isod:

- Iaith, Llythrennedd a Medrau Cyfathrebu;
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol;
- Datblygiad Mathemategol;
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd;
- Datblygiad Corfforol;
- Datblygiad Creadigol.

Barn gyffredinol y rhai a ymatebodd oedd bod y fframwaith hwn yn seiliedig ar set o egwyddorion a gwerthoedd, sy'n adlewyrchu'r arferion gorau mewn blynyddoedd cynnar. Yr oedd Estyn o'r farn mai'r canllawiau hyn gan ACCAC oedd yn gyfrifol i raddau helaeth am y gwelliant mewn darpariaeth addysgol. Yr oedd y Pwyllgor yn derbyn y dylai'r canllawiau ar Ganlyniadau Dymunol ffurfio sail datblygiad dysgu mewn unrhyw ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn y dyfodol.

Caiff pob lleoliad gofal blynyddoedd cynnar a ariennir dan drefniadau partneriaeth blynyddoedd cynnar eu harolygu'n rheolaidd gan Estyn. Cynhelir archwiliadau o leoliadau cynaledig fel rheol o dan adran 10 Deddf Arolygu Ysgolion 1996. Cynhelir archwiliadau o leoliadau heb eu cynnal o dan Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion. Yn ei gyfarfod ar 13 Hydref, cymeradwyodd y Pwyllgor hwn drefniadau ar gyfer partneriaeth rhwng Estyn a'r Comisiwn Gofal arfaethedig i Gymru ar drefniadau arolygu lles ac addysg integredig ar gyfer plant o dan wyth mlwydd oed.

## Hyfforddi

Mae'r Canllawiau ar Bartneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn ei gwneud yn ofynnol i leoliadau a ariennir dan drefniadau partneriaeth gael athro neu athrawes gymwys, sy'n arbenigwr yn y blynyddoedd cynnar, er mwyn bod yn gyfrifol am godi safonau.  Nid yw hynny'n golygu bod rhaid i'r lleoliad gyflogi'r athro/athrawes.  Mae'n golygu bod rhaid i'r lleoliad gael mynediad at gyngor proffesiynol o'r fath.

Ceir cyllid o dan raglen GEST ar gyfer athrawon o dan hyfforddiant mewn addysg blynyddoedd cynnar.  Mae ACCAC ar hyn o bryd yn gweithio gydag Asiantaeth Cymwysterau a Chwricwlwm Lloegr i achredu cymwysterau galwedigaethol newydd o dan fframwaith ddrafft ar gyfer cymwysterau a hyfforddiant addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant a sector gwaith chwarae.  Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai ACCAC ystyried yr adroddiad hwn a safbwynt y Pwyllgor ar bwysigrwydd sicrhau staff o ansawdd uchel wedi'u hyfforddi.  Yr oedd yn edrych ymlaen at gael adroddiad ACCAC ar achredu yn yr hydref.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai ystyried canlyniad gwaith ACCAC o ran achredu cyn ystyried yr angen am gamau pellach yn hyn o beth.

## Cydraddoldeb Darpariaeth

### Cynhwysiant Cymdeithasol

Er mwyn sicrhau bod pob plentyn sydd mewn perygl yn sgil allgáu cymdeithasol, yn cael yr un cyfle i brofi gwasanaethau blynyddoedd cynnar, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid ymestyn y drefn bresennol o ran darparu cyllid canolog ar gyfer plant pedair oed, mewn egwyddor, i blant tair oed heb unrhyw gost uniongyrchol i rieni.  Byddai gosod costau i rieni yn golygu rhoi ystyriaeth i amgylchiadau personol a chost y ddarpariaeth yn lleol, a byddai hynny'n gostus, yn ariannol ac yn weinyddol.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried ymhellach y "man cychwyn" mwyaf priodol ar gyfer plant tair oed er enghraifft, ar eu trydydd pen-blwydd neu'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd.

Gan fod y pwnc hwn hefyd yn effeithio ar ofal plant, mae'n rhan o gylch gwaith Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac felly'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.  Anfonir copi o'r adroddiad hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### Darpariaeth Ddwyieithog

Mae adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig 'Gofal Plant yng Nghymru' yn nodi:

"bod addysg blynyddoedd cynnar yn hanfodol i ddyfodol yr iaith Gymraeg."

Yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymhelaethu ar y pwynt hwn ac yn dadlau'n gryf y dylai gwasanaethau blynyddoedd cynnar gynnwys y cyfle i blant yng Nghymru ddatblygu dwyieithrwydd.

Mae'r Pwyllgor am barhau i hyrwyddo darpariaeth ddwyieithog i'r safonau uchaf. Bydd yn ystyried sut y gellir sicrhau hyn ym mhatrwm y ddarpariaeth y penderfynir arni yn y pen draw, gan gynnwys yr angen i hyfforddi staff hyd at y lefel briodol yn Gymraeg a Saesneg.

### Plant ag Anghenion Arbennig

Bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried sut y gellir bodloni anghenion plant ag anghenion arbennig ochr yn ochr â'r angen i sicrhau bod gan bob plentyn yr un cyfle i brofi gwasanaethau blynyddoedd cynnar. Yn aml iawn bydd plant ag anghenion arbennig yn cychwyn ar addysg yn gynt na'u cyfoedion. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai'n dymuno ystyried hyn ymhellach gydag ymgynghorwyr anghenion arbennig megis aelodau Grŵp Ymgynghorol Cymru ar Anghenion Addysgol Arbennig.

## Cyllido

Canlyniad penderfyniadau awdurdodau lleol i ddefnyddio adnoddau refeniw heb eu pridiannu yw lefel cymharol uchel darpariaeth ar gyfer plant teirblwydd. Byddai unrhyw gynnydd wedi'i dargedu o ran addysg plant teirblwydd yn cynnwys baich newydd ar awdurdodau lleol, y dylid ei ddarparu naill ai drwy setliad refeniw llywodraeth leol neu ddull ariannu arall priodol ar gyfer blwyddyn (neu flynyddoedd) y newid.

Mae amcangyfrif cychwynnol gan CLlLCyn awgrymu y byddai costau staffio ymestyn darpariaeth meithrinfa hanner amser i bob plentyn teirblwydd oddeutu £16 miliwn mewn blwyddyn. Hwyrach y byddai goblygiadau hefyd o ran gwariant cyfalaf, ond nid yw'r rhain wedi'u mesur.

Yn eu papurau, rhoddodd CLlLC, WPPA a MYM amcangyfrif o gostau ehangu'r ddarpariaeth. Bydd rhaid i'r Pwyllgor bennu ei flaenoriaethau mewn perthynas â chyllideb Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion a Dysgu Cynnar. Bydd yn ofynnol i'r ymgynghorydd arbenigol asesu goblygiadau ariannol pob dull darpariaeth arfaethedig ac unrhyw amrywiadau y mae'r Pwyllgor yn eu hargymell.

## Adeiladu Partneriaethau

Mae angen llunio partneriaethau ar bob lefel o ddarparu addysg blynyddoedd cynnar gan gynnwys y gwahanol ddarparwyr a rhieni a gofalwyr.

Sefydlwyd Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Lleol ar sail egwyddor partneriaeth a chydweithio gyda'r un nodau ac amcanion. Dylai partneriaethau gynrychioli pob corff (gan gynnwys cynrychiolwyr cymdeithasau rhieni) gyda diddordeb mewn addysg gynnar a dylai cynlluniau partneriaeth gofal plant gael eu cymeradwyo gan y Bartneriaeth gyfan. Mae pryder o fewn y sector preifat a'r sector gwirfoddol fod ysbryd partneriaeth wedi bod yn brin yn y trefniadau hyd yma a bod cynlluniau partneriaeth wedi arwain at ehangu darpariaeth addysg gynnar y sector cynaledig. Maent yn pryderu mai dyma fydd yn digwydd gydag unrhyw ehangiad darpariaeth i blant teirblwydd drwy gyfrwng trefniadau partneriaeth.

Bydd y Pwyllgor yn troi at ei ymgynghorydd arbenigol i'w gynorthwyo i ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i sicrhau bod gwir bartneriaeth ymhlith darparwyr yn cael ei chyflawni er lles y plentyn. Mae gan y sector preifat lawer o enghreifftiau o arferion da wrth gynnwys rhieni a gofalwyr. Mae angen adeiladu ar y rhain fel bod partneriaeth yn sail i addysg y blynyddoedd cynnar ym mhob lleoliad. Dylid datblygu rôl rhieni fel 'addysgwyr cyntaf' i gefnogi'r gwasanaeth a'r plentyn.

## Casgliad

Ar ôl ystyried y cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb i sicrhau bod y patrwm y cytunwyd arno ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn briodol ar gyfer anghenion plant Cymru wrth eu paratoi ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar set o egwyddorion a ddylai fod yn sail i batrwm unrhyw ddarpariaeth blynyddoedd cynnar sydd wedi'i hymestyn.

Mae'r egwyddorion yn nodi y dylai darpariaeth blynyddoedd cynnar wneud y canlynol:

- darparu sylfaen gadarn ar gyfer dysgu a chyflawni yn y dyfodol drwy gyfrwng cwricwlwm priodol sy'n datblygu ac sy'n cyd-fynd ag anghenion a diddordebau penodol y plentyn;

- sicrhau cydraddoldeb darpariaeth o ran cyfle addysgol i bawb er mwyn cyflawni potensial a chaniatáu iddynt chwarae rhan lawn yn y gymdeithas;

- darparu gofal cyflawn trwy ddatblygu partneriaethau rhwng rhieni, teuluoedd, gofalwyr plant, meithrinfeydd, cylchoedd chwarae ac ysgolion yn y sectorau cynaledig a'r rhai na chynhelir; a

- sicrhau bod darpariaeth addysg gynnar yn cael ei thywys a'i meithrin gan addysgwyr blynyddoedd cynnar â chymwysterau priodol sy'n darparu gofal yn ogystal ag addysgu;

Mae'r Pwyllgor yn falch iawn o'r ymrwymiad a ddangoswyd gan y rhai sy'n darparu ac yn rhoi cyngor ynghylch darpariaeth blynyddoedd cynnar yng Nghymru, sydd wedi'i adlewyrchu yn y cyflwyniadau sydd wedi'u hystyried a'u cyflwyno'n ofalus. Er mwyn helpu'r Pwyllgor i werthuso'r holl wybodaeth ac ystyried ei argymhellion, daethpwyd i'r casgliad y dylid penodi ymgynghorydd arbenigol. Ceir manyleb swydd yr ymgynghorydd arbenigol yn Atodiad A. Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad interim a'r holl gyflwyniadau ar yr adeg hon er mwyn parhau â'r drafodaeth a gynhelir ar hyn o bryd ac i sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn y maes yn cael gwybodaeth gyson am waith y Pwyllgor.

## Crynodeb o'r casgliadau allweddol

### Yr Ymgynghorydd Arbenigol

Er mwyn helpu'r Pwyllgor i werthuso'r holl wybodaeth ac ystyried ei argymhellion, daethpwyd i'r casgliad y dylid penodi ymgynghorydd arbenigol. Ceir manyleb swydd yr ymgynghorydd arbenigol yn Atodiad A.

### Datblygu'r Cwricwlwm/Dysgu

Derbyniodd y Pwyllgor y dylai canllawiau'r Canlyniadau Dymunol lunio sail datblygiad dysgu mewn unrhyw ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn y dyfodol.

### Hyfforddi

Cytunodd y Pwyllgor y dylid ystyried canlyniad gwaith achredu ACCAC cyn ystyried yr angen am gamau pellach yn y maes hwn.

### Cynhwysiant Cymdeithasol

Er mwyn sicrhau bod pob plentyn sydd mewn perygl yn sgil allgáu cymdeithasol, yn cael yr un cyfle i brofi gwasanaethau blynyddoedd cynnar, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid ymestyn y drefn bresennol o ran darparu cyllid canolog ar gyfer plant pedair mlwydd oed, mewn egwyddor, i blant teirblwydd heb unrhyw gost uniongyrchol i rieni.

Gan fod y pwnc hwn hefyd yn effeithio ar ofal plant mae'n rhan o gylch gwaith Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac felly'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Anfonir copi o'r adroddiad hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### Dwyieithrwydd

Mae'r Pwyllgor am barhau i hyrwyddo darpariaeth ddwyieithog i'r safonau uchaf. Bydd yn ystyried sut y gellir sicrhau hyn ym mhatrwm y ddarpariaeth y penderfynir arni yn y pen draw, gan gynnwys yr angen i hyfforddi staff hyd at y lefel briodol yn Gymraeg a Saesneg.

### Plant ag Anghenion Arbennig

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai'n dymuno ystyried hyn ymhellach gydag ymgynghorwyr anghenion arbennig megis aelodau Grŵp Ymgynghorol Cymru ar Anghenion Addysgol Arbennig.

### Oedran Cychwyn ar Addysg Ffurfiol

Cytunodd y Pwyllgor y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad ofyn i Estyn roi adroddiad ar fanteision ac anfanteision cychwyn ar addysg ffurfiol yn chwe blwydd oed yn hytrach na phum mlwydd oed, sef yr oedran statudol ar hyn o bryd.  Dylai'r Adroddiad fod yn barod mewn pryd i fwydo'r adolygiad nesaf o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru.  Mater yn y tymor hwy oedd hwn ac ni ddylai dynnu sylw'r Pwyllgor oddi ar ystyried y mater hwn.

# Atodiad A

## Cylch Gwaith yr Ymgynghorydd Arbenigol

### Manyleb y Swydd

Mae'r Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar ar hyn o bryd yn cynnal arolwg polisi o'r ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar i blant teirblwydd. Mae eisoes wedi cwblhau astudiaeth gwmpasu o'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd yng Nghymru ac mae wedi nodi'r materion hynny y mae angen mynd i'r afael â hwy wrth ddatblygu darpariaeth ar gyfer y dyfodol. Bydd gwaith y Pwyllgor hyd yma ynghyd â'r wybodaeth a dderbyniwyd ganddo'n cael eu cyhoeddi mewn adroddiad cychwynnol ym mis Ebrill 2000.

Y Cylch Gwaith ar gyfer y cam nesaf, sef y cam y mae angen yr ymgynghorydd arbenigol ar ei gyfer, yw:

- gwerthuso'r cyflwyniadau a dderbyniwyd eisoes gan y Pwyllgor;
- nodi a datblygu modelau ar gyfer patrwm y ddarpariaeth yng Nghymru, a fydd yn ategu mentrau addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant sydd eisoes ar waith (Cychwyn Cadarn a'r Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol), i'w hystyried gan y Pwyllgor;
- rhoi cyngor i'r Pwyllgor ar 'arferion gorau' ym mhatrwm y ddarpariaeth;
- rhoi cyngor i'r Pwyllgor ar oblygiadau pob model ac unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor, e.e. effaith ar hyfforddi, cynnig darpariaeth i bawb a darpariaeth ddwyieithog;
- asesu costau'r modelau ac unrhyw amrywiadau a argymhellir gan y Pwyllgor; ac
- asesu gallu cylchoedd chwarae a darparwyr preifat i weithio'n unol â'r modelau yng ngoleuni Adroddiad Arolwg Cylchoedd Chwarae Cymru.

Mae angen cymorth ar y Pwyllgor i ddatblygu polisi a bydd yn disgwyl i'r ymgynghorydd arbenigol gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei ystyriaethau ac wrth gynhyrchu adroddiad.

Bydd disgwyl i'r ymgynghorydd fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor, a fydd yn agored i'r cyhoedd, pan drafodir y mater, darparu adroddiad i'r Pwyllgor ar arferion gorau a datblygu modelau ar gyfer patrwm y ddarpariaeth yng Nghymru. Rhagwelir mai gwaith wrth ddesg fydd hyn yn bennaf. Bydd disgwyl hefyd i'r ymgynghorydd gynorthwyo Clerc y Pwyllgor i gynhyrchu adroddiad drafft ar gyfer y rhan hon o'r astudiaeth i'w ystyried gan y Pwyllgor.

### Ymrwymiad Amser a Chydnabyddiaeth

Bydd y swydd yn para o fis Ebrill 2000 hyd ddiwedd mis Mehefin 2000. Cynigir tâl fesul diwrnod o £150 y dydd yn dibynnu ar brofiad ac ymrwymiad amser y sawl a benodir. Bydd costau teithio a chynhaliaeth rhesymol yn cael eu had-dalu'n unol â chyfraddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cyfrinachedd

Rheolir gwaith y Pwyllgorau gan Reolau Sefydlog y Cynulliad, ac yn arbennig Reolau Sefydlog 7 ac 8 sy'n trafod pwerau'r Pwyllgorau a threfn mewn Pwyllgorau. Bydd Pwyllgorau fel rheol yn cyfarfod yn gyhoeddus ac mae dogfennau'n ymwneud â'u trafodion yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r Pwyllgorau o dro i dro ystyried gwybodaeth gyfrinachol ac mae Rheol Sefydlog 8.21 yn nodi y gall Pwyllgor gyfarfod yn breifat mewn rhai amgylchiadau. Mae Rheol Sefydlog 17 yn cyfyngu hawl y cyhoedd i archwilio dogfennau mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys amgylchiadau pan fydd dogfennau'n ymwneud â thrafodion Pwyllgorau a gynhelir yn breifat.

Mae'n bosibl felly y bydd y cynghorydd yn dod ar draws gwahanol fathau o wybodaeth gyfrinachol wrth weithio i'r Pwyllgor. Bydd yn ofynnol felly bod cyfrinachedd unrhyw wybodaeth a roddir i'r cynghorydd yn cael ei barchu er mwyn galluogi'r cynghorydd i gyflawni dyletswyddau nad ydynt yn agored i'r cyhoedd.

# Atodiad B

**Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed,**
**Ysgolion ac Addysg Gynnar**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Gorffennaf 1999

Annwyl

## Yr Addysg Blynyddoedd Cynnar a ddarperir i blant teirblwydd

Mae'r Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar wedi penderfynu y bydd yn ystyried yn fanwl y polisi ar yr addysg blynyddoedd cynnar a ddarperir i blant teirblwydd. Bydd yn dechrau ar y gwaith yn ei gyfarfod nesaf ar 15 Medi 1999. Mae'r wybodaeth sydd ar y Rhyngrwyd am y Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed wedi'i hamgáu, ac mae'n rhoi manylion ei aelodau a'i gylch gwaith.

Dyma'i gylch gwaith o ran datblygu'r polisi hwn:

> Ystyried y patrwm cyfredol o ddarpariaeth addysgol i blant teirblwydd; asesu a fyddai ehangu arno o fudd addysgol a datblygiadol i blant o'r fath; asesu costau ehangu o'r fath a fyddai'n gosod baich newydd ar awdurdodau lleol; byddai'n rhaid cydnabod y baich hwn yn eu cyllid; asesu effaith ehangu ar allu cylchoedd chwarae a darparwyr preifat i ddarparu gofal plant i blant o dan oedran ysgol gorfodol; gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg Cyn 16 Oed ynghylch polisi yn y dyfodol.

Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi pe bai yn cael clywed barn eich sefydliad ar ddwy elfen amlwg o'r cylch gwaith:

a) gwerth addysgol a datblygiadol addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant teirblwydd, a

b) chost ehangu ar hyn a'r effaith ar ddarparwyr gofal plant.

Mae'r Pwyllgor yn gweithio o fewn amserlen dynn iawn ac mae'n bwriadu cwblhau datblygu'r polisi hwn ym mis Ionawr 2000.

Yn amgaeedig, ceir nodyn canllawiau ar fformat y papurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Dylid cofio y bydd yr holl bapurau a gyflwynir i'r Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar y Rhyngrwyd ac y byddant ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych yn dymuno i unrhyw fater fod ar gael i'r cyhoedd bydd angen i chi drafod hynny â Chlerc y Pwyllgor.

Dylid anfon pob cyflwyniad at y Clerc erbyn dydd Gwener 27 Awst, fan bellaf.

Os hoffech drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r llythyr hwn, croeso i chi gysylltu â mi ar y rhif ar waelod y tudalen.

Yn gywir

Delyth Thomas
Clerc y Pwyllgor

# Rhestr o'r rhai yr Ymgynghorir â hwy

## Awdurdodau Llywodraeth Leol

AALl Ynys Môn
AALl Blaenau Gwent
AALl Pen-y-bont ar Ogwr
AALl Caerffili
AALl Caerdydd
AALl Sir Gaerfyrddin
AALl Ceredigion
AALl Conwy
AALl Sir Ddinbych
AALl Sir y Fflint
AALl Gwynedd
AALl Merthyr Tudful
AALl Sir Fynwy
AALl Castell-nedd Port Talbot
AALl Casnewydd
AALl Sir Benfro
AALl Powys
AALl Rhondda Cynon Taf
AALl Abertawe
AALl Tor-faen
AALl Bro Morgannwg
AALl Wrecsam

## Partneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lleol

Abertawe
Blaenau Gwent
Bro Morgannwg
Caerdydd
Caerffili
Casnewydd
Castell-nedd Port Talbot
Ceredigion
Conwy
Gwynedd
Merthyr Tudful
Pen-y-bont ar Ogwr
Powys
Rhondda Cynon Taf
Sir Benfro
Sir Ddinbych
Sir Fynwy
Sir Gaerfyrddin

Sir y Fflint
Tor-faen
Wrecsam
Ynys Môn

## Sefydliadau

ACCAC - Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
Plant yng Nghymru, Uned Blynyddoedd Cynnar
Chwarae Teg
Cwmni Iaith Cyf
Estyn
Mudiad Ysgolion Meithrin
Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (De Cymru)
Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg
Cymrodoriaeth Ysgolion Steiner Waldorf
Play Wales
Playwork Interim Endorsement Group
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar
Wales Pre-school Playgroup Association
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Uned Addysg

## Unigolion

Yr Athro Jo Sibert, Athro Iechyd Plant yn y Gymuned

# Atodiad C

## Yr Ymatebion


| | |
|---|---|
| BLAENAU GWENT | 19 |
| SIR GAERFYRDDIN | 22 |
| CEREDIGION | 24 |
| DINAS A SIR CAERDYDD | 27 |
| DINAS A SIR ABERTAWE | 33 |
| CONWY | 36 |
| SIR DDINBYCH | 37 |
| CYNGOR SIR FYNWY | 38 |
| CASNEWYDD | 40 |
| SIR BENFRO | 43 |
| WRECSAM | 51 |
| PARTNERIAETH BLYNYDDOEDD CYNNAR CONWY | 55 |
| PARTNERIAETH BLYNYDDOEDD CYNNAR SIR DDINBYCH | 56 |
| PARTNERIAETH BLYNYDDOEDD CYNNAR POWYS | 61 |
| ACCAC | 64 |
| UNED BLYNYDDOEDD CYNNAR PLANT YNG NGHYMRU | 69 |
| CHWARAE TEG | 73 |
| CWMNI IAITH CYF | 76 |
| ESTYN | 80 |
| MUDIAD YSGOLION MEITHRIN | 84 |
| NATIONAL CHILD MINDING ASSOCIATION | 87 |
| NATIONAL FOUNDATION FOR EDUCATIONAL RESEARCH | 88 |
| CYMDEITHAS CYLCHOEDD CHWARAE CYN-YSGOL CYMRU | 91 |
| BWRDD YR IAITH GYMRAEG | 95 |
| YR ATHRO JO SIBERT | 98 |

'Anogir y sawl sy'n darparu papurau i ddarparu papurau dwyieithog os ydynt yn gallu ac yn fodlon gwneud hynny. Yr ydym yn disgwyl y bydd hyn yn fater syml i gyrff cyhoeddus sydd wedi rhoi cynlluniau iaith Gymraeg ar waith o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 . Cyhoeddir copïau o'r cyflwyniadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn yr iaith y cawsant eu derbyn.'

# Blaenau Gwent

## Gwerth Addysgol a Datblygiadol Addysg yn y Blynyddoedd Cynnar i Blant Tair Oed

Mae'r ugain mlynedd ddiwethaf wedi gweld newid sylweddol ym mhatrymau bywyd Cymru, ac ym mywydau teuluoedd a phlant a chaffaeledd gofal plant ac addysg ym mlynyddoedd cynnar plentyndod. Ym Mlaenau Gwent mae'r strwythur economaidd-gymdeithasol yr isaf drwy Gymru ac mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol i sicrhau na chaiff ein plant eu llesteirio gan eu cefndir a'u hamgylchiadau rhag gwneud y defnydd gorau posib o'u haddysg.

Yn ogystal mae newid yn amlwg yn strwythur teuluoedd yr ardal. Daw llai o blant o deuluoedd mawr ac mae graddfa gynyddol o ysgaru ac ailbriodi, sy'n golygu bod llawer o blant yn tyfu mewn sefyllfa un-rhiant, a llys-riant, llys-frodyr a llys-chwiorydd.

Mae rôl y tadcu a'r famgu wedi newid o fod yn byw gyda'r rhieni ac yn helpu i gafu'r plant, i fod yn gweithio'u hunain gyda'u bywydau, eu cartrefi a'u diddordebau eu hunain ar wahân i'r wyrion ac yn methu treulio'r amser estynedig gyda'r plentyn bach - amgylchiadau oedd yn bosib genhedlaeth yn ôl.

Mae bywydau teuluoedd yn newid wrth ymateb i newid mewn gwaith a phatrymau cyflogaeth. Mae mwy o famau yn cymryd swyddi, i geisio lliniaru cyni teuluol, ac mae nifer o ddynion yn ddi-waith.

Mae Prydain hefyd yn dal yn gymdeithas anghyfartal, lle mae nifer o blant yn profi eisiau ac anffafriaeth, lle mae rhai sy'n gyfforddus eu byd a rhai llwm eu byd. Yma ym Mlaenau Gwent mae gennym gyfartaledd uchel o'r rhai llwm eu byd, a'r lefel isaf yng Nghymru o lefydd gofal plant cofrestredig. Canlyniad hyn yw nifer cynyddol o blant ifainc yn profi gofal-dydd ac addysg gynnar mewn lleoliadau o ansawdd gyfnewidiol y tu allan i'r cartref cyn eu bod yn cychwyn addysg orfodol, ynghyd â chyfran helaeth o blant yn derbyn gofal yn answyddogol ac efallai, yn anarbenigol.

Croesawyd dealltwriaeth o bwysigrwydd ansawdd addysg Yn Y Blynyddoedd Cynnar, ardystiwyd gan y Llywodraeth pan oedd yn wrthblaid ynghyd â nawr pan mae mewn grym, gan bawb oedd yn ymwybodol ers hir amser o'i lle hanfodol bwysig yn y system addysg.

Mae'r holl ffactorau hyn yn cydgysylltu i arwyddocàu bod addysg ar gyfer ein plant tair oed yn hanfodol i'w neilltuo â'r profiadau angenrheidiol i sicrhau bod pob plentyn yn cychwyn addysg amser llawn gyda hawl cyffelyb i brofiad cyn-oed-ysgol.

Teimlwn fod addysg yn cychwyn gyda genedigaeth, a'i bod yn amhosibl gwahanu gofal ac addysg. Mae pob plentyn yn elwa o ofal ac addysg briodol i ddatblygiad pob unigolyn, mae pob plentyn yn datblygu ar ei raddfa ei hun, ond gellir ysgogi hyn gan ymyrraeth gydymdeimladwy gan oedolion cymwys a phrofiadol. Yr allwedd i helpu plant i ddysgu yw arsylwi medrus a gofalus, asesu a chynllunio gweithgareddau addas yn gysylltiedig â'r asesiad hwn. Mae plant ifanc yn dysgu orau drwy chwarae, siarad, a phrofi gweithgareddau a chwrdd â phobl all ysgogi ymadwaith cymdeithasol.

## Mae gofal ac addysg o ansawdd angen staff wedi'u hyfforddi'n dda a hyfforddiant a chefnogaeth barhaus.

Sylweddolwn fod dysgu yn yr oedran hwn yn gyfannol ac na ellir ei osod mewn adrannau meysydd pwnc. Dylai dysgu ategu, ac mewn rhai achosion ddisodli, oherwydd diffyg cymhelliad yn y cartref.

Nid yw addysg i blant tair oed yn addysg ffurfiol. Mae'r plant yn dysgu oddi wrth brofiadau ymarferol cynlluniedig a'r nesaf ânt at eistedd a "dysgu" yw pan wrandawant ar storiau neu pan ganant ganeuon a rhigymau.

Disgrifia Canlyniadau Chwenychadwy ar gyfer Dysgu Plant, a ddatblygwyd gan gyngor Cymwysterau ac Asesu Cymru (ACCAC), anghenion plant cyn-oed-ysgol mewn chwe maes profiad sy'n perthyn yn glos i ddatblygiad naturiol sgiliau a galluoedd plant. Ffurfia'r rhain sail y cwricwlwm cyn-oed-ysgol mewn meithrinfeydd gwladol. Ymdrinnir â llythrennedd a mathemateg, datblygiad creadigol, datblygiad personol a chymdeithasol, datblygiad corfforol a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd drwy weithgareddau ymarferol sy'n cefnogi datblygiad yn y meysydd hyn.

Mae'n ffaith anffodus nad yw nifer o gartrefi ym Mlaenau Gwent yn darparu'r amgylchedd ysgogol sy'n angenrheidiol i blant ffynnu a datblygu'r sgiliau hyn. Mae'r cartrefi mwyaf llewyrchus yn ariannol yn aml yn cynnwys rhieni sy'n gweithio'n llawn-amser a heb fod yn ymwybodol o anghenion plant ifainc. Nid yw'r cartrefi hyn a'r rheiny o'r ardaloedd mwy diffygiol yn gymdeithasol-economaidd yn aml yn gwerthfawrogi anghenion cymdeithasol a ieithyddol y plentyn, yn fwy drwy ddiffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad plentyn na diffyg cariad a gofal. Mae'n hanfodol i'r holl blant hyn eu bod yn profi addysg yn dair oed fydd yn neilltuo'r ymadwaith cymdeithasol, y profiadau ieithyddol a chreadigol a'r cyfleoedd ar gyfer chwarae a datblygiad corfforol sy'n annhebygol o fod ar gael yn eu cartrefi.

Seilir addysg yn yr oed hwn yn gadarn ar chwarae. Mae dysgu plentyn drwy brofiadau ymarferol wedi'u cyfuno â sgwrsio â phlant eraill ac ymyrraeth gydymdeimladwy gan oedolion wedi'u hyfforddi fydd yn deall pan ymunant mewn sgwrs neu weithgarwch y byddant yn ehangu dysgu plentyn, ac y bydd y plentyn yn dysgu drwy chwarae annibynnol o fewn gweithgareddau wedi'u cynllunio'n effeithiol.

Mae pob plentyn yn unigryw, gyda gwahanol ddoniau a diddordebau, ac fe ddaw i'r ysgol ag amrywiaeth o brofiadau ar y rhai y mae'n rhaid i'r athro adeiladu. Gall plentyn tair oed ddod o gartref wedi dysgu llawer eisoes, ond bydd cwricwlwm wedi'i gynllunio'n ofalus ac yn effeithiol yn ychwanegu'n sylweddol at y profiadau y gall y plentyn eu mwynhau, a bydd yn galluogi'r plentyn i ymarfer sgiliau sy'n annhebygol o gael eu datblygu hyd yn oed yn y cartref gorau. Bydd yr athro profiadol a hyfforddwyd yn dda yn deall anghenion pob plentyn, y modd mae pob plentyn yn dysgu a bydd yn cynllunio gweithgareddau i ategu a chefnogi dysgu'r plentyn unigol.

## Cost Ehangu’r Ddarpariaeth a’r Effaith ar Ddarparwyr Gofal Plant

Mae Awdurdod Addysg Lleol Blaenau Gwent wedi hen sylweddoli pa mor hanfodol bwysig yw Addysg yn y Blynyddoedd Cynnar. Rydym wedi defnyddio adnoddau o'n cyllideb addysgol i sicrhau bod ein plant tair oed yn cael y cyfle i dderbyn addysg cyn-oed-ysgol o ansawdd. Caiff ein holl blant tair oed y cyfle i fynychu ar raddfa hanner-amser feithrinfa wladol o'r Medi wedi'u pen blwydd yn

dair oed. Caniateir addysg feithrin lawn-amser i rai ag Anghenion Arbennig neu o deuluoedd un rhiant a'r rhiant yn gweithio neu'n astudio'n llawn-amser, ond fe fyddem yn dymuno ehangu'r ddarpariaeth hon i grŵp ehangach o blant "anghenus".

Teimlwn fod hyn yn rheidrwydd er mwyn darparu cefndir ar gyfer ein plant a hwnnw wedi'i sylfaenu ar brofiadau addysgol a phrofiad cadarn pan fyddant yn cychwyn yn llawn-amser yn yr ysgol. Mae'n plant yn ddifreintiedig; rhaid i ni leddfu effaith hyn gymaint â phosib er mwyn rhoi iddynt gyfle teg i lwyddo yn eu gyrfaoedd ysgol.

Os yw'r Cynulliad yn bwriadu cefnogi addysg ar gyfer plant tair oed, byddem ni ym Mlaenau Gwent yn croesawu hynny'n galonnog. Byddai cefnogaeth o du'r Llywodraeth yn golygu bod pob disgybl yn yr AALl yn elwa o gyllido mwy sylweddol, gan y byddai addysg y Blynyddoedd Cynnar wedyn yn cael peth cyllid o'r Cynulliad Cymreig a gellid defnyddio mwy o'n cyllideb addysgol ar gyfer plant o oed ysgol gorfodol.

Mae darparwyr gofal plant ym Mlaenau Gwent yn gweithio mewn cydweithrediad clos â'r AALl, diolch i ddatblygiad fforwm y Blynyddoedd Cynnar, oedd eisoes mewn bodolaeth ym Mlaenau Gwent cyn cyfarwyddyd y llywodraeth. Mae Gwarchodwyr Plant, Grwpiau chwarae cyn-oed-ysgol a lleoliadau a gynhelir gan yr AALl, ynghyd â Mudiad Ysgolion Meithrin yn gweithio ar y cyd, ac mae plant yn symud o un lleoliad i leoliad arall pan fyddant yn yr oed priodol, ac weithiau yn mynychu un lleoliad yn y boreau (e.e. dosbarth meithrin gwladol) ac un arall yn y prynhawnau (e.e. Gwarchodwr Plant/Grŵp Chwarae Cyn-Oed-Ysgol).

Mae egwyddor "Gwerth Gorau" yn mynnu bod AALlau yn arddangos defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau ac yn sicrhau bod dyblygu darpariaeth yn cael ei osgoi. Fel y cyfryw, lle mae lle ar gael mewn meithrinfa wladol mae cyllid ar gael yn unig ar gyfer lle mewn lleoliad anwladol os gall y rhieni ddangos y gellir cyflenwi anghenion penodol y plentyn hwn yn well yn y lleoliad hwn. Derbynnir hyn gan y bartneriaeth ac ni olygai leihau'r ddarpariaeth o'r sector anwladol, sydd yn derbyn plant o oed iau na'r sector gwladol. Gwariwyd £830,000 ar blant tair oed yn y sector meithrin (plant tair i bedair oed) ym 1998-9. Mae'r AALl yn ogystal yn cyflogi athro ymgynghorol i'r Blynyddoedd Cynnar i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ledled yr ardal, ac i gydlynu anghenion hyfforddiant yr holl gyfranogwyr yn y lleoliadau gwladol a'r rhai anwladol.

Teimla aelodau AALl Blaenau Gwent fod addysg i blant tair oed yn angenrheidiol a byddent wrth eu bodd petai'r Cynulliad yn ei fabwysiadu fel polisi ar gyfer ei ddatblygu, ac yn cynyddu lefelau cyllido o ganlyniad.

# Sir Gaerfyrddin

Mae AALI Sir Gaerfyrddin yn cydnabod bod y pum mlynedd gyntaf o fywyd plentyn yn gyfnod pwysig iawn o ran addysg. Mae plant angen profiadau sy'n annog pob agwedd ar ddatblygiad; cymdeithasol, corfforol a deallusol.

- 'Yn y blynyddoedd cynnar y mae plant yn ennill y sgiliau sylfaenol (ar gyfer dysgu a byw a gweithio gydag eraill) fydd yn eu gwasanaethu am weddill eu hoes. Mae'r profiadau addysgol a gaiff plant ym more oes yn hanfodol bwysig ar gyfer datblgu'r sgiliau hyn ac mae'n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer y blynyddoedd dilynol yn yr ysgol ac ym myd addysg bellach. Heb sylfaen gadarn bydd ein hymdrechion i wella safonau addysgol yn ein hysgolion a'n colegau yn cael eu cyfaddawdu.' ('Counting to Five' Y Comisiwn Archwilio 1997)

- Ers sawl blwyddyn, roedd y cyn awdurdod addysg lleol, a'r awdurdod presennol, AALI Sir Gaerfyrddin, ynghyd ag awdurdodau'r esgobaeth wedi darparu llefydd ysgol llawn amser di-dâl yn y sector a gynhelir ar gyfer pob plentyn, a hynny yn y tymor oedd yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair. O dan drefniadau cynllun Datblygu y Blynyddoedd Cynnar 1998-99, ehangwyd y ddarpariaeth i un tymor arall. Gwneir y ddarpariaeth hon mewn ysgolion sirol, Cynradd, Gwirfoddol Rheoledig a Gwirfoddol Cymorthedig - rhai mewn dosbarthiadau meithrin penodol, ac eraill mewn dosbarthiadau blynyddoedd cynnar. Mae lledaeniad yr ysgolion yn sicrhau bod y cyfryw ddarpariaeth ar gael ledled y Sir. Mewn rhai mannau, gall plant tair blwydd oed fynychu naill ai'n llawn amser neu'n rhan amser.

- Yn 1999-2000, cynigir llefydd llawn amser di-dâl ar gyfer plant tair blwydd oed hŷn a phob plentyn 4 blwydd oed yn yr holl ysgolion yn y sector a gynhelir fel ganlyn:

- Yn Nhymor yr Hydref 1999-ar gyfer y rheini a aned rhwng 1 Medi 1995 a 31 Rhagfyr 1995

- Yn Nhymor y Gwanwyn 2000-ar gyfer y rheini a aned rhwng 1 Ionawr 1996 a 31 Mawrth 1996

- Yn Nhymor yr Haf 2000 ar gyfer y rheini a aned rhwng 1 Ebrill 1996 a 31 Awst 1996

- Hefyd, bydd rhai ysgolion yn cynnig llefydd ar gyfer plant tair blwydd oed iau naill ai'n rhan amser neu'n llawn amser.

- Fodd bynnag, ni all plant tair blwydd oed iau fanteisio ar addysg ar draws yr AALI. Ar hyn o bryd yn yr ardaloedd trefol yn bennaf y mae'r ddarpariaeth ar gyfer y cyfryw blant.

Cred AALI Sir Gaerfyrddin bod:

- gan yr holl blant tair blwydd oed hawl gyfartal i ddarpariaeth o safon uchel

- dylai'r ddarpariaeth hon ganolbwyntio ar safon addysgol a dylai dderbyn adnoddau priodol

- gellir disgrifio rôl y ddarpariaeth addysgol hon yn fras fel o fewn cyd-destun datblygiad cymdeithasol, deallusol ac emosiynol y plentyn ifanc.

- y prif werth a roddir ar addysg y blynyddoedd cynnar yw ei botensial i fod o werth parhaol i'r plentyn unigol

- ni ellir gwahanu'r cyfryw botensial oddi wrth safon a chynnwys y cwricwlwm
- effeithiolrwydd y cysylltiadau cartref/ysgol
- parhad yn y profiad addysgol o'r cyfnod meithrin i addysg gynradd.
- mae'r dulliau dysgu a ddefnyddir gan blant ifanc yn tueddu i bennu patrwm ar gyfer strategau a ddefnyddir ganddynt drwy gydol eu hoes. Os anogir plant i fod yn ddysgwyr annibynnol, chwilfrydig, bywiog ac ymchwiliol, mae'n dra thebygol y byddant yn parhau i ddefnyddio'r cyfryw dechnegau.
- mae ysgol yn rhoi cyfle i lawer o blant fagu hyder. Bydd llawer o blant, yn enwedig mewn ardaloedd cefn gwlad, heb gael cyfle i chwarae a rhyngweithio gyda'u cyfoedion. Mae'r profiad o weithio, rhannu a siarad mewn grwpiau o wahanol niferoedd yn helpu plant i ymddwyn mewn cyd-destunau cymdeithasol.
- bydd derbyn plant tair blwydd oed i ysgolion yn helpu ymhellach y broses o sicrhau dwyieithrwydd yn gynnar yn eu hoes.
- i ddechrau mae plant ifanc angen peth iaith gynnal i'w helpu i adlewyrchu'n annibynnol ac i fynegi eu meddyliau yn glir. Mae addysgwyr cymwys, hyfforddedig y blynyddoedd cynnar yn rhoi lle canolog i siarad a gwrando mewn pob gweithgaredd gan annog plant i ddisgrifio ac adolygu eu haddysg gyda eraill.
- mae'n hanfodol bod yr holl staff perthnasol wedi cael eu hyfforddi'n briodol ar gyfer y gwaith a wneir ganddynt gyda phlant dan 5, boed hwnnw'n hyfforddiant cychwynnol neu yn hyfforddiant mewn swydd.

## Y gost o ehangu'r ddarpariaeth a'r effaith ar ddarparwyr gofal plant

### Costau

Er mwyn i'r holl blant tair blwydd oed yn Sir Gaerfyrddin gael addysg amser llawn ar ddechrau'r tymor pan fyddant yn cael eu pen-blwydd yn dair, byddwn yn amcangyfrif cost o oddeutu £1.5 miliwn. Mae darpariaeth ran amser eisoes ar gael yn ardaloedd cefn gwlad. Yr unig ateb rhesymol fyddai darpariaeth llawn amser drwy'r sir. Refeniw yn unig yw'r £1.5 miliwn. Mae'n anodd amcangyfrif faint o gyfalaf fydd ei angen, ond gan fod nifer fawr o lefydd dros ben, ni ddylai'r adnoddau cyfalaf fod yn rhy sylweddol.

### Yr effaith ar ddarparwyr gofal plant

Nid oes llawer iawn o ddarpariaeth gofal plant yn Sir Gaerfyrddin ac ni ddylai'r effaith fod yn sylweddol gan y gallai'r darparwyr presennol gynyddu nifer y plant iau sydd ganddynt.

# Ceredigion

### A Gwerth addysgol a datblygiadol addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 oed.

- Y rhieni yw addysgwyr cyntaf plentyn ac ni ddylid creu'r argaraff mai 'addysg' y tu allan i'r cartref yw'r unig ffordd, na'r ffordd orau ac addas bob amser i sicrhau datblygiad llawn plentyn tair mlwydd oed.

- Yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn gosodir y seiliau y bydd plant yn adeiladu gweddill eu bywyd arnynt. Y mae'r cyfnod hwn yn bwysig ynddo'i hun ac nid yn unig fel paratoad i fod yn oedolion. Y mae'n bwysig fod darparwyr addysg gynnar yn ystyried hyn ac nid fel darpariaeth i gyfnodau dysgu maes o law yn unig.

- Trwy 'addysg' gynnar o ansawdd dda, gosodir sylfaen gadarn at y dyfodol mewn datblygiad personol, cymdeithasol a meddyliol. Bydd addysg o'r fath hefyd yn gosod y seiliau ar gyfer llythrennedd, rhifedd a deall y byd o'u cwmpas.

- Mae addysg gynnar o ansawdd dda yn:

  - cyfrannu at dwf a datblygiad y plentyn cyflawn.
  - sicrhau ymwneud gweithredol a phrofiadau perthnasol uniongyrchol mewn amgylchedd sy'n gyfoethog o bosibiliadau dysgu os ydy'r rhieni yn dymuno hynny.
  - cyfrannu at ddatblygiad llawn plentyn os ydy wedi selio ar egwyddorion da o ddysgu trwy chwarae a darganfod, caffael a defnyddio iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd, ymchwilio a darganfod am y byd o'u cwmpas.
  - cynnig cyfleoedd a phrofiadau sy'n arwain plant ifanc at ymwybyddiaeth o'u Cymreictod - ei hiaith a'i diwylliant fel ac y gwneir ar hyn o bryd gan y Mudiad Ysgolion Meithrin ac Unedau Meithrin yr AALL. Maent yn gosod sail ieithyddol ddwyieithog i'r plant mewn Sir sydd â'r Gymraeg yn brif gyfrwng dysgu yn y mwyafrif o ysgolion ond sydd â phob ysgol yn anelu at ddwyieithrwydd cyfartal. Y mae'r cyfleoedd hyn yn werthfawr i'r plant bach hynny sy'n dod o gartrefi nad ydy'r Gymraeg yn iaith gyntaf ynddynt.
  - gwerthfawrogi cyfraniad rhieni neu ofalwyr i addysg eu plant ac yn annog partneriaeth weithredol rhyngddynt.
  - sicrhau cyfleoedd cyfartal i blant anghenion arbennig, i rai o wahanol ddiwylliannau ac i ferched a bechgyn.

- Mae addysgu plant ifanc yn gymhleth ac yn dasg sy'n hawlio llawer oddi wrth y sawl sy'n glwm yn y broses. Gofynnir am amrediad eang o sgiliau, deallusrwydd eang a thrylwyr o ofynion addysgiadol a datblygiadol plant o'r oed dan sylw yn ogystal â phriodoleddau eraill er mwyn gweithio'n effeithiol gyda phlant o'r oed yma. Erys y ddadl ai yn y cartref gyda'u rhieni y dylai plant mor ifanc â hyn fod.

- Ai addysgu plant 3 oed sydd ei angen neu addysgu rhieni ar sut i fod yn rhieni da? A ddylem 'orfodi' rhieni i fynd allan i weithio yn hytrach na'u hannog i aros adref i gyflawni eu dyletswyddau?

## B. Cost ehangu'r ddarpariaeth a'r effaith ar ddarparwyr gofal plant

- Ynghlwm wrth ofynion cyllidol darpariaeth addas a phwrpasol ar gyfer yr oed yma ceir nifer o ffactorau:

  - addasrwydd adeiladau a'r gost o'u cynnal. Ar hyn o bryd ceir amrywiaeth mawr o fewn Ceredigion. (Gweler y darlun presennol o fewn y Sir).
  - cymwysterau yr oedolion sy'n darparu'r addysg. Ceir amrywiaeth ar hyn o bryd o athrawon cymwysedig i ddarparwyr gwirfoddol â chymhwyster NVQ.
  - cost hyfforddiant er mwyn sicrhau ansawdd.
  - y gwahaniaeth yn y gymhareb plant i oedolion. Ceir amrywiaeth mawr rhwng y sector a gynhelir sef 1 oedolyn i 13 o blant, i'r sector nas cynhelir - 1 oedolyn i 8 o blant. Y mae angen cysoni'r gymhareb yn y ddwy sector. Byddai goblygiadau ariannol mawr os y gwneir hyn.
  - cost arolygu'r ddarpariaeth. Y mae'r ddarpariaeth nas cynhelir yn cael ei arolygu yn flynyddol gan arolygwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar iechyd a diogelwch yn bennaf. Adolygiadau bob 6 mlynedd a geir yn y sector a gynhelir sy'n canolbwyntio ar ansawdd gyfan y ddarpariaeth. Bydd yn ofynnol hefyd i'r Partneriaethau i arolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y ddarpariaeth o'r ansawdd orau ac yn addas i ofynion y Sir.
  - adnoddau addas. Y mae darpariaeth addysgol addas i'r oed yma yn gofyn am lawer o adnoddau chwarae / darganfod mawr, costus, yn ogystal â chronfa dda o adnoddau mân.
  - teithio / cludo plant mewn ardaloedd gwledig yn arbennig. Lleolir y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth gynaledig a phreifat ar hyn o bryd yn y trefi a'r ddarpariaeth nas cynhelir yn yr ardaloedd gwledig. Byddai canoli'r ddarpariaeth mewn lleoliadau pwrpasol yn golygu cludo plant. Ar hyn o bryd caiff plant eu cludo gan ddarparwyr yr AALL os oes lle ar y bws/car yn unig. Rhaid hefyd ystyried y gofyn am ofalwyr gyda phlant mor fach â hyn.
  - cost gweinyddu. Gweinyddir y sector yma ar hyn o bryd gan yr asiantaethau sy'n gyfrifol amdanynt. Os y trosglwyddir yr arian i'r Partneriaethau yna bydd angen gweinyddwr/wyr i ofalu am y gwaith cymhleth yma.

- Y darlun presennol o fewn Ceredigion -

  - Y mae holl blant 4 oed, sydd â'u rhieni yn dymuno hynny, ar hyn o bryd yn cael eu haddysgu o fewn ysgolion yr Awdurdod Addysg Lleol.
  - Y mae nifer helaeth o'r ddarpariaeth yma mewn dosbarthiadau o oed cymysg - rhai o ddau oed dysgu ond eraill yn cynnwys plant o 4 i 7 mlwydd oed fel y dengys y tabl isod:

| Dosbarth gydag un ystod oedran | Dosbarth gyda dau ystod oedran | Dosbarth gyda thri ystod oedran |
|---|---|---|
| 26% | 13% | 61% |

- Ceir 8 dosbarth meithrin penodedig o fewn y Sir sy'n darparu addysg rhan amser i ddisgyblion 3 mlwydd oed (ychydig yn llai na hanner y plant 3 oed). Cyflwynir addysg ddwyieithog gyda'r pwyslais ar brif iaith yr ysgol
- Caiff gweddill plant 3 oed Ceredigion gyfle i addysg ran amser mewn gwahanol sefyllfaoedd ac o dan reolaeth wahanol ddarparwyr -
- 58 o Gylchoedd Meithrin o dan adain y Mudiad Ysgolion Meithrin sy'n cael eu cynnal mewn llefydd amrywiol megis adeiladau pwrpasol ar gampws ysgol, neuaddau pentref neu festri capel. Y Gymraeg yw prif gyfrwng y ddarpariaeth i gyd-fynd â'r ysgolion cyfagos.
- 6 Ysgol Feithrin Breifat sydd wedi eu cynllunio yn bwrpasol i gynnig gofal dydd yn ogystal ag addysg.
- 3 yn ddarpariaeth breifat a 3 yn gysylltiedig â gweithle. Trefnir darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'r rhieni sy'n dewis hynny gan adran o'r Mudiad Ysgolion Meithrin
- 6 o Gylchoedd Meithrin o dan adain Cymdeithas Cyn Chwarae (Cymru) , sydd hefyd yn cynnig addysg ran amser i blant 3 oed mewn adeiladau amrywiol yr un fath a'r MYM. Darpariaeth Saesneg yn bennaf a geir yn y cylchoedd hyn a chyflwynir y Gymraeg fel ail-iaith gan swyddog iaith y mudiad.
- Nifer helaeth o ofalwyr plant yn eu cartrefi - cofrestredig a heb eu cofrestru megis aelodau o deuluoedd neu ffrindiau. Caiff y darparwyr cofrestredig gefnogaeth swyddog datblygu Cymdeithas Genedlaethol Gwarchodwyr Plant.

## Effaith ar ddarparwyr gofal plant

- Bydd dyfodol mudiadau gwirfoddol megis y Mudiad Ysgolion Meithrin a'r Gymdeithas Cyn Chwarae yn y fantol os yr ariennir darpariaeth i blant 3 oed yn y sector a gynhelir yn unig.

- Sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysgol yn ogystal â gofal. Bydd yn rheidrwydd ar bob darparwr i gwrdd â gofynion Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a fydd yn cydymffurfio â gofynion y Cynulliad Cenedlaethol.

- Cymhwyster proffesiynol y darparwyr. Bydd angen llawer o hyfforddiant addas er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau. Pwy fydd yn ariannu hyn? Pa fath o gymhwyster a ystyrir yn addas ar gyfer addysgu plant bach 3 oed?

- Angen o hyd am ddarparwyr gofal os mai addysg ran amser a gynigir i'r plant bach yma. A fydd rhieni yn awyddus i dalu am y gofal ychwanegol hyn? A oes digon o waith ar gael yng Ngheredigion i ddenu rhieni i weithio ac i dalu am ofal?

- Cwrdd â gofynion dau fath o arolygiadau - Gwasanaethau Cymdeithasol ac ESTYN.

- Newid ym mhatrwm gofal y darparwyr gofal cartref - plant iau angen eu cludo i, a'u casglu o sefydliadau a fydd yn cynnig darpariaeth addysgol.

# Dinas a Sir Caerdydd

## a) Gwerth addysgol a datblygiadol addysg y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed

### Rhagarweiniad

Mae'r rhai sy'n ymwneud â phlant ifanc wedi rhoi tystiolaeth ers amser maith o werth sylweddol a hir-dymor addysg y blynyddoedd cynnar. Bu Awdurdod Lleol Caerdydd yn ffyddiog ei fod o les ers blynyddoedd lawer. Yn y DU, mae addysg feithrin a gynhelir wedi'i hanelu at blant tair a phedair oed. Mae'r awdurdod lleol hwn wedi ymrwymo i ddarparu cymaint o addysg y blynyddoedd cynnar ag y bo modd gyda chyllid llywodraeth leol.

Yn y gorffennol rhoddwyd blaenoriaeth i ddarparu addysg feithrin ar gyfer yr ardaloedd hynny â'r angen cymdeithasol mwyaf. Mae plant yn yr ardaloedd hynny wedi bod yn gallu cael addysg feithrin gan yr AALl cyn gynted a'u bod yn dair oed. Bu hyn yn ffordd bwysig i'r awdurdod lleol hyrwyddo cyfleoedd datblygiadol ac addysgol i'r plant hynny.

Er ei bod yn anodd datod effeithiau darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar o newidynnau eraill i brofi ei buddiannau neilltuol, mae tystiolaeth ymchwil wedi cronni dros y blynyddoedd diweddar. Mae swmp o dystiolaeth ryngwladol sylweddol yn dangos yn awr fod addysg y blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn fuddiol o ran datblygiad plant, eu llwyddiant addysgol yn y dyfodol, ac yn wir, eu cyfleoedd bywyd yn y tymor hir. Dangoswyd bod y buddiannau mwyaf i'r plant sydd o dan yr anfantais ariannol fwyaf. Mae astudiaethau o'r Unol Daleithiau hefyd yn dangos bod buddiannau sylweddol o ran gwariant cyhoeddus o ddarparu addysg ardderchog yn y blynyddoedd cynnar. [1]

### Gwerth datblygiadol

Yn groes i'r farn a ddalwyd yn gyffredin gynt, mae mwyfwy o dystiolaeth wyddonol sy'n dangos nad yw plant yn cael eu geni gyda photensial meddyliol penodedig. Mae gwyddoniaeth ymennydd ddiweddar yn dangos bod galluoedd plant yn cael eu datblygu'n fwyaf sylweddol pan fyddant yn ifanc iawn, a bod y cyfleoedd dysgu y maent yn eu cael yn effeithio ar ddatblygu'r galluoedd hyn. [2]

Mae datblygu galluoedd corfforol, meddyliol ac emosiynol, a'r gallu i ddysgu, yn broses gymdeithasol o amser geni. Erbyn tair oed mae'r rhan fwyaf o blant ar eu hennill o gyfleoedd ehangach ac arbennig ar gyfer dysgu y gallai cyd-destun cymdeithasol addysg feithrin dda eu darparu.

I lawer o blant tair oed mae addysg feithrin o ansawdd dda yn gallu darparu cyfleoedd datblygu na fyddent ar gael iddynt fel arall. Gallai colli cyfleoedd datblygiadol o'r fath arwain at anfantais gynyddol fel mae'r plant yn tyfu.

---

1 Yn Arbennig astudiaethau arhydol gan Schweinhart a Weikart yn Sefydliad Ymchwil Addysgol High Scope, Ypsilanti, Michigan

2 Ymhlith ymchwilwyr blaenllaw y DU yn y maes hwn mae Susan Greenfield, Prifysgol Rhydychen

## Gwerth addysgol

Dangoswyd bod y math o addysg y mae plant ifanc yn ei chael yn hollbwysig.[3] Dangoswyd bod cwricwlwm ffurfiol seiliedig ar fedrau neu ddarpariaeth sy'n seiliedig yn gyfan gwbl ar chwarae'n rhydd yn amhriodol, ac yn mynd yn erbyn y buddiannau arfaethedig. O ganlyniad mae'n bwysig bod barn hyddysg broffesiynol y tu cefn i ddarpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae addysg gynnar lle bydd plant ifanc iawn yn profi llwyddiant yn gosod sylfaen agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae angen i'r ffyrdd o weithio ddarparu adborth fel bydd plant yn gallu dysgu meddwl am eu profiadau. Dylai dulliau helpu plant i adeiladu eu hunaniaeth a chredu eu bod yn ddysgwyr llwyddiannus a chanddynt y medrau i fynd i'r afael â heriau. Mae'r rhinweddau hyn yn ofynnol i lwyddo yn yr ysgol yn ddiweddarach ac maent yn sail dysgu gydol oes. Mae'n allweddol i blant ddatblygu yr hyn a elwir agweddau 'gallaf' neu 'meistroli dysgu' yn y cyfnod hwn.

Gallai fod yn haws sefydlu'r partneriaethau addysgol hanfodol rhwng yr ysgolion a rhieni gyda phlant ifanc iawn. Gallai darpariaeth ar gyfer plant tair oed wneud cyfraniad pwysig i gefnogi rhai rhieni wrth fagu plant a bod yn sail datblygu partneriaethau a fydd yn parhau i ategu llwyddiant plant wrth iddynt fynd drwy'r ysgol wedyn a'r tu hwnt i gyflogaeth.

## Casgliadau

Comisiynodd Comisiwn Cenedlaethol Addysg (1993) adolygiadau o'r ymchwil ar fuddiannau addysg y blynyddoedd cynnar a wnaeth argymhellion eglur i fuddsoddi yn addysg y blynyddoedd cynnar. Dim ond ategu'r casgliadau hyn mae tystiolaeth ers y dyddiad hwnnw.Mae profiad ac ymchwil yn gytûn: nid oes amheuaeth ynghylch buddiannau addysg y blynyddoedd cynnar i blant tair oed.

O ran Awdurdod Caerdydd, nid yw materion gwirioneddol datblygu polisi yn ymwneud â gwerth addysg y blynyddoedd cynnar ond, yn hytrach, â:

1. dymuno bod y Cynulliad yn rhoi cydnabyddiaeth lawn i gostau gwirioneddol darparu addysg y blynyddoedd cynnar o ansawdd da.

2. dymuno bod y Cynulliad yn egluro sut mae diffinio plentyn tair oed os bydd gofynion newydd i'w rhoi ar awdurdodau lleol. (Mae angen cysylltu hyn ag 1 uchod.)

3. pryder ynglŷn â'r anawsterau o ran ceisio cynllunio a darparu'n deg i'r rhai yr ydym ni yng Nghaerdydd yn eu galw yn 'blant tair oed iau'. Mae Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar Caerdydd yn rhoi mwy o fanylion ac yn dangos y broblem. Mae'n ymwneud ag 1 a 2 uchod.

Trafodir 2 a 3 yn narn nesaf y papur hwn. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod y rhan fwyaf o blant yn cael cynnig blwyddyn gyfan mewn dosbarth derbyn yng Nghaerdydd, fel yn y rhan fwyaf o Gymru. Yn ymarferol mae mwyafrif y plant sy'n treulio blwyddyn gyfan mewn addysg feithrin amser-llawn yn dair oed wrth ddechrau ac yn bedair wrth orffen. Fel y'i esbonnir yn y cyflwyniad, mae llawer o blant mewn rhai ardaloedd yn y ddinas wedi elwa o dros flwyddyn o brofiad mewn dosbarth meithrin.

[3] Kathy Sylva o Brifysgol Rhydychen yw ymchwilydd mwyaf blaenlaw y DU yn y maes hwn

## b) Cost ehangu a'r effaith ar ddarparwyr gofal plant

Mae nifer o faterion allweddol i Gyngor Sir Caerdydd o ran darparu lleoedd meithrin i bob plentyn tair oed, a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ddatblygu polisi yn y dyfodol. Yn y bôn, dyma'r materion hyn:

- Byddai'n anodd i'r awdurdod sefydlu lleoedd meithrin a fyddai'n gost effeithiol ac o ansawdd dda pe byddai'n bolisi cynnig lleoedd i bob plentyn 'wrth iddo droi'n dair oed'.
  Mae Caerdydd eisoes yn cynnig lle meithrin rhan-amser am ddim i bob plentyn **a fydd yn bedair oed** yn ystod y flwyddyn ysgol. Cynigir y lle hwn o fewn ysgol neu uned feithrin a gynhelir gan yr awdurdod lleol ym mhob un achos o'r bron. Mae'r polisi lleol hwn wedi galluogi llawer o blant tair oed Caerdydd i elwa o'r ddarpariaeth hon ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.

Pe byddai'n bolisi gan y llywodraeth i gynnig lleoedd meithrin i bob plentyn 'wrth iddo droi'n dair oed', byddai polisi o'r fath yn rhoi nifer o anawsterau i'r awdurdod. Byddai llawer o fethrinfeydd yn wag am ran fwyaf y flwyddyn ysgol, wrth i blant gymryd eu lle yn sgil eu pen-blwydd yn dair oed. Byddai goblygiadau o ran cyflogi staff addysgu a chefnogi i hyrwyddo'r drefn hon. Byddai angen i'r awdurdod, wrth gadw'r angen am fod yn gost-effeithiol mewn cof, sicrhau bod cymarebau ac adnoddau digonol ar waith wrth i blant fynd i'r lleoliad. Byddai'n anos i staff addysgu gynllunio a pharatoi wrth i blant ar lefelau datblygiad gwahanol gymryd lleoedd drwy'r flwyddyn.

- Byddai'n anodd i Ddarparwyr Meithrin Gwirfoddol a Phreifat Lleol ddarparu ar gyfer plant iau pe byddai'n bolisi cynnig lleoedd awdurdodau lleol i bob plentyn 'wrth iddo droi'n dair oed'.

Mae darparwyr darpariaeth feithrin wirfoddol a phreifat yn cael problemau ar hyn o bryd i gadw'n hyfyw o ganlyniad i blant iau (plant sy'n 3 oed ar ôl 31 Awst) yn cymryd lleoedd gwag o fewn ysgolion ac unedau meithrin awdurdodau lleol. Yn aml mae plentyn yn mynychu lleoliad gwirfoddol neu breifat cyn gynted ag y bydd yn dair oed. Ar hyn o bryd mae hyn yn dibynnu ar leoedd ar gael o fewn lleoliadau'r awdurdod lleol, ac felly mae'n ategu achos y Bartneriaeth bod annhegwch o ran darpariaeth feithrin yng Nghaerdydd, yn dibynnu ar y lle yn y Sir y mae'r plentyn yn digwydd byw ynddo.

Yr un mor bwysig, mae pryder gwirioneddol bod grwpiau chwarae gwirfoddol yn methu bod yn hyfyw wrth i fwy o blant tair oed symud i leoliadau a gynhelir, ac o ganlyniad, bydd llai o ddarpariaeth gwasanaethau i blant iau (2 ½ oed) a'u rhieni.

Mae'r tabl isod yn tanlinellu rhai o'r effeithiau posibl ar y sectorau statudol, preifat a gwirfoddol sy'n debyg o ddigwydd o ehangu darpariaeth feithrin i gynnwys lleoedd i bob plentyn tair oed.

| | **Effaith Bosibl ar yr Awdurdod Lleol** | **Effaith Bosibl ar Ddarparwyr nas Cynhelir** |
|---|---|---|
| **Ehangu Darpariaeth Feithrin - yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol** | • Byddai angen cyllid cyfalaf ychwanegol i'r Awdurdod Lleol adeiladu/ehangu adeiladau presennol i ddarparu lleoedd i bob plentyn tair oed<br>• Mae'n anodd rhagweld sut y gellid sicrhau darpariaeth deg ar draws y sir gan nad oes modd ffisegol i rai ysgolion ehangu i'r lleoedd newydd<br>• Byddai angen arian refeniw ychwanegol i helpu talu am staff ychwanegol i ddarparu'r lleoedd meithrin hyn<br>• Byddai angen arian refeniw ychwanegol i gefnogi plant iau y canfyddir bod Anghenion Addysgol Arbennig ganddynt (Tua £62k)<br>• Byddai ehangu darpariaeth feithrin yn effeithio ar y weinyddiaeth angenrheidiol i helpu gyda rheolaeth ganolog o dderbyn plant meithrin, a fyddai'n sicrhau sefydlu system dderbyn deg a thryloyw | • Byddai darpariaethau nas cynhelir (Gwirfoddol a Phreifat) yn cau wrth i blant iau gymryd lleoedd mewn meithrinfeydd a gynhelir<br>• Byddai darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar i blant iau (2-2½ oed) ar ei cholled, wrth i'r darpariaethau fethu â bod yn hyfyw yn ariannol.<br>• Nid yw'n debyg y byddai grwpiau arbenigol gwirfoddol megis y cynllun i blant o dan bump oed sy'n helpu plant ag anghenion arbennig yn hyfyw wrth i fwy o blant gael eu helpu mewn lleoliadau a gynhelir. Byddai hyn yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer cefnogi plant iau 2½ oed |
| **Ariannu Darpariaeth Feithrin i bob Plentyn Tair oed o Fewn Y Sectorau Gwirfoddol a Phreifat** | • Nid yw'r Awdurdod Lleol yn gallu gwarantu y byddai digon o leoliadau addysg feithrin o ansawdd uchel ar gael o fewn y sector preifat a gwirfoddol i ddarparu lleoedd meithrin i bob plentyn tair oed y mae eu rhieni yn dewis eu cymryd | • Byddai ariannu yn gwneud llawer o grwpiau sy'n cael anawsterau ar hyn o bryd yn hyfyw |

| | | |
|---|---|---|
| | • Pe byddai penderfyniad i ariannu pob lleoliad meithrin i blant tair oed yn y sectorau gwirfoddol a phreifat, yr effaith fyddai lleihau Gwasanaethau'r Awdurdod Lleol yn ardaloedd tlotaf y Sir, lle mae angen plant ar ei fwyaf.<br><br>• Pe byddai penderfyniad i ariannu pob lleoliad meithrin i blant tair oed yn y sectorau gwirfoddol a phreifat, byddai'n bosibl y byddai staff o fewn yr Awdurdod Lleol yn colli swyddi, gyda cholled gyfatebol o arbenigedd proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar. Byddai tanddefnydd o adeiladau mewn ysgolion sy'n darparu lleoedd i blant tair oed iau eisoes (yn ne'r sir yn bennaf)<br><br>• Byddai eisiau arian refeniw ychwanegol i helpu'r Awdurdod Lleol, a bydd gan yr Awdurdod gyfrifoldeb am sicrhau bod darpariaeth addysg a gofal o ansawdd uchel yn y sector nas cynhelir. Mae mwy o ddarparwyr i niferoedd llai o blant yn ychwanegu at gostau Sicrhau Ansawdd yr Awdurdod Lleol yn sylweddol ac yn creu anawsterau ychwanegol o ran bod yn gost effeithiol<br><br>• Byddai cyfrifoldeb ychwanegol ar yr Awdurdod Lleol i helpu plant tair oed ag AAA o fewn lleoliadau nas cynhelir. Byddai gan hyn oblygiadau ariannol naill ai drwy ehangu grwpiau gwirfoddol/preifat neu drwy sefydlu systemau eraill. | • Efallai yr hoffai Gofalwyr Plant Cofrestredig sy'n rhan o rwydwaith achredig gael eu hystyried ar gyfer ariannu, yn amodol ar ganllawiau pellach gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran ei waith gyda'r NCMA<br><br>• Gallai grwpiau gwirfoddol megis SNAP a'r Cynllun i Blant o dan Bump Oed ofyn am gymorth ychwanegol i'w galluogi i recriwtio, hyfforddi a rheoli gweithwyr cefnogi a fydd yn gweithio gyda phlant iau o fewn y lleoliadau gwirfoddol a phreifat |

## ATODIAD 1

### Rhagamcaniad a amcangyfrifwyd o'r galw a'r ddarpariaeth leol (addysg feithrin i blant 3 oed) ar sail costau 1999.

**EGLURHAD**

Cost uned y plentyn pob tymor ar gyfer 5 sesiwn 2½ awr yr wythnos yn ystod y tymor

£275.00

+ Sail yr wybodaeth ar y galw a'r ddarpariaeth a ragamcanir yw cyfanswm y disgyblion 3 oed yng Nghaerdydd (data cofrestrau GP 1999)

▪ Cynhwysedd cyfan yr AALI

# ('call') Cyfwerth ag amser llawn

| + | | Tymor Hydref 1999 | | | Tymor Gwanwyn 2000 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y Galw | *Lleoedd 'call' # | Diffyg lleoedd | Goblygiadau ariannol | Y Galw | *Lleoedd 'call' # | Diffyg lleodd | Goblygiadau Ariannol |
| Sir Caerdydd | 4098 | 2127 | 1971 | £542,025.00 | 4036 | 1460 | 2576 | £708,40 |

Costau a ledamcanir o ehangu darpariaeth addysg feithrin i gynnwys plant 3 oed
£2,101,825.00

Pe bai'r awdurdod yn darparu ar gyfer yr holl blant fyddai'n 3 oed yn ystod y flwyddyn ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol amcangyfrifir y byddai'r gost yn:
£3,380,850.00

Mae'r tabl uchod ar sail derbyn plant yn raddol, fel bydd plant yn troi'n dair oed. Er hynny gallai'r ymagwedd hon godi materion o ran cyflogaeth ac efallai leihau safonau'r ddarpariaeth.

# Dinas a Sir Abertawe

## Gwerth addysgiadol a datblygiadol Addysg y Blynyddoedd Cynnar i blant tair oed

Mae addysg a gofal y Blynyddoedd Cynnar yn rhan hanfodol o addysg o ansawdd da ac hefyd yn rhan hanfodol o'n polisi economaidd.  Mae Dinas a Sir Abertawe wedi rhoi blaenoriaeth i ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ac yn parhau i wneud hynny.

Mae gan Abertawe draddodiad hir o ddarparu addysg Feithrin wedi ei seilio ar egwyddorion cadarn datblygiad plentyn.  Mae'r plentyn cyfan yn bwysig: pwysleisir iechyd a datblygiad corfforol a meddyliol yn ogystal â phwysigrwydd teimladau ac agweddau meddyliol ac ysbrydol.

Mae cychwyn yn yr ysgol yn un o brofiadau pwysicaf bywyd plentyn.  Mae'n gam i fyd newydd a ddylai fod yn gyffrous ac yn gynhyrfus ac y mae datblygiad y plentyn i'r dyfodol yn dibynnu'n fawr ar ddisgwyliadau a chanfyddiadau'r staff sydd yn gweithio gyda hwy.

Mae'r dysgu pwysicaf oll mewn addysg dan oed ysgol (meithrin) yn ymwneud â dyheadau, cymdeithasoli a hunan-barch.  Nid yw neb yn dysgu'n effeithiol heb gymhelliant, sgiliau cymdeithasol a hyder, a phrin iawn yw'r rheini sy'n methu dysgu'n llwyddiannus os ydynt wedi datblygu'r agweddau a'r anianau galluogi hyn tuag at ddysgu.  Dylai cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar ymwneud â chyd-destun dysgu yn ogystal â'r cynnwys.

Bydd plant ifanc yn dysgu trwy arsylwi, ymchwilio a rhyngweithio â phobl a'r amgylchfyd.  Ni ddylai dysgu fod yn oddefol nac yn ddidactig ond yn weithredol.  Dylai fod yn bleserus ac yn hyrwyddo cywreinrwydd naturiol bob plentyn.  Uwchlaw pob dim, rhaid iddo fod yn berthnasol i'r plentyn.  Mae gan chwarae rôl sylfaenol mewn plentyndod cynnar gan ddarparu'r sylfaen ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Bydd pob plentyn yn cychwyn yn yr ysgol â phrofiadau cartref eang a gwahanol a fydd wedi eu dysgu'n anffurfiol.  Mae'n hynod bwysig fod ysgolion yn cychwyn ag anghenion y plentyn ac yn parhau i ddarparu amgylchedd dysgu anffurfiol a thrwy brofiadau sy'n ategu ac yn cyfannu'r sefyllfa gartref.  Dylai'r ysgol werthfawrogi'r 'gwaddol' a ddaw gyda'r plentyn i'r ysgol a rôl y rhieni fel addysgwyr cyntaf y plentyn.  Partneriaeth wirioneddol rhwng plant, eu rhieni a'r ysgol yw addysg yr ifanc.  Mae gan bob un o'r rhain rôl yn natblygiad y sgiliau dysgu.

Dylid ystyried plentyndod fel rhywbeth dilys ynddo'i hun, fel rhan o fywyd ac nid paratoad ar gyfer bywyd fel oedolyn yn unig.  Dylid edrych ar yr addysg hon yn yr un modd, fel rhywbeth presennol ac nid paratoad a hyfforddiant ar gyfer y dyfodol yn unig.  Serch hynny, gall addysg briodol ar gyfer plant tair blwydd oed sy'n cynnwys asesu fod o gymorth wrth adnabod plant ag anghenion addysgol arbennig yn gynnar a thrwy hynny, lunio cynllun addysg unigol priodol ar eu cyfer.

Mae gan bob plentyn yr hawl i gychwyn cyfartal yn eu bywyd.  Gall addysg a gofal plant tair oed ddarparu gwell cychwyniad i blant erbyn iddynt gyrraedd oed ysgol gorfodol.

Mae'r sgiliau a'r cymwyseddau y bydd plant ifanc yn eu meithrin yn ystod y blynyddoedd cyn addysg ffurfiol yn holl bwysig i'w datblygiad personol cyffredinol.  Bydd y rhain nid yn unig yn galluogi plant i ymfalchïo yn eu cyraeddiadau ond hefyd gallant ganfod, wrth gaffael y sgiliau personol hyn, gyda chymorth wrthom ni, eu bod yn bobl effeithiol a chymwys.

Bydd cwricwlwm Blynyddoedd Cynnar da yn hyrwyddo dysgu gweithredol a meddyliau bywiog. Dylid cynllunio'r cwricwlwm fel y bo'n darparu ar gyfer cyfnod datblygiad, anghenion a diddordebau bob plentyn, a dylai'r cwricwlwm fod yn eang, yn gytbwys, yn berthnasol, yn wahaniaethol ac yn gydlynus.

Mae cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi niweidio ansawdd dysgu plentyndod cynnar ac mae angen ailffocysu'r blaenoriaethau addysgu a dysgu i blant ifanc os ydynt i lwyddo'n addysgiadol ac yn gymdeithasol. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r pwysau ddod o'r gwaelod - o ddysgu cynnar o ansawdd - yn hytrach nag o'r pen i lawr o ffurfioldeb y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Dylid darparu cwricwlwm priodol i ddatblygiad ar gyfer plant ifanc sydd wedi ei gynllunio i gwrdd â'u hanghenion a'u diddordebau ac yn eu galluogi i ddatblygu yn ôl eu gallu. Dylid cyflwyno'r cwricwlwm hwnnw mewn dull sy'n berthnasol i anghenion y plant, drwy chwarae strwythuredig a rhaglenni dysgu drwy brofiadau. Nid yw methodoleg ffurfiol yn arddull addysgu briodol wrth ymwneud â phlant ifanc a dylai athrawon fod yn ofalus rhag cyflwyno rhai cysyniadau a sgiliau cyn i'r plant fod yn barod o ran eu datblygiad.

Mae'r ddogfen 'Canlyniadau dymunol i ddysgu plant cyn oed ysgol gorfodol' yn datgan ei bod wedi ei bwriadu fel cwricwlwm i blant cyn iddynt gyrraedd pum mlwydd oed pan fo addysg statudol yn cychwyn.

Mae diweddariad 1995 y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru yn dweud bod Cyfnod Allweddol 1 yn cynnwys Blwyddyn 1 a 2 yn fras gyda diffiniadau manwl yn 3 (3-6) y Ddeddf Diwygio Addysg, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 1993. Mae hyn yn awgrymu mai rhaglen dwy flynedd o addysg drwy brofiadau fydd 'Canlyniadau dymunol i ddysgu plant cyn oed ysgol gorfodol' yn ysgolion Dinas a Sir Abertawe.

Yn sicr, gall arfer dda y Blynyddoedd Cynnar gynnig rhai agweddau ar y Cwricwlwm Cenedlaethol i blant sy'n barod i hynny o ran datblygiad yn ystod y Flwyddyn Derbyn ond dylid osgoi cyflwyniad cynamserol i waith ysgrifennu ffurfiol. Ni ddylid defnyddio blynyddoedd cynnar addysg fel ffordd i ysgafnhau baich cynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol gan ddisgwyl i blant gyflawni tasgau cwbl anaddas. Yn ôl y dystiolaeth, mae hynny wedi arwain at fethiant yn yr ysgol yn nes ymlaen.

## Cost ehangu a'r effaith ar ofal plant

Ar hyn o bryd mae 2,834 o blant 3 oed yn derbyn 0.5 Addysg Feithrin rhan amser yn ysgolion Abertawe. Mae'r AALl yn ariannu ysgolion i ddarparu addysg ran amser o'r mis Medi yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn dair oed. Mae gan ysgolion yr hawl i dderbyn plant yn gynharach ee. yn syth ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed os oes lle ac maent yn ariannu hynny o'u hadnoddau dirprwyedig eu hunain. Cost y ddarpariaeth hon yw £3.3 miliwn.

Noder: mae'r AALl yn cynnig lle amser llawn i holl ddisgyblion Dinas a Sir Abertawe yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Felly mae Dinas a Sir Abertawe yn cyflawni'r gofynion statudol a mwy mewn perthynas ag addysg plant tair a phedair oed ac nid oes gan y sir gynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth ar hyn o bryd.

Gallai cynyddu'r ddarpariaeth yn Abertawe olygu:

- ariannu plant tair oed yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed;
- ariannu addysg Feithrin amser llawn i blant tair oed.

Nid yw cost yr opsiwn cyntaf yn hysbys. Byddai cost yr ail opsiwn yn £3.3 miliwn o leiaf heb gynnwys cost cyfalaf adeiladau neu ymestyn ystafelloedd dosbarth. Byddai costau ychwanegol hefyd ar gyfer:

a) Hyfforddi

Byddai cost ychwanegol hyfforddi staff:

- byddai angen cynyddu arian GEST i ddatblygu dealltwriaeth a sgiliau'r athrawon sy'n gyfrifol am addysg y Blynyddoedd Cynnar.
- Hyfforddiant wedi'i sybsideiddio ar gyfer staff, ee. NNEBs, NVQs, Cynorthwywyr Dysgu.
- Arian i hyfforddi Ymgynghorwyr Cynradd, Ymgynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar, Swyddogion Datblygu, Arolygwyr, Hyfforddwyr.

b) Staffio

Cost Ychwanegol ar gyfer:

- Athro Blynyddoedd Cynnar i bob sefyllfa.
- Gwella cymhareb oedolion i blant i gydweddu â gofynion addysg Feithrin.

c) Adnoddau ffisegol

- Gwella ystafelloedd dosbarth i gwrdd ag anghenion plant tair oed. Mae goblygiadau o ran maint, lle, ardaloedd a chyfarpar.
- Gwella cyfleusterau toiledau i'w haddasu ar gyfer plant bach.
- Gwella a chreu adnoddau ar gyfer chwarae awyr agored.
- Mesurau diogelwch i unedau Blynyddoedd Cynnar.

Nid yw'n bosib rhoi amcangyfrif manwl am y rhain.

## Effaith ehangu'r ddarpariaeth ar ddarparwyr gofal plant

Mae'r ymateb hwn wedi canolbwyntio ar effaith y ddarpariaeth yn y sector a gynhelir. Ar hyn o bryd, mae Wales Pre-school Playgroups Association, Mudiad Ysgolion Meithrin, Meithrinfeydd Dydd Preifat, a Gofalwyr Plant yn darparu ar gyfer plant tair oed. Mae'n anodd rhagweld yr effaith ar y ddarpariaeth gofal plant ond mae'r profiad yn Lloegr yn awgrymu y gallai hynny fod yn andwyol. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried yr effaith posib ar ddarpariaeth y Gymraeg yn ofalus gan fod nifer o grwpiau'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn fach.

# CONWY

Mae Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar Conwy yn datgan fod plant 3 oed yn mynychu ysgolion a gynhelir yn rhan amser (.5) o'r Medi ar ôl iddynt gael eu penblwydd yn dair oed. Mae'r ddarpariaeth ar gael ymhob ysgol gynradd a babanod a gynhelir o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r Cynllun yn cael ei adolygu yn flynyddol. Mae AALl Conwy yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r amrywiaeth o ddarpariaeth ar gyfer plant cyn iddynt ddechrau'n rhan-amser yn yr ysgol ac mae'n dymuno i'r sefyllfa barhau.

## Ymateb i elfennau penodol o'r cylch gwaith:

(a) Gwerth addysgol a datblygol addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 oed

Mae'r plant nad ydynt yn mynychu ysgol yn rhan-amser, sef y plant sy'n agos i 3 oed neu'n 3 oed ifanc yn manteisio o fod yn rhan o sefyllfa anffurfiol gyda gweithgareddau yn seiliedig ar chwarae a chanran uchel oedolyn:plentyn. Mae hyn yn galluogi pob plentyn i ddatblygu yn ôl ei allu ei hun cyn mynychu ysgol ac mae'n caniatau i rieni ddewis oriau hyblyg er mwyn ateb gofynion y plentyn.

Mae AALl Conwy yn cefnogi'r datblygiad o addysg blynyddoedd cynnar anffurfiol i'r ffurfiol gynyddol.

Mae'r ddarpariaeth ran-amser i blant 3 oed hynaf yn yr ysgolion yn sicrhau integreiddio graddol a chymdeithasau o fewn sefyllfa mwy ffurfiol. Mae hefyd y cyflwyno plant i'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer dysgu plant (ACCAC) o fewn yr oedran addas. Mae'r AALl yn croesawu y camu cadarnhaol sy'n cymryd lle yng Nghonwy ynglŷn â chysylltiadau a hyfforddiant ar y cyd gyda'r sector anstatudol. Bydd hyn yn arwain at brofiadau o ansawdd ar gyfer holl blant 3 oed o fewn y Sir ymhob sefyllfa.

(b) Cost ei ehangu a'r effaith ar ddarparwyr gofal plant

Mae AALl Conwy yn croesawu parhau gyda'r sefyllfa presennol yng Nghonwy sydd ar hyn o bryd yn golygu nad oes cost ychwanegol ar gyfer plant sy'n mynychu'r ysgol yn mis Medi ar ôl eu penblwydd yn 3 oed. Byddai AALl Conwy yn croesawu sicrhau cyllid er mwyn cael darpariaeth cyn-ysgol o ansawdd uchel gyda'r pwyslais ar weithgareddau sy'n seiliedig ar brofiadau chwarae.

Byddai cryfhau'r ddarpariaeth yn hynod gost effeithiol.

Mae AALl Conwy yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi swyddogaeth y sector anstatudol yn y ddarpariaeth ar gyfer plant 3 oed cyn-ysgol ac mae'n gweithio mewn partneriaeth agos gyda'r sector hwn drwy'r Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Strategaeth Gofal Plant.

# SIR DDINBYCH

Mae'r AALI yn darparu lle llawn-amser i bob plentyn o'r mis Medi ar ôl eu 4ydd pen-blwydd. Cynigir darpariaeth ar sail 0.5 i'r holl blant o'r mis Medi ar ôl eu 3ydd pen-blwydd.

Dymuna'r AALI barhau gyda'r trefniadau hyn, ond nid yw eisiau ymestyn ei ddarpariaeth ar gyfer plant 3 oed. Mae partneriaethau gyda darparwyr gofal dydd gwirfoddol a phreifat wedi eu sefydlu yn dda, gyda llawer o ardaloedd yn cynnig cyfleusterau gofal dydd llawn i'r rhieni hynny sydd ei eisiau.

Ystyria'r AALI bod ei ddarpariaeth ar gyfer plant 3 oed yn sylfaen gref ar gyfer addysg Blynyddoedd Cynnar. Mae plant yn dysgu trwy gyfrwng rhaglenni sydd wedi eu cynullunio'n ofalus, mewn amgylchfyd gofalgar. Mae pob ysgol yn cadw proffiliau derbyn manwl ar yr holl blant, sy'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio ac ar gyfer adnabod plant gydag anghenion arbennig yn gynnar.

# CYNGOR SIR FYNWY

## Ymateb ar y cyd â'r Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar

Ar hyn o bryd mae darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn anghyson, gyda rhai plant yn mynychu meithrinfeydd yr awdurdod lleol am 3 thymor cyn dechrau'r ysgol, eraill yn cael eu cyllido am dymor neu ddau mewn grwpiau chwarae neu feithrnfeydd preifat. Mae'n bosib na fydd rhai plant, h.y. y rhai sy'n cael eu geni yn ystod tymor yr haf, yn derbyn unrhyw gyllid i fynychu lleoliad addysg dan oed ysgol cyn dechrau mewn dosbarth derbyn y tymor ar ôl eu penblwydd yn bedair oed.

Mae ymchwil cynnar yn Sir Fynwy ar ganlyniadau asesu sylfaenol (sy'n digwydd yn ystod saith wythnos gyntaf plentyn yn yr ysgol) yn dangos ma'i r plant ieuengaf yn y dosbarth derbyn sy'n fwyaf tebygol o sgorio'n isel (er eu bod yn aml yn dal i fynd erbyn diwedd eu blwyddyn derbyn). Mae angen addysg cyn oed ysgol o ansawdd da ar y plant ieuengaf hyn yn arbennig (naill ai mewn meithrinfeydd yr awdurdod lleol neu leoliadau sy'n cael eu cymeradwyo gan Bartneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn cael y cyfle i ddatblygu neu ymestyn sgiliau iaith da, sgiliau llythrennedd a chyfathrebu, a sgiliau mathemategol a phersonol.

Wrth ddarparu cyllid i bob plentyn dderbyn tri thymor o addysg cyn oed ysgol a thrwy ddefnyddio systemau proffil meithrinfeydd unol a hyfforddiant priodol ar gyfer staff byddai modd clustnodi mwy o blant sydd ag anghenion addysgol arbennig, a hynny'n gynharach.

Lle mae plant yn mynychu meithrinfeydd awdurdod lleol neu leoliadau cymeradwy heb gynhaliaeth, mae gwell cyfle i sicrhau addysg o ansawdd dda trwy ddefnyddio staff sydd a chymwysterau, wedi eu hyfforddi'n briodol, a thrwy'r broses arolygu a hybu systemau diogelu ansawdd.

Cost Ehangu a'r Effaith ar Ddarparwyr Gofal Plant yn Sir Fynwy

Mae gan Gynor Sir Fynwy saith uned feithrin sy'n rhan o ysgolion prif ffrwd.

Mae'r unedau hyn yn derbyn plant ar gyfer addysg hanner amser yn y mis Medi sy'n dilyn eu penblwydd yn dair oed.

Dyma'r lleoedd sydd ar gael yn yr unedau meithrin:

| Ysgol | Lleoedd |
|---|---|
| Ysgol Fabanod Sandy Lane, Cil-y-Coed | 53 lle hanner amser |
| Ysgol Fabanod West End, Cil-y-Coed | 78 lle hanner amser |
| Ysgol Fabanod Llwynu | 104 lle hanner amser |
| Ysgol Fabanod Pembroke | 52 lle hanner amser |
| Ysgol Fabanod Wyesham | 48 lle hanner amser |
| Ysgol Gynradd Cymorth Gwirfoddol Magwyr | 52 lle hanner amser |
| Ysgol Gynradd Thornwell | 78 lle hanner amser |
| Cyfanswm | 464 lle hanner amser |

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod 12 lle hanner amser yn wag mewn unedau meithrin sy'n cael eu cynnal gan yr AALI. Nid oes lle yn y ddarpariaeth a gynhelir ar gyfer hryw 171 o blant pedair oed sy'n dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd 1999-2000 ac sy'n byw y tu allan i ddalgylchoedd yr unedau meithrin a gynhelir gan yr AALI. Y bwriad yw ateb y diffyg hwn trwy ddefnyddio meithrinfeydd cydnabyddedig ond sydd heb gynhaliaeth. Ar hyn o bryd mae 38 o ddarparwyr cydnabyddedig heb gynhaliaeth yn Sir Fynwy (Atodiad 1) ac fe anogir darparwyr newydd i geisio cydnabydiaeth er mwyn rhoi rhagor o ddewis i rieni.

Mae rhyw 133 o ddisgyblion mewn unedau meithrin a gynhelir gan yr AALI yn cael eu penblwydd yn bedair oed rhwng Ebrill 1 ac Awst 31 ac ni fyddant yn "blant pedair oed cymwys" yn ystod y cyfnod pan fyddant yn derbyn darpariaeth feithrin.

Mae nifer o blant tair oed eisoes yn mynychu meithrinfeydd cydnabyddedig heb gynhaliaeth er nad yw'r Bartneriaeth yn eu cyllido. Gan fod raid i'r rhieni dalu, dim ond rhyw ddau neu dri sesiwn yr wythnos fydd y plant hyn yn ei fynychu. Ym mis Ionawr 1999 adroddwyd bod 310 o leoedd gwag mewn meithrinfeydd cydnabyddedig, sy'n gyfystyr â 62 lle hanner amser (yn darparu pum sesiwn yr wythnos). Â chaniatau bod nifer o blant iau yn mynychu meithrinfeydd am o leiaf rai sesiynau, go brin fod y sefyllfa hon yn ddigonol i gwrdd â gofynion y dyfodol. Pe byddai addysg blynyddoedd cynnar yn ehangu yn y dyfodol gallai rhai ardaloedd ei chael yn anodd cwrdd â gofynion lleol.

Os caiff y ddarpariaeth ei ehangu i ganiatau mynediad i bob plentyn ar gyfer 3 thymor o addysg dan oed ysgol cyn dechrau yn yr ysgol, gyda'r rhai dros ben yn cael lle yn y sector heb gynhaliaeth, h.y. grwpiau chwarae cydnabyddedig a meithrinfeydd preifat, byddai'r gost i'r awdurdod o gwmpas £950,000 ar gyfer 2000/2001 heb gynnwys unrhyw gyllid ar gyfer cefnogaeth anghenion addysgol arbennig nac athrawon cymwys na chynhaliaeth weinyddol. Wrth weithio mewn partneriaeth, nid oes gan Bartneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir Fynwy unrhyw gynlluniau i gynyddu'r ddarpariaeth gynaledig. Ni fyddai hyn yn briodol yn Sir Fynwy gan mai awdurdod gwledig ydyw ac y mae ar rieni angen mynediad at leoedd o ansawdd da ar gyfer addysg eu plant o fewn cyrraedd rhesymol i'w cartrefi.

Er mwyn hwyluso'r fath ehangu dylid annog rhagor o ddarparwyr yn y sector heb gynhaliaeth i geisio cymeradwyaeth, fyddai wedyn yn cynyddu'r gofyn am Weithwyr gofal Plant gyda'r cymwysterau priodol. Byddai angen i'r awdurdod lleol ddarparu cynhaliaeth athrawon cymwys ar gyfer dros ddeugain meithrinfa gydnabyddedig heb gynhaliaeth a byddai angen cynhaliaeth ganolog i ddelio gyda'r goblygiadau cyllido a gweinyddu.

Byddai meithrinfeydd cydnabyddedig heb gynhaliaeth yn elwa o dderbyn cyllid yn gyson. Ar hyn o bryd mae nifer o grwpiau chwarae gwledig yn dioddef yn ystod tymor yr hydref pan and ydynt yn derbyn unrhyw gyllid ar gyfer plant pedair oed cymwys. Gallai gofalwyr plant fod ar eu colled pe byddai rhai o'r plant sydd dan eu gofal ar hyn o bryd yn mynychu lleoliad addysgol yn hytrach na dod atynt hwy. Er hynny, mae'n debyg y byddai angen 'gofal amlapio', yn arbennig yn sgîl y cynnydd yn nifer y rhieni sy'n dychwelyd i weithio trwy gymorth Credyd Treth Teuluoedd ac yn unol â'r Mentrau Strategaeth Plant diweddar.

# CASNEWYDD

Cyflwynodd Casnewydd ymateb ar y cyd rhwng yr AALl a'r Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar

Mae'r Bartneriaeth yn amlwg yn cydnabod gwerth addysg y blynyddoedd cynnar, gan mai nod allweddol y Cynlluniau Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a'r Cynlluniau Gofal Plant yw sicrhau bod pob darpariaeth yn cyfrannu mewn ffordd ragweithiol at ddatblygiad cymdeithasol, corfforol, seicolegol, personol ac addysgol y plentyn.  Yn y cyd-destun hwn, ystyrir ei bod yn hanfodol ein bod, wrth ystyried ehangu'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant tair blwydd oed, yn edrych mewn ffordd gyfannol ar y plentyn ac ar ansawdd y ddarpariaeth sy'n rhoi symbyliad ac anogaeth i blentyn drwy ddulliau chwarae.

Yng Nghasnewydd, darperir ar gyfer plant teirblwydd oed trwy ysgolion ac unedau meithrin, grwpiau chwarae, grwpiau Meithrin a meithrinfeydd dydd preifat.

## Beth Sydd Ei Angen ar Blant Teirblwydd Oed?

Yn ystod pum mlynedd cyntaf eu bywyd mae plant yn ddysgwyr derbyngar iawn ac mae arnynt angen profiadau addysgol a fydd yn meithrin eu twf a'u datblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol. Mae'n bwysig gosod y pwyslais ar chwarae adeiladol a darpariaeth anffurfiol. Nid yw darpariaeth addysgol gor-ffurfiol yn addas. O fewn unrhyw grŵp o blant 3/4 blwydd oed gellir gweld amrywiaeth eang yn eu datblygiad, a rhaid i'r oedolion sy'n gyfrifol amdanynt fod yn ymwybodol o'r anghenion unigol hyn, a darparu ar eu cyfer.

Mae arbenigwyr yn gyffredinol yn cytuno y dylid ystyried y canlynol wrth lunio darpariaeth addysgol ar gyfer plant 3/4 blwydd oed:

- cymarebau staffio
- hyfforddiant blynyddoedd cynnar priodol [dylai athrawon fod wedi derbyn hyfforddiant blynyddoedd cynnar priodol a dylai cynorthwywyr fod â chymhwyster NNEB/BTEC]
- lle - mae ar blant angen mynediad i ystafell ddosbarth fawr ac ardal fawr y tu allan. Dylai'r toiledau a'r cyfleusterau ymolchi fod gerllaw
- amser - er mwyn ymdopi â threfn a phrofiadau newydd ac er mwyn gweithio yn fanwl heb ymyrraeth. Mae ar blant angen amser i arsylwi, archwilio ac i atgyfnerthu eu dysgu.
- cwricwlwm blynyddoedd cynnar sy'n pwysleisio'r agweddau anffurfiol heb fod yn or-ffurfiol. Mae ar blant ifanc angen cyfleoedd chwarae ac i siarad am eu profiadau, a bydd hyn yn darparu'r sylfaen ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Dylai oedolion sy'n gweithio gyda phlant ifanc allu dangos y cysylltiadau rhwng darpariaeth chwarae a gynlluniwyd yn dda a'r Canlyniadau Dymunol.
- cyfranogiad rhieni - er mwyn adeiladu ar brofiad blaenorol pob plentyn, rhaid i staff y blynyddoedd cynnar ffurfio cysylltiadau agos â rhieni, cyn i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol ac yn ystod cyfnod y plentyn yn y dosbarth. Dylai staff a rhieni gydweithio'n agos er mwyn cynnal dysgu'r plentyn.

- agwedd at ddysgu - dylai plant ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau meddwl er mwyn dod yn ddysgwyr annibynnol ac er mwyn datblygu tueddfryd i ddysgu.

Mae addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn arwain at fuddiannau cymdeithasol ac addysgol uniongyrchol a pharhaus i bob plentyn, yn enwedig y rhai hynny o gefndiroedd anfanteisiol. Mae addysg gyn-ysgol wael cyn lleied o ddefnydd i blant ag yw dim addysg o gwbl.

Mae addysg a gofal o ansawdd uchel yn galluogi plant i ddechrau yn yr ysgol gydag agwedd gadarnhaol, hunan-hyder datblygedig, ac ymrwymiad i ddysgu a'r gred y gallant lwyddo o wneud ymdrech. Dylai'r cwricwlwm werthfawrogi a rhoi mynegiant i wahanol anghenion diwylliannol plant. Mae addysg y blynyddoedd cynnar yn fwyaf tebygol o lwyddo pan fydd y rhieni yn cyfranogi.

Mae ansawdd yn dibynnu ar set o egwyddorion, nid ar fath arbennig o ddarpariaeth. Mae'n seiliedig ar aelodau o staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Ansawdd a hyfforddiant y gweithwyr proffesiynol hynny sy'n gweithio gyda'r plant yw'r ffactorau allweddol mewn darpariaeth o ansawdd uchel. Mae angen cyllid i dalu am hyfforddiant a chyflogau'r aelodau o staff hyfforddedig.

## Patrwm Presennol y Ddarpariaeth Addysgol ar gyfer Plant Teirblwydd Oed yng Nghasnewydd

1. Yng Nghasnewydd mae pedair ysgol Feithrin ac 20 uned a gyllidir yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Addysg Lleol, ac maent yn darparu yn bennaf ar gyfer plant 3 - 4 blwydd oed, sydd yn mynychu'n bennaf ar sail ran-amser, gyda staff addysgu cymwys.

2. Mae 51 grŵp chwarae yng Nghasnewydd, ac mae chwech o'r rhain yn grwpiau cyfrwng Cymraeg [Meithrin]. Grŵp chwarae yw grŵp sy'n cynnig gofal fesul sesiwn am gyfnod o ddwy awr neu fwy ond ni fydd sesiynau yn para'n hirach na phedair awr. Mae'r ystod oedran yn amrywio o ddwy a hanner i bum mlwydd oed. Mae grŵp Meithrin yn cael ei ddiffinio fel grŵp sy'n cynnig gofal fesul sesiwn drwy gyfrwng y Gymraeg, am gyfnod o ddwy awr neu fwy ond ni fydd sesiynau yn para'n hirach na phedair awr. Eu nod yw darparu profiadau dysgu trwy chwarae strwythuredig. Bydd gan staff y darpariaethau hyn gymwysterau gan PPA (Cymru) a/neu'r Mudiad Ysgolion Meithrin; efallai y byddant yn derbyn cyfraniad gan athrawon cymwys. Maent wedi'u cofrestru o dan Ddeddf y Plant. Mae chwe grŵp chwarae a dau Feithrin yn derbyn cyllid gan yr Awdurdod Addysg Lleol i gynnig darpariaeth ran-amser am ddim i blant pedair blwydd oed.

3. Mae 15 meithrinfa ddydd yng Nghasnewydd. Mae meithrinfa ddydd breifat yn cynnig gofal rhan-amser neu amser llawn yn dibynnu ar anghenion y rhieni. Mae meithrinfeydd dydd yn gofalu am blant o dan bum mlwydd oed am gyfnod hyd at ddiwrnod gwaith oedolyn. Maent wedi'u cofrestru o dan y Ddeddf Plant. Mae un feithrinfa ddydd yn derbyn cyllid gan yr Awdurdod Addysg Lleol i gynnig darpariaeth ran-amser am ddim ar gyfer plant pedair blwydd oed.

4. Yng Nghasnewydd mae tua 169 o warchodwyr plant sy'n gallu gofalu am nifer o blant teirblwydd oed. Mae'r holl ysgolion meithrin ac unedau meithrin sy'n gysylltiedig ag ysgolion yn destun arolygiad llawn gan Estyn dros gyfnod o 3/4 diwrnod bob pedair blynedd.

Mae'r grwpiau chwarae, y grwpiau Meithrin a'r meithrinfeydd dydd preifat yn cynnig dewis ac amrywiaeth, a bydd yr Awdurdod Lleol, trwy Bartneriaeth yn ceisio cefnogi'r grwpiau hyn, trwy sicrhau ansawdd a chyfraniad athro blynyddoedd cynnar cymwys ym mhob sefyllfa. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn monitro ac yn gwerthuso'r ddarpariaeth a gyllidir gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

Mae pob grŵp chwarae, grŵp Meithrin a meithrinfa ddydd breifat yn destun arolygiad blynyddol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd ag arolygiad  un-dydd hefyd gan Estyn, os ydynt yn derbyn cyllid gan yr Awdurdod Addysg Lleol, sy'n ystyried y ddarpariaeth ar gyfer plant 3/4 blwydd oed, ar gyfer darparwyr nas cynhelir.

## EFFAITH MYNEDIAD I DDOSBARTH MEITHRIN - ar ddechrau'r tymor ar ôl i'r plentyn droi'n deirblwydd oed.

Mae'r tabl canlynol yn nodi patrwm y ddarpariaeth bresennol yn ysgolion ac unedau Awdurdod Addysg Lleol Casnewydd a'r ddarpariaeth ychwanegol arfaethedig y byddai ei hangen er mwyn i bob plentyn teirblwydd oed dderbyn addysg blynyddoedd cynnar.

| Pen-blwydd | Mynediad arfaethedig | | Dosbarth Meithrin ar hyn o bryd | | | Dosbarth Derbyn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Haf | | | 3 | 3 | 3/4 | 4 | 4 | 4/5 |
| Gwanwyn | | 3 | 3 | 3/4 | 4 | 4 | 4/5 | 5 |
| Hydref | 3 | 3 | 3/4 | 4 | 4 | 4/5 | 5 | 5 |
| | Gwanwyn | Haf | Hydref | Gwanwyn | Haf | Hydref | Gwanwyn | Haf |

Pe byddai mynediad i ddosbarth meithrin yn cael ei ymestyn i bob plentyn teirblwydd oed yn ôl y patrwm uchod, byddai plant a enir yn yr hydref yn treulio pum tymor yn y dosbarth meithrin, plant a enir yn y gwanwyn yn treulio pedwar tymor yn y dosbarth meithrin a phlant a enir yn yr haf yn treulio tri thymor yn unig yn y dosbarth meithrin, pe na byddai polisïau derbyniadau ysgolion yn cael eu newid.

Effaith net hyn yn gyffredinol fyddai cost tymor ychwanegol o addysg ar gyfer y garfan gyfan [tua 1800 o blant] a fyddai'n golygu cost refeniw ychwanegol o £680,000.

Lle mae'r ysgolion meithrin eisoes yn llawn byddai pryderon ynghylch gallu'r adeilad i'w derbyn.

Gallai'r drefn o dderbyn plant ar dri phwynt yn ystod y flwyddyn gael effaith niweidiol ar barhad addysg y grwpiau sy'n bodoli eisoes. O ganlyniad byddai hyn yn arwain at bryderon ychwanegol i'r staff addysgu.

Ymagwedd arall fyddai ymchwilio i ymestyn y ddarpariaeth amser llawn i blant 3/4 blwydd oed mewn sefyllfaoedd penodol, gan gynyddu hyn yn unol ag adnoddau; neu ymestyn darpariaeth hanner amser i blant teirblwydd oed mewn modd dethol, yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf, pan fydd lleoedd ar gael. Byddai'n rhaid rheoli ymestyniad o'r fath mewn cydweithrediad â Datblygu Blynyddoedd Cynnar a'r Bartneriaeth Gofal Plant.

Byddai hyn yn effeithio wedyn ar y grwpiau chwarae, grwpiau Meithrin, meithrinfeydd dydd a gofalwyr plant, sy'n darparu ar gyfer y grŵp oedran hwn ar hyn o bryd.

# SIR BENFRO

Ymateb ar y cyd â'r Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar

## Gwybodaeth Gefndirol

Yn y sector cynaledig nid oes unrhyw batrwm unffurf i'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant tair oed ledled Cymru. Mae'r ddarpariaeth yn amrywio yn y gwahanol awdurdodau. Bydd y rhelyw'n rhagori ar y gofyniad statudol i blant dderbyn addysg lawn-amser o bum mlwydd oed, bydd rhai'n darparu darpariaeth safonol i bob plentyn tair/pedair oed, ac eraill yn cydnabod bod ganddynt ardaloedd difreintiedig.

Mae **Cyngor Sir Benfro** yn darparu addysg feithrin o ansawdd uchel mewn tair ar hugain o ysgolion, sy'n darparu ar gyfer plant tair oed ar sail rhan amser, a phlant pedair oed yn llawn amser. Fodd bynnag, ni chafodd yr unedau hyn eu sefydlu ar sail angen, er bod llawer ohonynt yn gwasanaethu ardaloedd difreintiedig, tra bod eraill mbewn lleoliadau mwy manteisiol, sy'n gadael rhai ardaloedd gwledig a mwy difreintiedig heb unrhyw fynediad i'r ddarpariaeth.

Mae un prosiect cylch chwarae hefyd, a sefydlwyd mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir Benfro (EYDCP).

Y Cyngor Sir sydd hefyd yn gyfrifol am gofrestru ac archwilio'r gwasanaethau gofal dydd i blant. O dan y trefniadau Talebau Meithrin a ddaeth cyn y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar, cafodd dau ddarparydd cofrestredig hefyd eu harchwilio gan SPAEM Cymru a fu mewn cysylltiad agos â'r Cyngor Sir. Ar ben hynny fe archwiliodd SPAEM Cymru ddwy ysgol annibynnol o fewn Sir Benfro, oherwydd eu bod yn darparu gwasanaethau addas ar gyfer plant o dan oedran ysgol.

Mae'r EYDCP, sy'n cynnwys Cyngor Sir Penfro, wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd er mwyn darparu gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd da i'r holl blant sydd ei angen. Ym Mawrth 1999, fe gwblhaodd y bartneriaeth ei harchwiliad awdit gofal plant cyntaf i ddynodi'r ddarpariaeth fanwl (a'r bylchau posibl yn y ddarpariaeth) ledled y sir (Atodiad 1)

## Pam Newid?

Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, mae newidiadau yn y gymdeithas yn peri bod angen ail-werthuso gofynion addysgol blynyddoedd cynnar er mwyn rhoi cyfle i blant ifanc ryngweithio, gwneud dewisiadau, darganfod ac ennill annibyniaeth, pob un ohonynt yn brofiadau a fu'n gysylltiedig, yn draddodiadol, â'r uned teulu.

- Mae llawer o blant yn tyfu mewn teuluoedd o rieni sengl, neu gyda llys-riant a llys-frodyr a chwiorydd.

- Mae patrymau cyflogaeth yn effeithio ar sefydlogrwydd teuluoedd, mae llawer o ferched yn ail-ymuno â'r gweithle neu'n dychwelyd i astudio, a bydd rhagor o deuluoedd yn cael profiad o galedi a ddaw yn sgîl diweithdra neu dlodi.

- Mae Prydain yn dod yn gymdeithas amrywiaethol, sy'n cwmpasu llawer o ddiwylliannau, ieithoedd, crefyddau a chenedligrwydd.

- Mae niferoedd cynyddol o blant yn cael profiad o ofal plant ac addysg gynnar mewn amrywiaeth o leoliadau, gyda gwahanol weithdrefnau sicrhau ansawdd, rhai ohonynt yn annigonol o bosibl.

Felly rhaid addysgu, hyrwyddo parch at yr amrywiaeth hon, gwrthsefyll cam-wahaniaethu a hyrwyddo agweddau positif tuag at y gwahaniaethau mewn pobl.

Y mae deddfwriaeth, mentrau cwricwlwm, amodau cyflogaeth a chymwysterau hefyd wedi dylanwadu ar y modd y bydd ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn cefnogi gofal a dysgu'r plant ifanc.

- 1988 - Deddf Diwygio Addysg - Cwricwlwm Cenedlaethol ac Arolygon

- 1989 - Deddf y Plant - Deddf y Plant
  - "Cofrestru ac archwilio gwasanaethau gofal dydd ar gyfer plant o dan 8 oed
  - "Cydymffurfio â Rheoliadau"

- 1996 - Deddf Addysg Feithrin ac Ysgolion Cynaledig â Grant
  - Archwilio ysgolion meithrin
  - Dogfen 'canlyniadau dymunol'
  - Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer plant 4 oed

- 1998 - Asesiad Llinell Sylfaenol Statudol

Fodd bynnag, ychydig o sylfaen sydd i'r datblygiadau hyn o fewn y system addysgol a gofal plant ehangach - mewn perthynas â'r cwricwlwm, asesu, archwiliadau a hyfforddi athrawon - ynglyn ag amgyffred sut y mae plant ifanc yn dysgu, neu ynglyn ag arfer orau bresennol mewn cyd-destunau plentyndod cynnar, er bod gwerth addysg feithrin yn cael ei gydnabod bellach, ffaith sy'n cael ei hatgyfnerthu gan nifer o adroddiadau diweddar.

- Starting with Quality,    Adroddiad Pwyllgor Rumbold, 1990

- Learning to Succeed:    Adroddiad Ymddiriedolaeth Hamlyn, 1993

- Start Right: The Importance of Early Learning,    Adroddiad Ball i'r RSA, 1994

Yn ychwanegol, mae adroddiadau rheolaidd o brosiect 'Highscope' yn America a chynlluniau ymchwil fel yr un gan yr NUT a Phrifysgol Nottingham ar ganlyniadau TASau Cyfnod Allweddol, yn ailddatgan manteision addysg feithrin o ansawdd da. Yn y bôn, bydd plant sy'n derbyn addysg feithrin o ansawdd da:

- yn fwy tebygol o gael llwyddiant academaidd: mae eu canlyniadau TASau a TGAU yn well
- yn fwy tebygol o gael swyddi gyda chyflogau gwell na'r cyffredin
- yn llai tebygol o fod yn droseddwyr ifanc

Mae gwasanaethau gofal plant o ansawdd da yn bwysig hefyd, ac mewn llawer achos byddant yn cynnig **yr unig** gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd. Maent yn cynnig gwell cyfleoedd i:

- merched er mwyn iddynt ail-ymuno â'r gweithlu
- plant ifanc er mwyn iddynt ddatblygu trwy gyfrwng cyfleoedd i gymdeithasu â phlant ac oedolion eraill
- rhieni sengl er mwyn iddynt gael seibiant o'u cyfrifoldebau gofal

- creu cysylltiadau rhwng teuluoedd a'r gymuned, sy'n cynorthwyo i gynnal iaith a diwylliant lleol.

Gwyddys bod y dysgu cynnar a wna plant wedi'i wreiddio yn eu cynefin, yn eu teulu a'u cymuned. Y mae'r cysyniad o'r uned 'teulu' yn newid, ac o'r herwydd mae'n rhaid sicrhau bod y gofal plant/addysg a gaiff plant ifanc iawn, o'r radd flaenaf.

"Ni ellir gwahanu gofal ac addysg - mae gofal o ansawdd yn addysgol ac addysg o ansawdd yw gofalu."

Mae'r amgylchedd dysgu ar gyfer y plentyn blynyddoedd cynnar yn wahanol iawn i'r un sy'n addas i blant hyn. Trwy chwarae y maent yn darganfod, a thrwy ddarganfod y maent yn dysgu. Bydd ymarferwr llwyddiannus yn cefnogi ac ehangu'r dysgu.

Nid yw'n dderbyniol rhoi plentyn blynyddoedd cynnar mewn sefyllfa babanod, er mor dda ydyw, heb gydnabod a darparu ar gyfer eu hanghenion arbennig. Bydd rhoi plentyn mewn sefyllfa gofal, lle nad yw eu datblygiad yn cael ei ddeall, cynllunio ar ei gyfer, na'i asesu a'i werthuso chwaith, yr un mor annerbyniol.

Yn draddodiadol, mae dau grŵp diddordeb, sef addysg a gofal. Bydd y ddeuoliaeth hon yn anfoddhaol a'r unig ffordd ymlaen yw PARTNERIAETH.

## Y FFORDD YMLAEN

- Dylai pob rhiant a phlentyn gael mynediad cyfartal i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar addas.
- Rhaid cydnabod pwysigrwydd ac arwyddocâd "amgylchedd gofalgar a chefnogol" ynghyd â chyfraniad positif "chwarae" yn y broses ddysgu.
- Dylai pob ysgol ddarparu gwisg ysgol, darpariaeth addas ar gyfer plant blynyddoedd cynnar, neu gael eu paru â lleoliad dalgylch i sicrhau dilyniant addysgol a diogelwch emosiynol.
- Dylai pob darparydd (statudol, preifat a gwirfoddol) feddu ar gymwysterau addas, neu dderbyn hyfforddiant perthnasol, er mwyn cyflwyno addysg blynyddoedd cynnar o'r radd flaenaf.
- Dylai gweithdrefnau sicrhau ansawdd ymwneud â'r ddarpariaeth a baratowyd, nid y lleoliad.
- Dylid cael cwricwlwm meithrin unigol, eang ar gyfer plant blynyddoedd cynnar ym mhob lleoliad, sy'n mynd i'r afael â:

  - cynllunio
  - cael adnoddau a threfnu
  - cefnogi ac ehangu dysgu
  - arsylwi a chofnodi cynnydd
  - gwerthuso ac addasu
  - gweithio â rhieni

- Dylai gwasanaeth cyflawn, trwy gydweithrediad aml-asiantaeth, ddarparu gofal plant cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau, addysg iechyd, magu plant, llythrennedd i deuluoedd a chyfleusterau meithrinfa / gofal ar gyfer babanod a phlantos bach.

## GOBLYGIADAU

- I safoni darpariaeth, sydd ar hyn o bryd yn anwastad, byddai angen am nawdd ariannol sylweddol, ychwanegol. Dylid anelu at hyrwyddo a chefnogi'r ddarpariaeth bresennol a newydd ym mhob adran, a phwysleisio at greu cyfleoedd newydd yn y sector anstatudol.
- Byddai derbyn pob plentyn tair oed i'r sector cynaledig yn gofyn am:

- athrawon ychwanegol sydd wedi derbyn hyfforddiant blynyddoedd cynnar
- ail-hyfforddi'r staff presennol
- staff cynnal ychwanegol wedi'u hyfforddi'n gymwys
- ail-lunio rhywfaint ar yr adeiladau presennol
- offer ychwanegol (sylwer, hyfforddi nid ar gyfer cymwysterau yn unig, ond ar gyfer 'deheurwydd')

## GOBLYGIADAU Y FRAS GOST YN SIR BENFRO

| | |
|---|---|
| 30 o athrawon ychwanegol | £750,000 y flwyddyn |
| 20 o staff cynnal | £240,000 y flwyddyn |
| Ail-hyfforddi | £ 50,000 |
| Costau adeiladau | £300,000 |

- Seilir y costau hyn ar ddarpariaeth sector statudol. Mae prisio "partneriaeth" yn gweithio gyda'r sectorau gwirfoddol a phreifat yn fwy anodd, ond byddai'n darparu cyfleoedd ar gyfer rhoi gwell gwerth am yr arian, gyda'r ddarpariaeth a'r hyfforddi ar gyfer darparwyr ym mhob sector.
- Lle nad oes darpariaeth yn bodoli, mewn ysgol leol neu mewn ysgolion bach lle nad yw darpariaeth addas yn gallu cael ei chynnig, ac mae'r gost yn gwahardd newid ar raddfa fawr, rhaid i unrhyw grŵp blynyddoedd cynnar cydnabyddedig lleol, dderbyn cymhorthdal digonol i ddarparu'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, mewn partneriaeth â'r ysgol leol.
- Mewn ardaloedd gwledig lle na fyddai ysgolion bach iawn yn gallu darparu darpariaeth addas, ac ni fyddai'r ddarpariaeth breifat yn hyfyw, dylid ystyried adnodd ardal ganolog gyda chludiant wedi'i ddarparu, neu fws chwarae/addysg teithiol.
- Sicrhau **canlyniadau dymunol** i blant, dyna ddylai'r elfen bwysicaf fod, pa beth bynnag yw'r dull o wneud hynny - ond integreiddio gofal, addysg a chwarae - i gydweddu ag anghenion plant unigol.

## Cyfeiriadau

Adeiladu Ysgolion Rhagorol Gyda'n Gilydd (BEST)
Papur Gwyn y Swyddfa Gymreig, 1998
Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant cyn Oedran Ysgol Gorfodol
ACCAC, 1996
Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar a'r Cynulliad
Dogfen Plaid Cymru, 1999
"Quality in Diversity in Early Learning"
Early Childhood Education Forum, 1998

# Atodiad 1

## Darn o'r Archwiliad CDBCGC – Mawrth 1999

Nifer y plant 3 a 4 oed mewn darpariaeth gynaledig (Ion 1999)

| Cyfanswm plant 3 oed | Cyfanswm plant 4 oed |
|---|---|
| 680 | 729 |

Ffig.6

Nifer y plant 3 a 4 oed mewn addysg ran-amser (Ion 1999)

| Sefydliad | O dan 4 oed | 4 oed | 5 oed |
|---|---|---|---|
| Prosiect Grŵp Chwarae | 5 | 0 | 0 |
| Unedau Meithrin Cynaledig | 646 | 1 | 0 |

Ffig.7

Nifer y plant 3 a 4 oed mewn addysg amser llawn (Ion 1999)

| Sefydliad | O dan 4 oed | 4 oed | 5 oed |
|---|---|---|---|
| Prosiect Grŵp Chwarae | 21 | 0 | 0 |
| Cynaledig | 225 | 728 | 715 |

Ffig.8

Dalier Sylw: Yn y Prosiect Grŵp Chwarae, mae 26 o blant yn mynychu sesiynau meithrin boreol gyda 21 ohonynt hefyd y mynychu grŵp chwarae noddedig yn y prynhawn; felly mae pump o blant mewn addysg ran-amser.

Nifer y plant 2, 3 a 4 oed sy'n mynychu Ysgolion Babanod / Cynradd Cynaledig (Ion 1999)

| Oed | Amser Llawn | Rhan Amser |
|---|---|---|
| 2 | 5 | 177 |
| 3 | 395 | 455 |
| 4 | 1365 | 1 |

Nifer y plant, 3 a 4 oed sy'n mynychu Ysgol Feithrin Gynaledig (Ion 1999)

| Oed | Amser Llawn | Rhan Amser |
|---|---|---|
| 2 | 0 | 14 |
| 3 | 13 | 19 |
| 4 | 10 | 1 |

Ffig.11

Nifer y plant 2, 3 a 4 oed sy'n mynychu Darpariaeth Breifat

| Sefydliad | 2 oed | 3 oed | 4 oed |
|---|---|---|---|
| Ysgol Netherwood | ← 11 → | | 8 |
| Ysgol Steiner | ← 9 → | ← 13 → | |
| Haylett Grange | 5 | 24 | 16 |

Ffig.12

Nifer y plant sy'n mynychu Meithrinfeydd Dydd (y tu allan i'r sector cynaledig)

| Oed | Nifer |
|---|---|
| 0 – 2 | 101 |
| 2 – 3 | 108 |
| 3 – 4 | 83 |
| 4+ | 36 |
| Cyfanswm* | 328 |

Ffig.13

* ac eithrio 2 feithrinfa - nid oedd data ar gael yn ystod cyfnod yr archwiliad

Nifer y plant sy'n mynychu Darpariaeth Grŵp Chwarae (y tu allan i'r sector cynaledig)*

| Ardal | 0 –2 | 2 – 3 | 3 – 4 | 4+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| De Sir Benfro | 0 | 153 | 127 | 19 | 299 |
| Gogledd Sir Benfro | 0 | 160 | 264 | 44 | 468 |
| Cyfanswm | 0 | 313 | 391 | 63 | 767 |

Ffig.14

* mae'n bosibl bod 80 o leoedd ychwanegol ar gael i blant nad ydynt wedi eu cynnwys uchod - nid oedd data ar gael yn ystod cyfnod yr archwiliad.

## Darpariaeth Gofal Plant yn Sir Benfro

| Ardal | Cyfanswm Gwarchodwyr | Lleoedd ar gael i blant 0 - 5 oed | Lleoedd ar gael i blant 5 - 7 oed | Cyfanswm Lleoedd ar Gael |
|---|---|---|---|---|
| Cilgeti | 6 | 16 | 14 | 30 |
| Saundersfoot | 7 | 26 | 18 | 44 |
| Arberth | 8 | 21 | 18 | 39 |
| Doc Penfro | 11 | 36 | 23 | 59 |
| Penfro | 8 | 23 | 18 | 41 |
| Dinbych-y-pysgod | 5 | 24 | 18 | 42 |
| Abergwaun | 7 | 20 | 12 | 32 |
| Neyland | 2 | 5 | 6 | 1 |
| Llandysilio | 2 | 6 | 6 | 12 |
| Crymych | 6 | 27 | 17 | 44 |
| Hwlffordd | 29 | 91 | 53 | 44 |
| Cyfanswm | 91 | 295 | 203 | 498 |

Ffig.15

## 2.2 Tueddiadau

2.2.1 Ers aildrefnu llywodraeth leol ym 1996, mae'r awdurdod wedi cau un ysgol feithrin, wedi agor tair uned feithrin gysylltiedig ac wedi cefnogi trefniadau cydweithredol rhwng y sectorau cynaledig a phreifat i ehangu darpariaeth o dan y Cynllun Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant 1999-2000. Mae ugain o ysgolion cynradd ar hyn o bryd yn dymuno estyn yr ystod oed y maent yn darparu ar ei gyfer er mwyn cynnwys 150 - 180 o leoedd ychwanegol amcangyfrifedig yn y tymor hirach. Hefyd mae'r awdurdod wedi cynnig cau yr ysgol feithrin sydd ganddo yn weddill er mwyn ei chyfuno ag ysgol gynradd gyfagos.

2.2.2 Dynododd Archwiliad y CDBCGC y ddarpariaeth ganlynol o leoedd yn y sector y tu allan i'r sector cynaledig:

| | |
|---|---|
| Grwpiau Chwarae Cofrestredig - | 767 o leoedd ar gael |
| Meithrinfeydd Dydd - | 244 o leoedd ‘call’ ar gael |
| Gofal Plant Allan o'r Ysgol - | 280 o leoedd |
| Clybiau Gwyliau - | 377 o leoedd |
| Gwarchodwyr Plant Cofrestredig - | 498 o leoedd |
| Ar ôl ysgol Cofrestredig - | 131 o leoedd |
| Gofal Chwarae Gwyliau Cofrestredig - | 526 o leoedd |

Mae'r duedd bresennol yn dangos bod llai o blant yn mynd i grwpiau chwarae wrth i ragor o blant fynd i mewn i'r sector cynaledig yn gynt. Gallai hyn olygu bod rhai grwpiau chwarae yn llai ymarferol yn y tymor hirach. Dymuna CDBCGC roi ystyriaeth i gefnogi'r grwpiau chwarae sy'n bodoli eisoes i weithredu mewn adeiladau ysgolion a thrwy hynny ddatblygu parhad o ddarpariaeth a'i gwneud yn bosibl i ysgolion a grwpiau chwarae weithio'n gydweithredol.

Nodwyd hefyd yn yr Archwiliad, tra 'roedd y ddarpariaeth o grwpiau chwarae a meithrinfeydd yn ymddangos yn helaeth, y gallai cyflwyno Credyd Treth Teuluoedd mewn Gwaith yn ddiweddarach eleni gynyddu'r galw am Ofal Plant Cofrestredig.

| Niferoedd Plant yn mynychu Unedau Meithrin / Ysgolion Meithrin | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Oed y Plant | | | | | | | | | |
| Rhif yr Ysgol | Enw'r Ysgol | 2 | 2 | 3 | 3 | 4 | 4 | | Cyfanswm Rh A | Cyfanswm A LI | Cyfanswm A A LI |
| | | ALI | Rh A | ALI | RhA | ALI | RhA | 5 | | | |
| 1001 | Meithrinfa Doc Penfro | 0 | 14 | 13 | 19 | 10 | 1 | 0 | 34 | 23 | 40 |
| 2212 | CS Gwdig | 0 | 7 | 6 | 5 | 15 | 0 | 23 | 12 | 44 | 50 |
| 2214 | Babanod CS Fenton | 0 | 4 | 24 | 26 | 35 | 0 | 43 | 30 | 102 | 117 |
| 2216 | Babanod CS Prendergast | 0 | 14 | 10 | 29 | 49 | 0 | 52 | 43 | 111 | 132.5 |
| 2220 | CS Johnston | 0 | 8 | 9 | 16 | 30 | 0 | 34 | 24 | 73 | 85 |
| 2236 | Babanod CS Hakin | 0 | 9 | 9 | 17 | 43 | 0 | 37 | 26 | 89 | 102 |
| 2246 | Babanod Albion Square | 0 | 14 | 12 | 19 | 35 | 0 | 40 | 33 | 87 | 103.5 |
| 2251 | CS Tyddewi | 0 | 4 | 2 | 3 | 4 | 0 | 4 | 7 | 10 | 13.5 |
| 2258 | CS Saundersfoot | 0 | 0 | 11 | 26 | 27 | 0 | 0 | 26 | 38 | 51 |
| 2265 | Babanod CS Meads | 0 | 17 | 15 | 33 | 49 | 0 | 63 | 50 | 127 | 152 |
| 2267 | Babanod CS Mount Airey | 5 | 16 | 19 | 27 | 49 | 0 | 51 | 43 | 124 | 145.5 |
| 2268 | Babanod CS Cil-maen | 0 | 13 | 6 | 26 | 38 | 0 | 37 | 39 | 81 | 100.5 |
| 2276 | Babanod CS Y Mwnt | 0 | 11 | 0 | 28 | 48 | 0 | 46 | 39 | 94 | 113.5 |
| 2277 | Babanod CS Neyland | 0 | 0 | 14 | 16 | 45 | 0 | 34 | 16 | 93 | 101 |
| 2279 | Babanod CS Abergwaun | 0 | 6 | 12 | 20 | 38 | 0 | 36 | 26 | 86 | 99 |
| 2383 | Ysgol Glan Cleddau | 0 | 0 | 1 | 26 | 23 | 0 | 19 | 26 | 43 | 56 |
| 3042 | Rh G Maenorbyr | 0 | 4 | 6 | 1 | 8 | 0 | 14 | 5 | 28 | 30.5 |
| 3051 | Rh G Stackpole | 0 | 5 | 7 | 11 | 27 | 0 | 19 | 16 | 53 | 61 |
| 3052 | Babanod Rh G Dinbych-y- | 0 | 17 | 15 | 56 | 58 | 0 | 63 | 73 | 136 | 172.5 |
| 3054 | Rh G Treletert | 0 | 6 | 2 | 13 | 15 | 0 | 12 | 19 | 29 | 38.5 |
| 3057 | Rh G Hubberston | 0 | 8 | 3 | 10 | 18 | 0 | 25 | 18 | 46 | 55 |
| 3312 | Catholig Y Santes Fair | 0 | 7 | 10 | 10 | 17 | 0 | 21 | 17 | 48 | 56.5 |
| 3313 | Catholig Mair Ddifrycheulyd | 0 | 0 | 12 | 8 | 28 | 0 | 28 | 8 | 68 | 72 |
| 3319 | Catholig Teilo Sant | 0 | 7 | 7 | 10 | 19 | 0 | 14 | 17 | 40 | 48.5 |
| | Cyfansymiau | 5 | 191 | 225 | 455 | 728 | 1 | 715 | 647 | 1673 | 1997 |

# WRECSAM

Cyflwynodd Wrecsam ymateb ar y cyd rhwng yr AALI a'r Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar

(1) CYFLWYNIAD

Rydym yn croesawu'r cyfle i roi ein sylwadau ar y ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 oed. Ers tro cydnabu darparwyr ym mhob sector bwysigrwydd a gwerth addysg i'r blynyddoedd cynnar cyhyd â'i fod yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd chwarae a gofal. Bu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ymroddedig i gefnogi darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd, nid yn unig trwy ei ddarpariaeth uniongyrchol ef ei hun (trwy ddefnyddio arian o elfen sector statudol y gyllideb addysg), ond hefyd trwy roi grantiau i gyrff gwirfoddol. Yn hanesyddol Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn gwneud hyn.

(2) PATRWM CYFREDOL Y DDARPARIAETH

Dyma batrwm cyfredol y ddarpariaeth ar gyfer plant 3 oed ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.:-

2.1. Sector Gwladol

Ers mis Ebrill 1997 mae pob plentyn sy'n 3 oed erbyn 31ain o Awst mewn unrhyw flwyddyn yn cael cynnig lle hanner amser mewn ysgol neu ddosbarth meithrin gwladol os yw eu rhieni ei eisiau. Ar hyn o bryd mae oddeutu 1,460 o blant (97%) yn derbyn y ddarpariaeth hon yn ysgolion Wrecsam.

2.2. Grwpiau Chwarae PPA Cymru

Ar hyn o bryd mae 63 grŵp chwarae yn cynnwys 16 grŵp chwarae plws yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r cyfan wedi eu cofrestru gydag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod ac yn darparu 1,508 o leoedd ar gyfer plant o ddwy a hanner i bump oed. Archwiliodd arolygwr addysg feithrin SPAEM (ESTYN) un ohonynt. Mae Grwpiau Chwarae'n darparu rhwng dau a phum sesiwn yr wythnos. Mae hyd y sesiynau'n amrywio o ddwy i dair awr a hanner. Ar hyn o bryd mae oddeutu 900 o blant tair oed yn mynychu grwpiau chwarae PPA Cymru ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

2.3 Grwpiau MYM

Ar hyn o bryd mae 13 grŵp chwarae yn cynnwys 5 grŵp chwarae plws yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Maent wedi eu cofrestru i ddarparu 343 o leoedd i blant o ddwy a hanner i bump oed. Cynigia Grwpiau Chwarae MYM rhwng dau a phum sesiwn rhwng dwy a thair awr o hyd yr wythnos. Mae oddeutu 135 o blant tair oed yn mynychu Grwpiau Chwarae MYM yn y Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd.

2.4 Meithrinfeydd Dydd Preifat

Mae darpariaeth feithrin breifat ar gael ar gyfer y plant y mae eu rhieni'n dymuno talu am le preifat. Ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam mae 21 meithrinfa ddydd a redir yn breifat ac sydd wedi eu cofrestru gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod. Archwiliodd arolygwr addysg feithrin cofrestredig SPAEM (ESTYN) bedair ohonynt. Mae tair meithrinfa ddydd wedi eu cofrestru fel ysgolion meithrin preifat hefyd. Mae un Feithrinfa Montessori sesiynol. Mae rhai meithrinfeydd

dydd preifat yn cyflogi athrawes gymwysedig ond nid ydynt wedi eu cofrestru fel ysgolion meithrin preifat. Darperir 762 lle i blant o 0 i 8 oed mewn meithrinfeydd dydd preifat. Ar hyn o bryd mae oddeutu 220 o blant tair oed yn mynychu darpariaeth breifat naill ai'n llawn amser neu'n rhan amser.

2.5. Gofalwyr plant

Gofalir am nifer o blant 3 oed gan ofalwyr plant tra bo eu rhieni'n gweithio neu'n derbyn hyfforddiant. Ar hyn o bryd mae 83 o ofalwyr plant wedi eu cofrestru gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol. Maent wedi eu cofrestru i ddarparu 391 o leoedd i blant o 0 i 8 oed yn y Fwrdeistref Sirol. Ar hyn o bryd gofalir am oddeutu 54 o blant tair oed gan ofalwyr plant.

(3) Cofrestrir ac arolygir gofalwyr plant, meithrinfeydd dydd a'r grwpiau chwarae gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod er mwyn monitro safon y gofal a ddarparant. Nid oes, er hynny, asesiad ffurfiol ar wahân o gynnwys addysgol y gofal a ddarparant. Er mwyn rhoi sylw i hyn mae Cynlluniau Ansawdd Sicr yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd gan Gymdeithas Gofal Plant Genedlaethol, Cymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol, Mudiad Ysgolion Meithrin a Chymdeithas Grwpiau Chwarae Cyn-Ysgol Cymru.

(4) Mae cryn bryder bod rhai plant 3 oed yn mynychu nifer o wahanol leoedd mewn diwrnod, megis:-

clwb cyn-ysgol, gofalwr plant neu feithrinfa ddydd o 8.00 -9.00 a.m.
grŵp chwarae plws, dosbarth meithrin neu feithrinfa ddydd o 9-11.30 a.m.
grŵp chwarae plws, dosbarth meithrin neu feithrinfa ddydd o 11.30 - 3.00 p.m.
clwb ar ôl ysgol, gofalwr plant neu feithrinfa ddydd o 3.00 - 5.00/ 6.00 p.m.

(5) Effeithir ar y nifer o leoedd i blant yn y lleoedd hyn gan y posibilrwydd o ddefnydd cyfunol/gorgyffwrdd:-

5.1 Mynegodd nifer o rieni a gymerodd ran yn yr Archwiliad Gofal Plant ym mis Mawrth 1999 y byddent yn dymuno gofal mwy 'cyflawn' ar gyfer plant meithrin mewn ysgolion, er mwyn i blant fynychu'r feithrinfa yn y bore a grŵp chwarae plws yn y prynhawn. Pa beth bynnag fo natur y ddarpariaeth gyflenwol a gynigir, anghenion y plentyn yw'r peth pwysicaf, yn enwedig os ehangir y math hwn o ddarpariaeth. Beth bynnag fo'r lleoliad mae'n rhaid peidio ag anghofio pwysigrwydd dysgu trwy chwarae a gweithgareddau.

5.2 Mae mwyafrif y grwpiau chwarae plws ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnig y math hwn o ofal 'cyflawn' mewn ysgolion (3 mewn canolfannau cymunedol), ond nid ydynt i gyd ar agor bob dydd o'r wythnos. Mae rhai meithrinfeydd dydd a gofalwyr plant yn cynnig y math hwn o ddarpariaeth ac yn darparu cludiant i gludo rhai plant i ac o'r ysgolion. Os ehangir y math hwn o ddarpariaeth mae'n rhaid gofalu bod darparwyr y gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd i roi cysondeb i'r plant.

5.3 Bellach mae peth darpariaeth yn y sector gwladol lle mae'r plant yn mynychu dosbarth meithrin yn y bore a grŵp chwarae plws yn y prynhawn. Yr un aelodau o staff yn yr un lleoedd sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth hon, sy'n rhoi mwy o ddilyniant a sefydlogrwydd i'r plant.
Byddai'n well gan rieni adael eu plant mewn un lle am y diwrnod cyfan.
Buasai'n well gan rieni adael eu plant 3 oed gyda'r gofalwr plant neu feithrinfa ddydd lle buont ers yn fabanod, ond oherwydd y gost nid yw hyn yn bosibl. Os yw'r rhieni i gael gwir ddewis

mae'n rhaid i'r ddarpariaeth ym mhob lle fod yn rhad ac am ddim.

(6) Nid yw'r flaengaredd i leihau maint dosbarthiadau i uchafswm o 30 disgybl wedi ei gwneud yn haws i ddosbarthiadau meithrin a derbyn roi eu dewis cyntaf o ysgol i'r rhieni a bu'n rhaid i rai rhieni dderbyn eu hail ddewis. Mae'r awdurdod lleol yn annog ysgolion i sefydlu unedau blynyddoedd cynnar sydd â dosbarthiadau meithrin a derbyn gyda'i gilydd mewn un uned er mwyn gwella'r broblem. Fodd bynnag, mae'n well gan rai darparwyr i blant 3 a 4 oed fod ar wahân.

(7) SYLWADAU AR DDWY ELFEN BENDANT O'R DASG

7.1 Gwerth addysgol a datblygol addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 oed.

Rydym yn credu both gwerth datblygol mawr mewn addysg ar gyfer plant 3 oed gan fod ganddynt hawl i addysg gyfannol o ansawdd sicr gyda chwricwlwm addas, mewn lle pwrpasol â staff hyfforddedig a chymwysedig.

7.2 Costau ehangu a'r effaith ar ddarparwyr gofal plant.

Nid yw ystyr 'cost ehangu' yn glir. Ai ehangu'r ddarpariaeth addysgol yn y sector gwladol yw ei ystyr? Ag addysg yn llwyr, nid gofal plant, y mae'r dasg yn ymwneud. Felly nid ydym yn gweld perthnasedd yr effaith ar ddarparwyr gofal plant. Mae pob lle'n darparu gofal plant ond nid ydynt i gyd yn darparu addysg.

(8) Os bwriedir ehangu'r ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 oed mae'n rhaid rhoi sylw i'r diffyg yn y ddarpariaeth bresennol yn gyntaf. Ar hyn o bryd mae'r sector gwladol yn cynnig addysg hanner amser mewn dosbarth neu ysgol feithrin i bob plentyn 3 oed y mae eu rhieni yn ei ddymuno. Mae pob un o'r 5 grŵp chwarae plws y MYM yn darparu addysg hanner amser am 5 sesiwn yr wythnos.

Er mwyn i'r 16 grŵp chwarae plws presennol PPA Cymru ddarparu addysg hanner amser am 5 sesiwn yr wythnos byddai angen 24 sesiwn ychwanegol. Ar sail 16 o blant yn talu £2.00 y sesiwn byddai hyn yn costio tua £11,000. Petai pob dosbarth meithrin ym mhob ysgol (60) yn darparu sesiynau grŵp chwarae plws i gyfannu darpariaeth y dos barth meithrin byddai'r gost gryn dipyn yn uwch.

(9) Byddai costau ehangu o fewn y sector gwladol yn rhoi baich newydd ar yr awdurdod lleol. Mae'r AALl eisoes yn darparu darpariaeth .5 ar gyfer plant 3 oed sy'n rhoi straen aruthrol ar y gyllideb addysg. Cost cyflenwi darpariaeth .5 ar hyn o bryd yw £1,020,000. Byddai ehangu hyn i ddarpariaeth amser llawn ar gyfer plant 3 oed yn defnyddio'r adnoddau presennol yn £2,040,000. Dylid ystyried cefnogi'r ddarpariaeth .5 a gynigir ar hyn o bryd yn y Fwrdeistref Sirol mewn unrhyw gynllun i ymestyn y ddarpariaeth yn yr awdurdod lleol.

(10) Gellid ehangu'r ddarpariaeth addysgol i blant 3 oed yn y sector preifat trwy ddarparu cyllid i fwy o feithrinfeydd dydd gofrestru gyda SPAEM (ESTYN) a chefnogi ariannu lleoedd o fewn meithrinfeydd dydd. Gellid ymestyn y ddarpariaeth addysgol i blant 3 oed o fewn y sector gofal plant trwy ariannu datblygiad 'Plant yn Gyntaf' Cynllun Rhwydweithiau Cymeradwyedig Gofal Plant (NCMA ).

## (11) EFFAITH AR DDARPARWYR GOFAL PLANT

### 11.1 GRWPIAU CHWARAE

Byddai'r effaith ar y grwpiau chwarae'n sylweddol petai plant 3 oed yn ogystal â phlant 4 oed yn cael cynnig darpariaeth amser llawn am ddim. Petai rhagor o grwpiau chwarae'n cau byddai'r ddarpariaeth rhiant/plant bach yn cael ei heffeithio a byddai'r gefnogaeth i rieni a chyfleoedd hyfforddi i ferched yn cael eu colli.

### 11.2 MEITHRINFEYDD DYDD PREIFAT

Petaent yn colli eu plant 3 oed i leoedd eraill ni fyddai'n bosibl i nifer o feithrinfeydd dydd preifat barhau. Byddai llawer yn cau oni bai fod cyllid yn cael ei ddarparu i alluogi rhieni plant 3 oed i gael darpariaeth am ddim mewn meithrinfeydd dydd. Petai rhagor yn cau byddai rhieni'n cael llai o ddewis.

### 11.3 GOFALWYR PLANT

Mae gofalwyr plant cofrestredig yn darparu un o'r ffynonellau pwysicaf o ofal plant ffurfiol yng Nghymru. Gofalwyr plant yw'r unig ddarpariaeth sydd ar gael mewn rhai ardaloedd gwledig yng Nghymru. Mae nifer y gofalwyr plant yn y Fwrdeistref Sirol yn gostwng. Cynhaliodd Partneriaeth Gofal Plant Wrecsam ymgyrch i recriwtio mwy o ofalwyr plant. Petai gofalwyr plant yn colli plant 3 oed yn ogystal â phlant 4 oed i leoedd eraill ni fyddai'n bosibl i nifer ohonynt redeg gwasanaeth dichonadwy.

(12) Mae'r dasg yn gwrth-ddweud ei hun 'plant o dan oedran ysgol gorfodol' h.y o dan 5 oed, sy'n cynnwys plant 4 oed, lle mae'r dasg yn ymwneud â phlant 3 oed. At hyn, mae angen egluro'r hyn a olygir wrth blant 3 oed. A yw'n golygu plant 3 oed/ sy'n codi'n 4 oed neu rai 3 oed ieuengaf sy'n mynychu lleoedd i'r ystod oed ieuengaf? Mae'r derbyniadau i ysgolion/dosbarthiadau meithrin awdurdodau lleol Cymru yn gwahaniaethu'n fawr.

## (13) CANLYNIAD

Mae'r cynnig i ehangu'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3 oed yn codi nifer o faterion cymhleth. Efallai na fydd ehangu'r ddarpariaeth yn fanteisiol i'r plentyn. Dylai unrhyw newid arfaethedig sicrhau mai anghenion y plentyn yw'r peth pwysicaf a bod rhieni'n cael gwir ddewisiadau. Ni ddylid ystyried plant tair oed fel grŵp arwahanol. Mae'n rhaid i ddatblygiad y gwasanaethau blynyddoedd cynnar ar gyfer plant ifanc ystyried holl anghenion y plentyn.

Gellir ateb gofynion plant mewn gwahanol ffyrdd ac mewn gwahanol leoedd cyhyd â bo safonau ansawdd yn cael eu cynnal ynddynt. Mae'n rhaid i bwysigrwydd profiadau blynyddoedd cynnar addas ar gyfer plant, ta waeth yn lle, fod yn ganolog i unrhyw newidiadau arfaethedig mewn polisi. Rhaid i holl ddarparwyr y gwasanaethau ar gyfer plant ifanc yn y sectorau statudol, preifat a gwirfoddol weithio mewn partneriaeth er mwyn cael y gorau i'n plant sef ein dyfodol.

# PARTNERIAETH BLYNYDDOEDD CYNNAR CONWY

## Ymateb i'r Polisi ar Ddarparu Addysg Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant 3 oed (Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar)

Mae Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar Conwy yn datgan fod plant 3 oed yn mynychu ysgolion a gynhelir yn rhan amser (.5) o'r Medi ar ôl iddynt gael eu penblwydd yn dair oed. Mae'r ddarpariaeth ar gael ymhob ysgol gynradd a babanod a gynhelir o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r Cynllun yn cael ei adolygu yn flynyddol. Mae'r Bartneriaeth yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r amrywiaeth o ddarpariaeth ar gyfer plant cyn iddynt ddechrau'n rhan-amser yn yr ysgol ac mae'n dymuno i'r sefyllfa barhau.

## Ymateb i elfennau penodol o'r cylch gwaith:

(a) Gwerth addysgol a datblygol addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 oed

Mae'r plant nad ydynt yn mynychu ysgol yn rhan-amser, sef y plant sy'n agos i 3 oed neu'n 3 oed ifanc yn manteisio o fod yn rhan o sefyllfa anffurfiol gyda gweithgareddau yn seiliedig ar chwarae a chanran uchel oedolyn:plentyn. Mae hyn yn galluogi pob plentyn i ddatblygu yn ôl ei allu ei hun cyn mynychu ysgol ac mae'n caniatau i rieni ddewis oriau hyblyg er mwyn ateb gofynion y plentyn.

Mae Partneriaeth Conwy yn cefnogi'r datblygiad o addysg blynyddoedd cynnar anffurfiol i'r ffurfiol gynyddol.

(b) Cost ei ehangu a'r effaith ar ddarparwyr gofal plant

Mae Partneriaeth Conwy yn croesawu parhau gyda'r sefyllfa presennol yng Nghonwy sydd ar hyn o bryd yn golygu nad oes cost ychwanegol ar gyfer plant sy'n mynychu'r ysgol yn mis Medi ar ôl eu penblwydd yn 3 oed. Byddai'r Bartneriaeth yn croesawu sicrhau cyllid er mwyn cael darpariaeth cyn-ysgol o ansawdd uchel gyda'r pwyslais ar weithgareddau sy'n seiliedig ar brofiadau chwarae.

Byddai cryfhau'r ddarpariaeth yn hynod gost effeithiol.

Annette Evans (AALl Conwy)
Cydlynydd
Partneriaeth Strategaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Conwy

Sylvia Jones/WPPA
Cadeirydd
Partneriaeth Strategaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Conwy

# PARTNERIAETH BLYNYDDOEDD CYNNAR SIR DDINBYCH

a) Rhaid diffinio beth yw addysg blynyddoedd cynnar cyn y gellir gosod gwerth arni, gall addysg, fel y'i diffinnir gan riant, fod yn hollol wahanol i'r hyn y mae athro/athrawes neu berson lleyg yn ei alw'n addysg. Ar beth rydym yn gosod gwerth?

Rhaid gosod nodau clir sy'n seiliedig ar ymchwil, profiad ac adnoddau ffisegol ac ariannol, gan ystyried y rhesymau dros ariannu addysg ar gyfer plant tair oed. Mae plant tair oed yn elwa ar amgylchedd cymdeithasol, ac maent yn cael profiadau dysgu gwerthfawr o fod yng nghwmni plant o'r un oed â hwy ac o chwarae â hwy.

b) Bydd ehangu'r ddarpariaeth addysg ar gyfer plant tair oed yn golygu cost sylweddol i ddechrau; beth fydd y ddarpariaeth yn sgîl yr ehangu hwn?
Llawn-amser?
Rhan-amser?
Gellir lleihau'r gost mewn nifer o ffyrdd:
Defnyddio'r ddarpariaeth gofal am blant sydd ar gael eisoes, h.y. grwpiau anstatudol sy'n cynnwys y sectorau gwirfoddol, preifat ac annibynnol.
Gellid sefydlu'r cysylltiadau ag ysgolion, fel y gellid gweld dilyniant.
Gellid ailwampio'r unedau arolygu darpariaeth addysgol er mwyn darparu gwasanaeth mwy cydlynus a chyson ar gyfer plant.
Sicrhau bod hyfforddiant ar gyfer y staff sy'n darparu'r gwasanaeth yn hygyrch ac ar gael i bob sector.

Gan fod hwn yn gynllun newydd, gellid edrych o'r newydd ar ofal plant ac addysg plant (ni ellir gwahanu'r ddau beth ar gyfer plant tair oed), mae pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd priodol yn effeithio ar y system addysg drwyddi draw wrth i'r plentyn fynd drwy'r system honno. Gan mai'r blynyddoedd ffurfiannol yw'r rhai pwysicaf ym mywyd plentyn o ran addysg, y mae'n hanfodol sicrhau ei fod yn iawn o'r cychwyn.

# PARTNERIAETH BLYNYDDOEDD CYNNAR POWYS

Mae Partneriaeth Powys yn falch o gael mynegi barn ar y ddwy elfen yn y cylch gorchwyl ond mae'n ddrwg gennym fod y cyfnod ymateb gofynnol mor fyr nes ei fod yn ein rhwystro rhag rhoi ateb manwl.

1a) gweth addysgol a datblygiadol addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 oed, a

1b) cost ehangu'r ddarpariaeth a'r effaith ar ddarparwyr gofal plant

Polisi cytunedig Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Powys, fel y'i mynegwyd yn y Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar, yw mai'r lleoliad mwyaf priodol ar gyfer plant 3 oed mewn addysg blynyddoedd cynnar, gydag ychydig iawn o eithriadau, yw tu allan i'r sector a gynhelir. Nid yw hyn yn rhwystro creu cysylltiadau agos rhwng darparwyr addysg blynyddoedd cynnar eraill a'r ysgolion - bydd rheiny yn cael eu hybu. Yn wir, yng nghyd-destun Powys, ar brydiau, mae'n hanfodol ac yn fuddiol i ddarparwyr rannu safleoedd ysgol.

> 'Sefydlu'r egwyddor mai dim ond fel eithriad y dylid rhoi plant o dan dair oed mewn lleoliad ysgol a gynhelir gan y wladwriaeth'

Mater Allweddol 6 Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar Powys 1998-99

Barn y Bartneriaeth yw y dylai lleoliadau ar gyfer plant ifanc iawn fod yn hollol briodol ar gyfer eu hanghenion penodol. Gan fod cyfartaledd uchel o blant yn ysgolion Powys yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oed cymysg, byddai'n amhriodol i ychwanegu plant bach tair oed i leoliadau o'r fath.

> '...rydym ni'n credu y dylai blynyddoedd cynharaf addysg plentyn fod yn seiliedig ar bartneriaeth rhwng y cartref a'r darparwr ac unrhyw bartneriaid priodol eraill. Rhaid i'r addysg roi'r plentyn yn gyntaf - yn yr ystyr y dylai pob plentyn gael mynediad i'r amgylchedd addysgol sy'n fwyaf priodol iddo ar adeg sy'n cyd-fynd â'i ddatblygiad.'

Cyflwyniad: Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar Powys 1998-99

Mae Awdurdod Addysg Lleol Powys yn ymwybodol o'r sialens a wynebir wrth ddysgu plant bach mewn dosbarthiadau oed cymysg. Dangosir hyn drwy ddyfynnu detholiad o Gynllun Integredig Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant 1999-2000.

Ym Mhowys y sialens benodol yw trefnu cwricwlwm priodol i'r plant Meithrin/Derbyn hynny sydd mewn dosbarthiadau oed cymysg. Mae ffigyrau ar gyfer 1997/98 yn dangos bod plant 4 oed mewn 50.9% o'n hysgolion yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau gyda disgyblion rhwng 4 a 7 oed ac mewn 37% o'n hysgolion roeddynt mewn dosbarthiadau Meithrin/Derbyn oed cymysg. Bydd hyfforddiant yn cael ei dargedu at y grŵp penodol hwn. Bydd y rhai sy'n rheoli a darparu gwasanaeth i blant 4 oed yn cael eu hannog:

- I ddarparu gwybodaeth i rieni a gweithio mewn partneriaeth â hwy mewn perthynas â gweithgareddau addysgol priodol ar gyfer plant 4 oed;
- I sicrhau bod yr holl staff mewn dosbarthiadau derbyn a rhai oed cymysg (yn cynnwys staff cynorthwyol) yn cael eu hyfforddi'n briodol i weithio gyda phlant bach;

- I weithio tuag at sicrhau cymarebau plant/oedolion sy'n cymharu'n ffafriol â'r rhai mewn dosbarthiadau meithrin a lleoliadau meithrin eraill;
- i sicrhau bod pob plentyn oed meithrin yn derbyn cwricwlwm priodol, wedi'i seilio ar chwarae, sy'n adlewyrchu cyfnod datblygu'r plentyn;
- i sicrhau bod y cwricwlwm yn eang ac yn gytbwys ym mhob maes dysgu ac yn ystyrlon i bob plentyn bach;
- i weithio tuag at ddarparu mynediad i bob plentyn bach at le chwarae diogel tu allan ar gyfer defnydd rheolaidd i chwarae a chyflwyno'r cwricwlwm;
- i sicrhau bod yr amgylchedd yn ysgogi awydd i ddysgu a datblygiad deallusol;
- digon o le ar gyfer gweithgareddau chwarae Blynyddoedd Cynnar.

Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant 1999-2000

Mae'r sialens unigryw o ddarparu addysg blynyddoedd cynnar o safon uchel mewn ardaloedd gwledig yn fater y mae'r Bartneriaeth yn parhau i'w drafod. Yn ogystal â'r costau cyfalaf uchel ynghlwm ag adeiladu o'r newydd, mae anawsterau sylweddol yn y rhannau mwy gwledig o'r sir o ran darparu cludiant i blant mor ifanc.

> Darpariaeth darged ar gyfer plant 3 oed: Bwriad y Bartneriaeth yw gweithio tuag at ddarparu lle am ddim, o leiaf rhan amser, i blant tair oed, tu allan i'r sector a gynhelir. Yn ddibynnol ar arian gan y Swyddfa Gymreig, neu ffynonellau eraill, bydd y Bartneriaeth yn ceisio hyrwyddo, cynnal a datblygu gwasanaethau yn y dyfodol i sicrhau bod pob plentyn tair oed, ble bo'r rhieni yn dymuno hynny, yn cael cyfle i gael o leiaf dau sesiwn o ddarpariaeth feithrin yr wythnos. Amcangyfrifir bod angen cyllid o £770,000, o leiaf, i ganiatáu cefnogaeth ar y lefel hon (yn seiliedig ar ffigyrau 1998, ond heb gyfrif costau cyfalaf na chludiant)

Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Powys 1999-2000

Mae digon o dystiolaeth fyd-eang am effeithiau cadarnhaol tymor hir rhaglenni blynyddoedd cynnar o safon uchel, ond mae hefyd, yn arwyddocaol, gorff cynyddol o ymchwil sy'n cysylltu lleoliadau addysg blynyddoedd cynnar gor- ffurfiol, gydag ychydig o bwyslais yn cael ei roi ar chwarae, gyda than-gyflawniad academaidd yn ddiweddarach mewn oes. Mae Partneriaeth Powys yn cefnogi awydd y Llywodraeth i godi safonau addysgol, ond rydym yn dymuno datgan, yn hollol bendant, mai nid gostwng oed cychwyn addysg ffurfiol yw'r modd mwyaf priodol o gyrraedd y nod hon a rannwn. Mae'r Bartneriaeth yn dymuno gweld datblygiad parhaus yn y cyfleoedd o safon uchel sydd ar gael i bob plentyn gymryd rhan mewn addysg a gofal priodol cyn-ysgol mewn amrediad o leoliadau sy'n diwallu eu hanghenion hwy a'u teuluoedd orau.

Byddai'r pryderon presennol am barhad lleoliadau preifat a gwirfoddol yn cael eu lleddfu pe byddai arian yn cael ei ryddhau ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar, fel y gwelwyd yn Lloegr. Byddai unrhyw ehangiad yn y sector a gynhelir yn cael effaith andwyol ar y math hwn o ddarpariaeth.

Mae'r Bartneriaeth yn amcangyfrif, drwy ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd drwy archwiliad, y byddai dros 50% o gylchoedd meithrin, meithrinfeydd preifat a grwpiau Ti a Fi yn methu pe bai addysg blynyddoedd cynnar i blant 3 oed yn cael ei ariannu yn ysgolion y sector a gynhelir. Byddai'r effaith ar ofal plant rhwng 0-3 oed yn drychinebus.

Mae'r Bartneriaeth yn ymwybodol bod rhai lleoliadau i blant 3 oed (o fewn y sector nas cynhelir)

mewn trafferthion ariannol, yn enwedig gyda'r plant tair oed hŷn yn mynd i'r ysgol. Mae nifer o gylchoedd meithrin wedi parhau i frwydro i gadw ar agor eleni gan feddwl y byddai cyllid ar gael o'r Swyddfa Gymreig yn 1999. Yn awr, gan na fydd cyllid ychwanegol ar gael o'r Swyddfa Gymreig ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar ym Mhowys mae'r Bartneriaeth yn dymuno ceisio sicrhau cynaladwyaeth y cylchoedd meithrin hynny sydd o dan y bygythiad mwyaf (yn aml y rhai yn yr ardaloedd mwyaf gwledig). Gwnawn hynny drwy ddefnyddio grant gofal plant y Swyddfa Gymreig am 1999 - 2000 a thrwy ddarparu cyngor a chefnogaeth yn ôl y galw.

Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Powys 1999-2000

## Diweddglo:

Mae Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Powys yn cefnogi ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar o safon uchel i blant tair oed, cyn belled â'i fod yn cael ei dargedu'n briodol at anghenion datblygiad plant bach o'r oed hwnnw, ac yn cael ei ariannu i sicrhau fod adeiladau, staffio ac adnoddau yn cael eu cynnal ar y lefel angenrheidiol.

## Gwybodaeth bellach:

Os yw'r Pwyllgor yn dymuno gwneud ymholiadau pellach er mwyn cael gwybodaeth am yr ymchwil a wnaed ym Mhrydain ac mewn rhannau arall o'r byd, byddem yn argymell y ffynonellau canlynol:

1. Effectiveness of Early Interventions: Oliver, Smith & Barker. Thomas Coram Research Unit
Thomas Coram Research Unit
Institute of Education
University of London
27-28 Woburn Square
Llundain WC1H 0AA

2. Long term Outcomes of Early Childhood Programs (sic) Cyf. 5, Rhif. 3, Gaeaf 1995
http://www.futureofchildren.org

3. UNICEF "Towards a Comprehensive Strategy for the Development of the Young Child"
an Interagency policy review.
Http://www.ecdgroup.com/archive/po.html

# ACCAC

## (AWDURDOD CYMWYSTERAU, CWRICWLWM AC ASESU CYMRU)

### Pwrpas

1. Mae'r Pwyllgor Addysg Cyn 16, Ysgolion ac Addysg Gynnar wedi gwahodd safbwyntiau ACCAC ar:-

   a. werth addysgiadol a datblygiadol addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 mlwydd oed, a
   b. chost ehangu'r ddarpariaeth a'r effaith ar ddarparwyr gofal plant.

   Mae paragraffau 3-17 o'r papur yma yn trafod elfen gyntaf y dasg yma. Mae paragraffau 18-20 yn trafod yr ail elfen, i'r graddau y mae'n ymwneud â thrafod yr angen am gymwysterau priodol ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar a'r sector gofal plant.

2. Fe fydd y papur yn cael ei gefnogi gan gyflwyniad llafar gan Mr Brian Connolly (Cadeirydd ACCAC), Mr Gary Brace (Prif Weithredwr Cynorthwyol - Cwricwlwm ac Asesu 5-14) a Mr Kim Ebrahim (Cynghorydd Cymwysterau Galwedigaethol).

### Cefndir

3. Mae yna draddodiad cryf yng Nghymru o ddechrau'r ysgol yn ifanc, ac, er bod yna beth amrywiaeth yn yr amrediad o bolisïau mynediad, mae'r arferiad o dderbyn plant 4-mlwydd-oed i'r ysgol yn llawn amser wedi ei hen sefydlu. Yn 1997/98, roedd 77% o bob plentyn tair- a phedair-mlwydd-oed yng Nghymru yn yr ysgol naill yn llawn amser neu'n rhan amser. O'r cyfanswm, roedd 62% o ddisgyblion dan 5 yn llawn amser mewn ysgolion cynradd, gyda 10% o'r rheini yn ddisgyblion 3 oed neu iau. Ar ben hynny, mae yna lefydd mewn meithrinfeydd a chylchoedd chwarae ar gyfer 48% o'r holl blant 3 a 4 mlwydd oed yng Nghymru. (Ffynhonnell: Cyfarwyddiaeth Ystadegol y Cynulliad Cenedlaethol).

4. Canolbwyntiodd cyflwyniad y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol, sylw ar y ddarpariaeth ar gyfer plant dan 5 yn yr ysgol ac mewn gosodiadau cylch chwarae/meithrinfa. Yn 1996, cyhoeddodd Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru/the Curriculum and Assessment Authority for Wales (ACAC), "Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol" sy'n disgrifio meysydd o ddysg a phrofiad y dylai disgyblion eu cael cyn yr oedran ysgol gorfodol. Roedd y llyfryn hwn (sydd wedi cael ei roi i Aelodau'r Pwyllgor) wedi ei seilio ar y cyfarwyddydiau a restrwyd yn "Plant Dan Bump yn yr Ysgol" a gyhoeddwyd gan Gyngor Cwricwlwm Cymru (CCW) yn 1991.

### Egwyddorion

5. Nid oes dadl ynghylch a yw plant yn elwa o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Yr hyn sydd dan sylw yw natur y ddarpariaeth honno, mewn cysylltiad â phlant 3 mlwydd oed.

6. Yr egwyddorion sydd yn yn sail i'r ddogfen Canlynidau Dymunol yw y dylai darpariaeth cyn oed ysgol:

- gyfrannu i ddatblygiad a thyfiant cyffredinol pob plentyn;
- ddarparu springfwrdd ar gyfer dysg trwy chwarae strwythuredig a digymell fel ei gilydd;
- sicrhau ymrwymiad gweithredol a phrofiad uniongyrchol perthnasol mewn amgylchedd sy'n llawn posibiliadau;
- gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae rhieni neu ofalwyr yn ei wneud i addysg eu plant ac annog partneriaeth weithiol;
- sicrhau fod cyfleoedd cyfartal yn cael eu cynnig i ferched a bechgyn, i blant gydag anghenion dysgu arbennig ac i'r rhai o wahanol ddiwylliannau; a
- darparu profiadau a chyfleoedd i blant ifanc ddod yn ymwybodol o arbenigrwydd Cymru, ei hieithoedd a'i diwylliant.

## Y cwricwlwm ar gyfer plant 3 a 4 mlwydd oed

7. Bydd cwricwlwm ar gyfer plant dan bum mlwydd oed yn ychwanegu at ac ymestyn eu profiadau cynnar er mwyn meithrin dysg, yn yr un modd ag y mae cwricwlwm uwchradd yn datblygu ychwaneg ar brofiadau'r cyfnod cynradd. Oherwydd fod plant ifanc ar eu mwyaf derbyngar ac agored i niwed yn ystod y cyfnod yma o'u datblygiad, y mae'n hynod o bwysig deall fod cwricwlwm ar gyfer plant dan bump yn cyfeirio at bob profiad y mae gosodiad yn ei ddarparu, yn ymwybodol ac fel arall, sydd yn hyrwyddo datblygiad y plentyn cyfan. Y mae'n arbennig o briodol i feddwl am y cwricwlwm ar gyfer plant dan bump fel rhywbeth sy'n cael ei brofi yn hytrach na'i gyflenwi.

## Cynnwys y cwricwlwm

8. Nid yw plant ifanc yn adnabod terfynnau testun ac un o brif nodweddion o arferiad da mewn cysylltiad â darpariaeth plant dan bump yw'r modd rhyngberthynol y mae edefynnau sy'n cyfansoddi cynnwys y cwricwlwm yn cael eu cyflwyno a'u profi. Er mwyn sicrhau ehangder a chydbwysedd yn y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump, fel rheol fe'i hystyrir yn ddefnyddiol i ddadansoddi a chynllunio cynnwys y cwricwlwm o fframwaith hyblyg. Y dull a dderbynir gan lawer o'r rheini sy'n gweithio gyda phlant dan bump yw cynllunio o feysydd o brofiad a dysg.

9. Mae'r ddogfen Canlyniadau Dymunol yn rhestru chwe maes o ddysg a phrofiad a ddylai nodweddu'r cwricwlwm ar gyfer plant dan bump:

- Iaith, Llythrennedd a sgiliau Cyfathrebu;
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol;
- Datblygiad Mathemategol;
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd;
- Datblygiad Corfforol;
- Datblygiad Creadigol.

Rhestrir manylion o'r profiadau y dylai disgyblion eu cael o fewn y chwe maes yma yn y ddogfen Canlyniadau Dymunol.

10. Nid yw'r meysydd yma o ddysg yn feysydd didoledig, pynciau ar wahân ond yn hytrach feysydd integredig a gorgyffyrddol o brofiad. Mae dechrau deall y dulliau gwahanol o ddefnyddio arian, er enghraifft, yn brofiad mathemategol gymaint ag y mae yn brofiad cymdeithasol ac y mae hefyd i'w wneud â deall y byd o'n cwmpas. Yn yr un modd, y mae deall cydberthnasau gofodol - hynny yw lle y mae pethau mewn perthynas â phethau eraill - angen profiad iaith effeithiol, ond hefyd amgyffrediad o syniadau mathemategol a gwyddonol a allai, yn eu tro, angen sgiliau corfforol i'w sylweddoli.

11. Y Canlyniadau Dymunol yw, fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, y profiadau cyn oed ysgol y dylai plant eu cael i'w galluogi i wybod, deall a gwneud rhai pethau erbyn eu bod nhw wedi cyrraedd yr oedran ysgol gorfodol. Nid "Cyfnod Allweddol Sero" yw'r Canlyniadau Dymunol sy'n rhestru rhaglenni astudiaeth a thargedau cyrhaeddiad i blant 3 a 4 mlwydd oed eu cyflawni. Fodd bynnag, y mae'r meysydd o brofiad a amlinellir yn Canlyniadau Dymunol yn cydsynio â'r Cwricwlwm Cenedlaethol a byddant yn hwyluso mynediad plant i ofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol pan fyddant yn 5 mlwydd oed.

    Mae arolygon gan ESTYN yn dynodi'r impact positif y mae'r ddogfen Canlyniadau Dymunol yn ei gael ar ddarpariaeth a safonau yn y sectorau a gynhelir a'r rhai nas cynhelir.

12 . Fe fydd y system o asesiad man cychwyn statudol yng Nghymru a fydd yn dod i rym ym mis Medi 1999, yn dilyn blwyddyn beilot cenedlaethol, yn mesur yr hyn y gall disgyblion ei wneud pan maent yn dechrau'r ysgol am y tro cyntaf yn y Flwyddyn Dderbyn (neu ym Mlwyddyn 1, os mai dyma pryd y maent yn dechrau'r ysgol) mewn:

- sgiliau ieithyddol;
- sgiliau mathemategol;
- sgiliau personol a chymdeithasol.

13. Mae'r trefniadau asesu man cychwyn rhain yn ychwanegu at y Canlyniadau Dymunol ond nid ydynt yn fecanwaith asesu ar gyfer unrhyw gwricwlwm cyn oed ysgol gorfodol a ddysgir y gallai plant fod wedi ei brofi trwy gylchoedd chwarae neu feithrinfeydd. Yn hytrach, maent yn galluogi asesiad gael ei wneud o'r hyn y mae disgyblion yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud ar ddechrau addysg orfodol er mwyn i athrawon gael eu cynorthwyo i gynllunio'n well ar gyfer cynnydd disgyblion unigol.

14. Yn ystod datblygiad diweddar y cynigion ar gyfer Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig i Gymru, roedd yna gefnogaeth gref dros gadw'r Canlyniadau Dymunol yn eu ffurf presennol. Mae ACCAC yn bwriadu ailgyhoeddi'r ddogfen a darparu arweiniad i ysgolion ar ddilyniant o'r meysydd o brofiad a dysg yn y Canlyniadau Dymunol i Gyfnod Allweddol 1 o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

## Addysgu a Dysgu

15. Ychydig o derfynau sydd yna i'r plentyn rhwng agweddau o ddysgu neu rhwng chwarae a gweithio.Mae plant tair a phedair mlwydd oed yn profi'r cwricwlwm trwy amrediad o chwarae.

Mae gweithgareddau chwarae pwrpasol ac wedi eu strwythuro'n dda yn gwneud yn siwr fod y plant yn dod ar draws y profiadau dysgu a fwriedir gan yr "athro/athrawes".

16. Mae gan blant ifanc allu ac awch naturiol i chwarae, siarad, bod yn llawn chwilfrydedd ac ymwneud yn weithredol mewn gwneud pethau. I'r plentyn, gall chwarae fod yn fusnes difrifol iawn, ac yn aml iawn y mae. Mae angen sylw astud arno. Mae i gyd i'w wneud â dyfalbarhâd, talu sylw i fanylion, dysgu a chanolbwyntio - nodweddion a gysylltir fel rheol â gwaith. Mae chwarae yn dyngedfennol - nid yn unig i'r ffordd y daw plant yn hunanymwybodol a'r ffordd y maent yn dysgu rheolau ymddygiad cymdeithasol, ond y mae hefyd yn hanfodol i ddatblygiad deallusol.

17. Mae plant ifanc yn dysgu yn fwyaf effeithiol pan ydynt yn ymwneud yn weithredol mewn profiadau uniongyrchol. Mae darpariaeth ar gyfer plant ifanc wedi ei ganolbwyntio ar y plentyn. Y mae i'w wneud ag oedolion yn deall, ysbrydoli a herio dawn y plentyn i ddysgu, gydag oedolion yn cymryd rhan yn chwarae'r plant yn hollbwysig. Mae darparwyr blynyddoedd cynnar da yno i helpu plant, i gynnig dewisiadau, i herio plant gyda gofal a sensitifrwydd, i'w hannog ac i hybu eu dysg.

18. Er mwyn hyrwyddo dysgu effeithiol, mae "athrawon" yn sianelu'r cryfderau hyn i'w gweithgareddau cynlluniedig a chreu awyrgylch alluogol lle:

- mai siarad, holi cwestiynau a rhoi atebion gonest yw'r norm;
- mae chwilfrydedd, dychymyg a synnwyr o ryfeddod yn cael eu meithrin;
- mae archwilio gyda'r synhwyrau a chymryd rhan yn cael eu hannog.

Mae gwybod am ddatblygiad plant ac anghenion sylfaenol plant tair a phedair mlwydd oed yn cynyddu eu dealltwriaeth ac yn help i wneud y ddarpariaeth ar gyfer plant ifanc yn briodol a phleserus. Pan fo dysgu yn hwyl, mae plant yn sefydlu agweddau positif tuag at ddysgu, sut i ddysgu, a'r sgil o astudio.

## Datblygiadau mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig

19. Mae Cyngor Ymgynghorol yr Alban ar y Cwricwlwm wedi cynhyrchu A Curriculum Framework for children 3 to 5 yn ddiweddar sy'n cynnwys negeseuon tebyg iawn i'r rheini a geir yn Canlyniadau Dymunol ond heb gyfeirio o gwbl at ddatblygiad mathemategol. Mae Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA) Gogledd Iwerddon wedi cynhyrchu Curricular Guidance for Pre-School Education eto gyda meysydd tebyg o brofiadau i Canlyniadau Dymunol ond gydag ychwanegiad maes yn delio gyda gwyddoniaeth a thechnoleg. Yn Lloegr, awgrymir y bydd Early Learning Goals yn cymryd lle Desirable Learning Outcomes a gyhoeddwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA), sydd eto'n cynnwys meysydd tebyg o brofiad i Canlyniadau Dymunol ond mewn ffordd fwy argymhellol.

## Cymwysterau Cenedlaethol ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar a'r sector gofal plant

20. Bydd estyniad o ddarpariaeth ar gyfer plant 3 mlwydd oed yn gofyn am argaeledd cymwysterau priodol.
21. Ym mis Mehefin 1998, cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig Bapur Gwyrdd, "Y Strategaeth Gofal Plant Cenedlaethol yng Nghymru" a restrodd gynigion i sicrhau safon da, gofal plant fforddiadwy

ar gyfer plant 0-14 ym mhob cymdogaeth. Gofynwyd i ACCAC gyfrannu i'r strategaeth, ochr yn ochr â'r Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol (NTOs) sy'n ymddangos, trwy fynd â gwaith yn ei flaen i ddatblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer cymwysterau a hyfforddiant yn y sectorau addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'r fframwaith ar gyfer cymwysterau a hyfforddiant yn rhan allweddol o'r Strategaeth Gofal Plant, yn galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflenwi'r safon o wasanaethau gofal plant sy'n ofynnol.

22. Fe ymgymrodd ACCAC ag ymgynghoriad ledled-Cymru ar y "Fframwaith ddrafft ar gyfer cymwysterau a hyfforddiant yn y sector addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith-chwarae." Fe wnaeth yr adborth o'r ymgynghoriad gadarnhau cefnogaeth i'r cysyniad o fframwaith sy'n dynodi pa gymwysterau sy'n gysylltiedig gyda swyddogaethau gwaith penodol, a sut y gall hyfforddiant mewn bodolaeth arwain at y cymwysterau rheini. Mae crynodeb wedi ei anfon at Aelodau'r Pwyllgor.

23. Mae ACCAC yn gweithio ar hyn o bryd gyda'r QCA i awdurdodi cymwysterau galwedigaethol newydd i fynd i mewn i'r fframwaith. Bydd y cymwysterau sy'n ymddangos yn cael eu hamlinellu yn erbyn Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a ddatblygwyd gan y NTOs i sicrhau fod anghenion y sector yn cael eu cwrdd. ACCAC sydd â'r cyfrifoldeb yng Nghymru i awdurdodi cymwysterau yn erbyn y meini prawf cenedlaethol y cytunir arnynt ar y cyd â chyrff rheolaethol eraill (QCA yn Lloegr a CCEA yng Ngogledd Iwerddon).

# UNED BLYNYDDOEDD CYNNAR PLANT YNG NGHYMRU

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad plant ymbarél cenedlaethol yng Nghymru ac mae ganddo aelodau yn y sectorau gwirfoddol, y sectorau statudol a'r sector annibynnol ac o bob disgyblaeth sy'n gysylltiedig â gwasanaethau plant. Seilir ein gwaith ar egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae'r rhain yn gymwys ar draws pob agwedd o fywyd plentyn a pherson ifanc. Yn anffodus nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar blant yn y DU yn gyson. Er enghraifft mae Deddf Plant 1989 yn ystyried mai lles y plentyn sy'n bennaf tra mai ychydig o egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a ymgorfforir mewn deddfwriaeth addysg. Mae Plant yng Nghymru yn cymryd rhan bwysig wrth ddatblgu polisi ar gyfer plant yng Nghymru a cyn sefydlu'r Cynulliad rhoddodd dystiolaeth i Bwyllogor Dethol y Llywodraeth ar Ofal Plant. Amlygodd rhan sylweddol o'r dystiolaeth honno y gwahaniaeth rhwng darpariaeth ar gyfer plant ifanc yng Nghymru ac mewn gwledydd Ewropeaidd eraill.

Rydym felly yn croesawu ffocws y Pwyllgor Addysg Dan 16 ar addysg a datblygiad plant ifanc. Mae'r mater yn un pwysig iawn i'r Cynulliad ei ystyried gan y bydd ganddo ganlyniadau pellgyrhaeddol ar gyfer datblygiad addysgol, cymdeithasol ac emosiynol plant ifanc yng Nghymru ar unwaith ac yn y tymor hir.

Rhaid i unrhyw newid arfaethedig sicrhau fod buddiannau'r plentyn yn aros yn bennaf o fewn unrhyw agenda gwleidyddol i wella safonau. Mae hefyd yn hanfodol fod tysiolaeth ar ddysgu a datblgiad plant ifanc yn cael ei ystyried yn ofalus o bersbectif cenedlaethol a rhyngwladol fel y medrir cyflawni'r canlyniadau priodol.

Mae Partneriaethau Datblgu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru yn ymrwymedig i gynllunio ar gyfer anghenion a buddiannau plant 0-8 oed. Nid yw swyddogion proffesiynol yn y maes ar y partneriaethau hyn felly yn cytuno y dylid ystyried "plant tair oed " fel grŵp ar wahân, oherwydd bod hyn yn creu enghraifft arall o ymagwedd ddarniog at ffurfio polisi ar gyfer plant ifanc a fu'n achos pryder sylweddol dros y blynyddoedd. Mae ymagwedd gyfannol at ddatblygu gwasanaethau yn canoli ar blant ar gyfer plant ifanc yn hytrach na rhaniadau biwrocrataidd a mympwyol yn sylfaenol.

Bu mynediad cynnar i'r ysgol yn nodwedd o addysg yng Nghymru ers amser maith. Tra bo plant yn y DU wedi dechrau addysg ffurfiol ynghynt na phlant yn Ewrop (neu bron unrhyw le yn y byd), mae mwyafrif plant Cymru wedi dechrau'r ysgol yn bedair oed a rhai yn dair - a ystyrir bellach fel yr oed dechrau swyddogol. Mae felly'n hanfodol fod y Pwyllgor yn dadansoddi'r swmp enfawr o dystiolaeth sy'n arddangos effeithlonrwydd profiadau addysgol cynnar.Ni chanfu ymchwil gan Osborne a Milbank (1989) a Sharp ac eraill fod unrhyw dystiolaeth bendant i awgrymu fod unrhyw fantais addysgol neu ymddygiadol ynddo'i hun i blant gychwyn yn yr ysgol gynradd cyn eu bod yn bump oed. Nid yw cymariaethau rhyngwladol yn rhoi unrhyw dystiolaeth bendant fod dysgu ffurfiol cynnar yn arwain at well perfformiad mewn llythrennedd a rhifedd ond fod cysylltiad cryf rhwng profiadau a gynlluniwyd yn dda, yn seiliedig ar ddysgu gweithgar a chwarae pwrpasol â llwyddiant.

Dengys yr arolwg mwyaf cynhwysfawr o'r dystiolaeth sydd ar gael - adroddiad Start Right 1994 a'r Comisiwn Cenedlaethol ar Addysg (1992) y gall darpariaeth yn seiliedig ar egwyddorion allweddol hyrwyddo dysgu a datblygiad, beth bynnag yw'r gosodiad - ysgol, cylch chwarae, methrinfa ddydd neu ofalydd plant. Mae plant ifanc yn dysgu drwy ymchwilio, profi drostynt eu hunain, chwarae a chyfathrebu. Mae tystiolaeth o newrowyddoniaeth ac astudiaethau rhyngwladol yn dangos fod plant yn dysgu orau pan fyddant yn cymryd rhan a phan maent â diddordeb, yn hyderus ac yn teimlo'n

ddiogel ynddynt eu hunain ac eraill. I'r gwrthwyneb, mae cyflwyniad cynnar i sylfeini addysg ffurfiol yn llawer mwy tebygol o wneud dysgu cynnar yn faich i'r plentyn. Y pwnc allweddol i'r Cynulliad i'w ysytyired yw sut i sicrhau y cynigir profiad addas i blant 3 oed beth bynnag fo'r gosodiad.

Yng Nghymru mae'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant yn seiliedig ar nifer o egwyddorion a sail gwerthoedd sy'n adlewyrchu ymarfer gorau blynyddoedd cynnar. Mae'r cyfarwyddyd yn cadarnhau'r angen i blant ifanc gael eu hysgogi, eu cymell a'u hysbrydoli gan oedolion ymatebol sensitif.

Eto dywedodd adroddiad diweddaraf SPAEM ar safonau ac ansawdd, tra'n priodoli'r gwelliant mewn ansawdd i gyfarwyddyd clir a gynhyrchwyd ACCAC, fod cynnydd tuag at gynyddu maint gwaith da yn tueddu i fod yn araf.

Mae ansawdd darpariaeth addysg i blant 4 oed mewn 15% o'r gosodiadau a gynhelir, yn fwyaf arferol dosbarthiadau derbyn a dosbarthiadau babanod oedran-cymysg, yn anfoddhaol. Mae cynnydd y plant yn y gosodiadau hyn yn araf ac ansicr ym mhob agwedd o'u gwaith. Yn 45% o gylchoedd chwarae a meithrinfeydd nas cynhelir mae gwendidau mewn cynllunio yn golygu fod cynnydd plant yn anwastad.

Os oes cynifer o blant 4 oed yn derbyn profiadau anfoddhaol mewn gosodiadau yn y ddau sector, beth yw'r prognosis ar gyfer plant 3 oed ? Os oes prinder o weithgareddau ysgogol; gor-bwyslais ar dasgau ffurfiol a llonydd; esgeuluso gweithgaredd corfforol; darpariaeth awyr agored wael; defnydd annigonol o'r byd go iawn a diffyg amser a gofod i blant ddatblygu eu pwerau cyfathrebu a'u dychymyg, yna caiff eu dysgu ei lesteirio gyda chanlyniadau'n llwm i lawer o rai 3 oed.

Mae'n rhaid i athrawon mewn dosbarthiadau derbyn a dosbarthiadau oedran cymysg yng Nghymru roi ystyriaeth i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, Asesiad Gwaelodlin yn ogystal â Chanlyniadau Dymunol ac mae'n debyg er y bwriadau gorau, y gall cynllunio i ateb anghenion plant tair oed gael ei ymylu neu gael blaenoriaeth is. Mae'n anochel y cyfaddawdir ar ansawdd.

## Argymhelliad

Dylai'r Pwyllgor ystyried profiad gwledydd heblaw Lloegr yn yr adolygiad hwn. Mae modelau sefydledig o ragoriaeth gynnar yn Ewrop, yr Unol Daleithiau, Awstralia a Seland Newydd.
Mae Seland Newydd, Iwerddon a'r Alban yn ddiweddar wedi cynnal archwiliad helaeth o'u polisïau ac wedi cynhyrchu fframwaith ar gyfer dysgu cynnar sy'n addas ar gyfer plant ifanc ym mhob gosodiad - ysgolion, cylchoedd chwarae ac ati.

## Cost ehangu darpariaeth ansawdd uchel i blant 3 oed

### Hyfforddiant

Mae hyfforddiant gweithwyr blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn achosi problem sylweddol. Mae Plant yng Nghymru wedi derbyn arian gan y Strategaeth Gofal Plant i archwilio hyfforddiant a mapio argaeledd cyrsiau a'r cysylltiadau rhyngddynt. Mae llawer o weithwyr heb gymwysterau neu gyda chymwysterau anaddas. Mae ACCAC wedi ymgynghori ar Fframwaith Cymwysterau a Hyfforddiant ar gyfer Gweithwyr Blynyddoedd Cynnar i egluro llwybrau dilyniant. Bydd hwn yn gam gwerthfawr iawn ymlaen.

- Byddai angen cyllid GEST i ddatblygu'r ddealltwriaeth a sgilau athrawon yn gyfrifol am addysg blynyddoedd cynnar (ychydig o arbenigedd mewn addysg cynnar sydd gan y mwyafrif ohonynt, ac nid yw bellach yn rhan o gyrsiau hyfforddiant athrawon dechreuol)
- Mae staff mewn cylchoedd chwarae a meithrinfeydd dydd preifat angen hyfforddiant ar gymhorthdal a chaffael NVQ mewn Addysg Gynnar a Gofal Plant.
- Dylai cyllid fod ar gael i hyfforddi ymgynghorwyr a swyddogion datblygu blynyddoedd cynnar yn ogystal ag arolygwyr.

### Staffio

Rhaid i gyllid fod ar gael i wella'r gymhareb o oedolion i blant i gyfateb â gofynion addysg feithrin. Ni all athrawon gyflwyno rhaglen sy'n ymateb i anghenion a buddiannau plant 3-7 oed mewn dosbarthiadau mawr.

### Adnoddau corfforol

Mae llawer o ystafelloedd dosbarth gyda gofod cyfyngedig ac offer amhriodol ac mae llawer o ysgolion yn brin o ofod chwarae awyr agored, sy'n hollbwysig i addysg a datblygiad plant ifanc. Byddai angen buddsoddiad enfawr ar gyfer hyn.

### Effaith ehangu darpariaeth ar ddarparwyr gofal plant

Canolbwyntiodd y papur hwn i raddau helaeth ar effaith ehangiad darpariaeth â gynhelir ar blant ifanc gan fod y tueddiad hwn wedi cyflymu'n fawr dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fodd bynnag Mudiad Ysgolion Meithrin a Chymdeithas Grwpiau Chwarae CynYsgol (Ppa Cymru ) fu'r darparwyr mwyaf o addysg cyn-ysgol i blant 3 oed. Mae gan grwpiau chwarae athroniaeth ac ethos neilltuol, sy'n cydnabod pwysigrwydd chwarae, dysgu gweithgar a chymdeithasu. Mae cylchoedd chwarae hefyd yn annog rhieni i gymryd rôl weithgar yn nysgu eu plant ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddatblygiad plant drwy gyrsiau, cyfarfodydd a datblygiad cymunedol. Mae hyn o bwys arbennig pan fo cynhwysedd cymdeithasol yn ystyriaeth. Yn achos y Mudiad Ysgolion Meithrin, bu'r sefydliad yn elfen hanfodol wrth ddatblygu'r iaith Gymraeg ledled Cymru.

Os oes mwy o grwpiau chwarae yn cau (disgwyliwn dystiolaeth o'r adolygiad a gomisiynwyd gan y Cynulliad) yna collir catalydd ar gyfer gweithredu cymunedol - yn cynnwys darpariaeth rhiant a phlentyn, cefnogaeth rhieni a llwybrau i hyfforddiant a gwaith i lawer o fenywod.

Byddai'r effaith ar ddarpariaeth cyfwng Cymraeg yn drychinebus a chollid arbenigedd ac ymrwymiad gweithwyr a gwirfoddolwyr cylchoedd meithrin. Mae gallu plant ifanc i ddod yn ddwyieithog yn hysbys iawn a byddai'r gost i blant, teuluoedd, cymunedau a diwylliant Cymru yn anfesuradwy.

Yn ychwanegol, mae'r ddau fudiad cylchoedd chwarae yng Nghymru wedi arloesi cynnwys plant anabl ifanc mewn grwpiau lleol. Mae llai o gyllid ar gyfer y Cynlluniau Atgyfeirio eisoes wedi arwain at ostyngiad mewn niferoedd; byddai cau mwy o grwpiau yn golygu y medrai llai o blant a theuluoedd brofi cefnogaeth ac ymgyfraniad cymunedol.

## Casgliad

Mae Plant yng Nghymru yn annog y pwyllgor i ystyried yr ehangiad arfaethedig o addysg ar gyfer plant 3 oed yn ofalus. Mae angen datblygu fframwaith iawn i gefnogi dysgu cynnar yn y sector â gynhelir a'r sector gwirfoddol fel ei gilydd.

Ni all unrhyw nifer o gynlluniau llythrennedd, cynlluniau rhifedd, clybiau/cytundebau gwaith cartref, mesurau gwrth-driwantiaeth/gwaharddiadau ysgol gymryd lle profiadau blynyddoedd cynnar cyfoeddog ac addas.

Rhaid gwrthwynebu newidiadau polisi brysiog, megis cysyniad y plentyn brysiog, ar bob cyfrif.

## Atodiad

Bennet, N & Kell, J (1989): Good Start? Four year olds in infant schools. Blackwell

Cleave, S & Brown, S: Early to School: Four year olds in infant classes. NFER Nelson.

Bredekamp, S & Coople, C (gol) (1997): Developmentally appropriate practice in early childhood programs. Washington DC, NAEYC.

Rumbold Committee Report: Starting with Quality 1990: Llyfrfa Ei Mawrhydi

Report of the National Commission on Education: Learning to Succeed 1993. Paul Hamlyn Foundation

Ball, C (1994): Start Right: The Importance of Early Learning, Report to the RSA

Mills, C & Mills, D (1998): Britain's Early Years Disaster. Arolwg o Dystiolaeth Ymchwil ar gyfer Rhaglen Ddogfen Channel 4 'Too Much, Too Young'

Sylva, K (1997): The Early Years Curriculum: Evidence Based Proposals. Papur i Gynhadledd SCAA.

Sharp, C (1998): Age of Starting School and the Early Years Curriculum. NFER

Osborn, A & Millbank, J (1989): The Effects of Early Education. Clarenden Press

SQCQ (1999): A Curriculum Framework for children 3-5 in Scotland

# CHWARAE TEG

## Cyflwyniad

Mae Chwarae Teg yn sefydliad sy'n anelu at ehangu swyddogaeth merched yng ngweithlu Cymru. Seilir yr ymateb hwn i'r cwestiynau a gododd y Pwyllgor, ar brofiad Chwarae Teg o (i) ariannu a monitro ystod o feithrinfeydd arddangos ar gyfer plant dan 5 oed yng Nghymru, a (ii) gweithredu'r fenter gofal plant allan o'r ysgol, gynt yn Ne Ddwyrain Cymru, ac yn ddiweddar ledled Cymru. Ym maes gofal plant mae'n profiad yn bennaf, mewn cyd-destunau sy'n rhoi'r pwyslais ar chwarae.

Gofynnodd y Pwyllgor am sylwadau barn Chwarae Teg ynglŷn â dwy elfen benodol o'i orchwyl. Mae'r ymateb fel a ganlyn -

## Gwerth Addysgol a Datblygiadol Addysg Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant 3 Oed

Dibynna'r ymateb i'r cwestiwn hwn ar ddiffinio 'addysg blynyddoedd cynnar'. Os mai gweithgarwch llawn amser yw hwn ynghlwm wrth ddehongliad tynn o dargedau 'dysgu', nad yw'n rhoi llawer o gyfle i chwarae, yna ni fyddem yn cefnogi ehangu'r system addysgol. Sut fyddai plentyn ifanc yn datblygu wrth ei bwysau ei hun, pe byddai'n cael ei roi mewn system sy'n rheoli plant yn ôl rhyw 'safon'. Yn yr oedran hwn mae cymdeithasu yn agwedd allweddol ar ddatblygiad a rhaid ei ddatblygu ar gyflymder y plentyn ei hun. Gellid barnu bod a wnelo amgylchedd o fewn lleoliad addysgol mwy â strwythur, yn hytrach na gofal am blant bach iawn. Os yw elfen gofal yn cael ei hychwanegu at ddiwrnod 'addysgol' llawn, gallai plentyn 3 oed brofi diwrnod hir, llawn straen - diwrnod llawn yn yr ysgol a lleoliad ar ôl ysgol.

Os, fodd bynnag, yw'r diffiniad yn awgrymu bod y plentyn mewn amgylchedd addysgol lle mae'r pwyslais ar ddysgu trwy chwarae (fel a welir eisoes mewn cylchoedd chwarae ledled y wlad) yna gallai'r dull gweithredu hwn fwyhau datblygiad y plant. Os, yn ychwanegol, oedd y gweithgarwch yn un rhan-amser, gallai plant bychain symud, gyda llai o straen, at y gofal, ar ddiwedd y sesiwn rhan-amser.

Fe ymddengys i ni, yn y pen draw, fod nod y dadleuon yn ymwneud â chwarae yn erbyn dysgu, llawn-amser yn erbyn rhan-amser, gofal yn erbyn addysg. Mae'r pegynau hyn yn dangos cryfder y teimladau sydd y tu ôl iddynt. Ein barn ni yw na ddylid defnyddio plant bychain fel 'pêl droed' mewn rhyfeloedd maes rhwng sylwadau barn croes am ddatblygiad plant. Mewn gwlad fechan fel Cymru, rhaid caniatáu ymchwil, arloesi a 'thrydydd ffordd'; sy'n dathlu yn hytrach na chystadlu yn erbyn y ddarpariaeth bresennol orau un ar gyfer plant 3 oed ac sy'n cydnabod swyddogaeth allweddol y sector gwirfoddol.

## Cost ehangu'r ddarpariaeth a'r dylanwad ar ddarparwyr gofal plant

Os oes nifer cynyddol o blant 3 oed yn symud i mewn i 'addysg', bydd costau ychwanegol o ran archwilio; staffio; adeiladau a chyfarpar.

I osgoi costau archwilio/cofrestru deuol, bydd angen eglurhau/cysoni materion yn ymwneud â chofrestru (gwasanaethau cymdeithasol) ac archwilio (Estyn). Mae'r cymarebau staff â phlant o dan 8

oed yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau cymdeithasol (1-8) ac addysg (1-13) - ond bydd y cymarebau hyn yn dylanwadu ar niferoedd y staff sydd eu hangen.

Os yw plant 3 oed am dreulio hanner diwrnod mewn 'addysg' a threulio amser mewn 'gofal' wedi hynny, bydd angen cael rhagor o athrawon meithrin cymwysedig mewn ysgolion, gyda niferoedd cynyddol o staff chwarae yn cyfateb i hynny, sy'n gallu canolbwyntio ar anghenion plant ifanc iawn. Bydd angen cael nifer ychwanegol o athrawon meithrin a gweithwyr chwarae sy'n gallu siarad Cymraeg.

Cyn belled ag y mae adeiladau a chyfarpar yn y cwestiwn, bydd angen i ysgolion fodloni gofynion cofrestru presennol y gwasanaethau cymdeithasol, ac i ysgolion, darparwyr preifat, a darparwyr gwirfoddol ariannu cyfarpar chwarae sy'n addas i'r oedran, dodrefn a lleoedd gwag ychwanegol ar gyfer mannau gorffwys.

Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru a Mudiad Ysgolion Meithrin, yn y sector gwirfoddol, fydd yn cael eu dylanwadu fwyaf wrth i blant 3 oed gael eu cynnwys mewn addysg prif ffrwd. Yn ôl pob tebyg bydd y grwpiau hyn yn colli gafael ar y rhelyw o'u mynychwyr i leoliad yr ysgol, oni bai bod yr ysgolion yn defnyddio'r grwpiau cymunedol i gyflenwi a mwyhau y ddarpariaeth a gynigir yn eu Hawdurdod mewn ymdrech i leihau'r costau adeiladu a staffio. Mae archwilio cylchoedd chwarae fel lleoliadau addysgol ar gyfer plant 4 oed eisoes wedi cychwyn o dan Estyn (o dan y cynllun talebau) a gellid ei ymestyn i blant 3 oed. Fodd bynnag, os nad yw'r awdurdod lleol yn cynnwys y grwpiau chwarae yna byddant yn cau heb os nac oni bai, fel a welwyd yn Lloegr a Chymru, ers cynnwys plant 4 oed mewn addysg llawn-amser.

Gan fod y cylchoedd chwarae wedi'u cofrestru i dderbyn plant o 2 ½ oed ymlaen, gallai hyn olygu y bydd eu grŵp cleientiaid yn cwtogi i ofalu am blant am hanner blwyddyn yn unig. Ni fydd cylchoedd chwarae yn hyfyw wedyn. Gallai Adrannau Addysg roi nawdd cylch caeëdig i gefnogi darpariaeth difreintiedig, ac mae hynny'n cynnig opsiwn posibl.

Bydd darparwyr gofal dydd preifat hefyd yn cael eu heffeithio, oherwydd ni fyddant yn gallu darparu gofal rhan-amser yn brofiadol. I'r gwrthwyneb, pe symudent i mewn i 'addysg' byddai eu costau staffio'n codi. Gallai gwarchodwyr plant chwarae rhan uwch fwy a mwy (fel y gwna llawer eisoes) wrth ddarparu gofal amlap. Unwaith eto, gyda'r dull gweithredu hwn gallai'r costau gynyddu.

Ar hyn o bryd, nid yw'r ddarpariaeth o ofal 'ar ôl ysgol' 'amlap' ar gyfer plant dan 5, yn eglur. Mae cylchoedd chwarae yn gweithredu am sesiynau penodol sy'n cydweddu â'u gweithwyr a'u cwsmeriaid. Bydd clybiau ar ôl ysgol (wedi'u targedu at rieni sy'n gweithio), yn darparu gofal yn bennaf ar gyfer plant 5-12 oed ar hyn o bryd - yn codi i 14 oed, o dan Strategaeth Gofal Plant yng Nghymru. Os bydd rhagor o blant 3 oed yn symud i mewn i addysg, gallai cylchoedd chwarae (sydd â'r profiad oedran penodol) ddarparu gofal amlap ar gyfer plant 3 i 5 oed, neu, gallai clybiau ar ôl ysgol (sydd heb y profiad oedran penodol) symud i lawr yr ystod oedran. Byddai'r ddau ddull angen nawdd ariannol ychwanegol.

Mae cymhlethdodau'r dull gweithredu hwn ar gyfer clwb allan o'r ysgol a staff cofrestru, yn aneirif.

Ar hyn o bryd, er enghraifft, fe ymddengys bod Swyddogion Cofrestru Gofal Dydd y gwasanaethau Cymdeithasol yn teimlo'n anniddig ynglŷn â chofrestru darpariaeth Allan o'r Ysgol i gynnwys plant 3 oed. Mae Deddf y Plant 1989 yn dosbarthu gofal allan o'r ysgol yn "blant oedran ysgol, sy'n cynnwys plant dan 5 oed ambell waith". Mae plant 3 oed sydd yn yr un adeilad o 8 y.b. tan 6 y.h. yn debyg i,

os nad yr un peth â, gofal diwrnod llawn, ac efallai y bydd angen eu cofrestru fel y cyfryw. Nid yw dilyniant gofal yn broblem, ond dylid monitro'r ofalus addasrwydd y ddarpariaeth a chynnwys y diwrnod.

Enghraifft: Mae un Clwb ar ôl Ysgol yn cynnig gofal brecwast 8 - 9 y.b. Yna bydd plant yn mynychu'r ysgol neu'r cylch chwarae preifat, a gynhelir yn yr un adeilad pwrpasol. Gall y rhai hynny sy'n mynychu'r cylch chwarae preifat archebu sesiwn y bore, sesiwn y prynhawn, neu'r ddwy. Amser cinio, rhaid i'r plant cylch chwarae hynny sy'n mynychu'r sesiynau bore a'r prynhawn gael eu cludo oddi ar y safle (yn ôl argymhelliad y Swyddog Cofrestru) a byddant yn mynd i'r ysgol am eu cinio. Dychwelant i'r cylch chwarae am sesiwn y prynhawn. Ar ddiwedd y diwrnod ysgol bydd y plant yn mynychu'r Clwb ar ôl Ysgol. Os yw unrhyw blentyn o'r cylch chwarae yn mynychu darpariaeth ar ôl ysgol, yna rhaid cael lle i blant dros 8 oed a throsodd ar wahân yn yr ysgol ( yn unol â chyngor y Swyddog Cofrestru). Mae i hyn oblygiadau o ran y staffio a'r rhent yn ogystal â'r gofynion am gyfarpar ychwanegol.

Mae'r trefniant hwn yn gweithio, ac yn cynnig dewis i blant a rhieni, ond mae'n gweithio, er gwaethaf, yn hytrach nag oherwydd, y rheoliadau.

Ein barn ni yw hyn; os yw'r Pwyllgor yn symud i gyfeiriad addysg 'rhan-amser' ar gyfer plant 3 oed, dylai weithio gyda'r sefydliadau allweddol sydd eisoes yn y maes, i ddatblygu'r ffordd ymlaen mewn addysg, chwarae a gofal. Rhaid mynd â'r gwaith gwerthfawr a wna'r mudiad cylchoedd chwarae yn ei flaen, gyda chyd-gytundeb, er lles plant a rhieni yng Nghymru.

# CWMNI IAITH CYF

Sylwadau gan Siân Wyn Siencyn, Cwmni Iaith Cyf.

## Gwerth addysgol a datblygiadol addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair oed.

Ceir corff sylweddol o ymchwil, dros gyfnod o amser, sy'n cadarnhau'r tyb bod darparu addysg o ansawdd uchel i blant ifanc yn fuddiol iddynt hwy ac i'r gymdeithas yn gyffredinol (gweler yr Atodiad). Bellach nid yw'r egwyddor o ddarparu ar eu cyfer yn destun trafod. Fodd bynnag, mae angen mawr am drafodaeth wybodus, aeddfed, ar draws y sectorau ar lefel Cymru gyfan ar y manylion allweddol ynglŷn â'r modd y mae'r addysg honno yn cael ei chyflwyno. Gan fod y ddadl dros ddarparu addysg i blant tair oed eisoes wedi ei hennill erbyn hyn mae angen i ni drafod sut y dylid cyflawni hyn a bydd y drafodaeth hon yn cynnwys cynllunio'n ofalus ar gyfer

- ansawdd y ddarpariaeth
- staffio'r ddarpariaeth
- hyfforddi'r personél

Ceir cytundeb cyffredinol (gweler yr Atodiad) ar yr hyn sy'n sail i ddarpariaeth addysgol o ansawdd uchel ar gyfer plant tair oed.

## Ansawdd

Yr agwedd bwysicaf o ansawdd yw bod y ddarpariaeth yn briodol, ei bod yn gyson ag anghenion y plentyn. Mae egwyddor addasrwydd yn cael ei thanlinellu yn y "Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant" (tudalen 4, ACCAC 1996). Dylai darpariaeth o ansawdd gynnwys

- addasrwydd lle corfforol
- addasrwydd profiadau'r plant
- addasrwydd ymagweddau'r oedolion
- addasrwydd cymarebau oedolion:plant

Mae nifer fawr o gydadweithiau cymhleth ac anghenion pendant eraill ynghlwm wrth y gofynion ar gyfer darpariaeth addas, er enghraifft, byddai ymagweddau addas gan oedolion yn cynnwys dealltwriaeth o bwysigrwydd darparu amser hyblyg digonol ar gyfer chwarae plant.

## Casgliad

Nid yw cyfyngiadau'r ymateb hwn yn caniatáu i ni fwrw golwg manwl ar y gofynion ar gyfer darpariaeth o ansawdd i blant tair oed. Digon yw dweud mai ansawdd yw'r ffactor hanfodol. Gall darpariaeth feithrin o ansawdd da fod o fudd addysgol a chymdeithasol i blant tair oed.

## Y gost o ehangu addysg feithrin ar gyfer plant tair oed

Mae nifer o faterion a fydd yn effeithio ar gyllido. Mae'n debygol y bydd ymatebwyr eraill yn tynnu sylw'r Pwyllgor at y goblygiadau cyllido i awdurdodau lleol trwy'r mecanweithiau Gwario Safonol ac i ysgolion trwy fecanweithiau Cyllido Ysgolion. Mae yna faterion eraill hefyd, er enghraifft:

- hyfforddiant: prinder staff cymwys (mae arolwg sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Blant yng Nghymru o hyfforddiant ar gyfer personél blynyddoedd cynnar eisoes yn dangos natur amrywiol a bylchog yr hyfforddiant, mae llawer o hyfforddi yn digwydd ond bach iawn o gydlynu neu gynllunio amlwg a geir). Byddai angen i raglenni hyfforddi GEST fynd i'r afael ag anghenion ail-hyfforddi athrawon ac ail-leoli athrawon a gweithwyr cynorthwyol eraill. Bydd fframwaith ACCAC, nad yw wedi'i gyhoeddi eto, yn ddefnyddiol. Mae'n sicr y byddai'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a gynigwyd gan ETAG ac sy'n cael ei drafod gan bwyllgor Addysg Ôl 16 y Cynulliad Cenedlaethol yn chwarae rôl allweddol yn hyn o beth.

- adnoddau ffisegol: ceir pryder eisoes am osod plant 4 oed mewn dosbarthiadau derbyn, a hynny yn aml hyb gynllunio digonol. Mae'r athrawon yn ymdopi dan amgylchiadau anodd megis
  - diffyg lle
  - cymarebau oedolion:plant annigonol
  - gwahanol ddisgwyliadau cwricwlaidd.addysgol (Canlyniadau Dymunol a Chyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol)

Byddai angen buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau ffisegol: ystafelloedd dosbarth, ardaloedd chwarae awyr agored, offer priodol ac yn y blaen er mwyn cynnig darpariaeth addas i blant tair oed.

- staffio: mae angen gweithlu cynyddol, ac mae'r angen hwn eisoes wedi ei nodi yn y Strategaeth gofal Plant Cenedlaethol. Rhaid gweithredu ymagwedd sydd wedi ei chynllunio a'i chydlynu. Hyd yn hyn, nid yw'r cynnig gwreiddiol o recriwtio o Wasanaeth y Fargen newydd wedi llwyddo. Tynnwyd sylw at yr anawsterau sydd ynghlwm wrth recriwtio o blith bobl ifanc y Fargen newydd gan Gwrs Rhagflas Gweithio gyda Phlant a ddatblygwyd ac a dreialwyd gan gonsortiwm o sefydliadau gan gynnwys Plant yng Nghymru, Chwarae Teg, MYM, WPPA ac NCMA. Mae angen gwneud llawer mwy gyda'r cwrs Rhagflas gydag ystod o grwpiau eraill a fydd o bosib yn dwyn mwy o ffrwyth, grwpiau cymorth rhieni sengl er enghraifft.

## Casgliadau

Mae'n anochel y bydd goblygiadau ariannol ynghlwm wrth ddarparu gwasanaeth hawl nad yw'n bodoli mewn modd unffurf ar hyn o bryd.

Byddai'n fyrbwyll iawn i ddatblygu addysg feithrin ar gyfer plant tair oed heb sicrhau ar yr un pryd bod y mewnbwn ariannol priodol ar gael a bod mecanweithiau cyllido priodol yn eu lle.

## Effaith ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer plant tair oed ar ddarparwyr gofal plant

Mae'r sector gwirfoddol (MYM a WPPA) wedi bod yn ddarparwyr adddysg feithrin arwyddocaol ar gyfer plant tair oed. Yn ôl y sôn, mae datblgu'r ddarpariaeth hon mewn ysgolion eisoes wedi cael effaith anffafriol ar y ddarpariaeth wirfoddol hon.

Dyma rai o'r ystyriaethau:

- Nifer y grwpiau chwarae: bydd yr adolygiad sy'n cael ei gynnal gan y Cynulliad ar hyn o bryd yn darparu tystiolaeth am yr hyn sydd wedi digwydd yn y gwasanaeth hwn a'r hyn sydd yn digwydd ynddo ar hyn o bryd.

- Gwasanaeth cymunedol: mae grwpiau chwarae yn cynnig gwasanaeth yn y gymuned. Mae proffil y sector gwirfoddol yn gymharol fratiog (hynny yw, o'i gymharu â darpariaeth awdurodau lleol mewn ysgolion). Mae'r dynamig rhwng y gymuned a'r ddarpariaeth yn rhywbeth y mae angen ei ystyried yn ofalus. Mae yna botensial enfawr ar gyfer y ddarpariaeth hon yn natblygiad cynlluniau Llythrennedd Cynnar a Chynlluniau Llythrennedd y Teulu.

- Cyfranogiad rhieni: dengys cryn dipyn o ymchwil bwysigrwydd partneriaethau effeithiol a theg rhwng rhieni a darparwyr. Credir bod grwpiau chwarae yn cael eu hystyried yn llai ffurfiol ac yn haws mynd atynt nag ysgolion. Mae rhieni'n cymryd rhan, nid yn unig trwy godi arian ond hefyd yn y broses o ddarparu'r gwasanaeth. Mae'n debygol bod y cyfranogiad uniongyrchol hwn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a sgiliau'r rhieni.

- Gwasanaethau cyfrwng Cymraeg: cydnabyddir yn gyffredinol mai MYM yw'r prif chwaraewr yn natblygiad addysg cyfwng Cymraeg dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Mae MYM wedi cynnig dewis go iawn i rieni ac mae wedi datblygu arbenigedd mewn dwyieithrwydd yn y blynyddoedd cynnar ac addysg drochi yn y blynyddoedd cynnar sy'n cael ei gydnabod ledled y byd. Mae'r Mudiad wedi gwneud hyn tra'n sicrhau ar yr un pryd ei le fel darparwr addysg feithrin o ansawdd uchel i holl blant Cymru. Mae'r arbenigedd deublyg hyn - gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a darpariaeth feithrin i blant - yn unigryw i Gymru.

- Anghenion Addysgol Arbennig: mae mudiad y grwpiau chwarae wedi chwarae rhan bwysig dros nifer o flynyddoedd yn y broses o normaleiddio cynnwys plant gydag anghenion arbennig mewn gwasanaethau cymunedol prif ffrwd. Llwyddwyd i wneud hyn am nifer o resymau gan gynnwys, ymagwedd anfiwrocrataidd tuag at gynhwsiad, cydweithio gydag asiantaethau statudol ar nodi ac asesu anghenion arbennig yn gynnar, cyllido Cynlluniau Cyfeirio er mwyn caniatáu cynhwysiad ac yn y blaen.

- Staffio a recriwtio: ceir cryn dipyn o dystiolaeth anecdotaidd o fenywod yn gweithio ym maes gofal plant a gwasanaethau blynyddoedd cynnar o ganlyniad i'w profiadau mewn grwpiau chwarae lleol gyda'u plant eu hunain. Mae'n debyg bod y grŵp chwarae cymunedol lleol yn asiant recriwtio mwy effeithiol nag yr ystyrir yn gyffredinol. Ni fyddai menywod o'r fath yn gallu dilyn y llwybr hwn i hyfforddiant pellach yn y gwasanaethau blynyddoedd cynnar pe bai'r holl wasanaethau yn ysgol seiliedig.

## Casgliad

Mae'r sector gwirfoddol wedi darparu gwasanaeth unigryw i blant a theuluoedd yng Nghymru dros nifer o flynyddoedd. Mae ei union natur yn golygu bod angen cymorth ar y sector i addasu i ofynion y gêm newydd. Os nad yw'n cael y cymorth hwn bydd yn dirywio. Byddai colli profiad, egni a brwdfrydedd y sector gwirfoddol yn golygu bod bywyd cymunedol Cymru dipyn tlotach.

## Atodiad

Ychydig o gyfeiriadau defnyddiol o ran pwysigrwydd darpariaeth o ansawdd ar gyfer plant o oed meithrin:

Bredekamp. S & Copple, C (eds) (1997): Developmentally appropriate practice in early childhood programs, Washington DC, NAEYC

The Cost, Quality a Outcomes Study - gwelir amlinelliad o astudiaeth ymchwil o America ar www.fpg.unc.edu/~NCEDL:

Starting with Quality, Adroddiad Pwyllgor Rumbold 1990

Learning to Succeed: Adroddiad Ymddiriedolaeth Hamlyn, y Comisiwn Cenedlaethol ar Addysg 1993

Start Right: The Importance of Early learning. Eurydice: The Information Network on Education in Europe, ar www.eurydice.org/present.htm

Facilities and Condition in Pre-school Provision, Eurydice: The Information Network on Education in Europe, ar www.eurydice.org/present.htm

# ESTYN

## Y sylfaen statudol ar gyfer arolygu

Cynhelir y gwaith o arolygu'r ddarpariaeth addysgol mewn ysgolion meithrin, ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yng Nghymru gan Estyn yn unol ag Adran 10 Deddf Arolygu Ysgolion 1996. Dynoda'r Ddeddf mai dyletswydd y Prif Arolygydd yng Nghymru yw sicrhau y caiff pob ysgol yng Nghymru y mae'r rheoliadau yn berthnasol iddynt eu harolygu ar gyfnodau fel y dynodir. Daethpwyd at ddiwedd cylch pum mlynedd cychwynnol o arolygiadau ysgolion meithrin, ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yng Nghymru ym mis Gorffennaf 1999. Cyflwynwyd cylch chwe blynedd newydd o arolygiadau ym mis Medi 1999. Mae arolygu ysgolion meithrin cynradd ac ysgolion arbennig yn cynnwys arolygu unrhyw ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant tair blwydd oed.

Llywodraethir y broses o arolygu'r ddarpariaeth addysgol mewn ysgolion meithrin nas cynhelir sy'n gymwys i gael arian o dan y trefniadau ar gyfer Cynlluniau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar gan ofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd yng Nghymru hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch:

i. ansawdd a safonau addysg feithrin;

ii. datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant y darperir addysg feithrin ar eu cyfer.

Mae'n ofynnol i ysgolion meithrin a gynhwysir yng Nghynllun Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar awdurdodau addysg lleol:

i. gweithio tuag at ganlyniadau addysgol cytûn;

ii. bod yn destun arolygiadau annibynnol rheolaidd o'u darpariaeth addysgol.

Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion fel y gall darparwyr wella ansawdd yr addysg a ddarperir ganddynt a chodi safonau cyflawniadau'r plant. Darpara'r adroddiad a gyhoeddir ar ôl yr arolygiad wybodaeth ar gyfer y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar, yr awdurdod lleol, rhieni a'r gymuned leol ynglŷn ag ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Cyfranna canfyddiadau arolygiadau hefyd at adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd yng Nghymru a ffurfiant sail cyngor a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Natur y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant tair blwydd oed.

Ar hyn o bryd, mae tua 75% o'r plant tair a phedair blwydd oed yng Nghymru yn mynychu ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Mae'r ddarpariaeth addysgol a gynhelir ar gyfer plant tair blwydd oed yn cynnwys ysgolion meithrin, dosbarthiadau ac unedau meithrin penodedig, a dosbarthiadau babanod/derbyn mewn ysgolion cynradd.

Ariennir **ysgolion meithrin** yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol a darparant yn bennaf ar gyfer plant 3-4 blwydd oed sy'n mynychu yn bennaf ar sail rhan amser, fel arfer am bum sesiwn bore neu bum sesiwn prynhawn yr wythnos. Trosglwydda'r rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu ysgolion

meithrin i ddosbarth babanod/derbyn mewn ysgol gynradd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Ariennir **dosbarthiadau meithrin** a **babanod/derbyn** mewn ysgolion cynradd o fewn cyllidebau dirprwyedig yr ysgolion fel rhan o drefniant pob awdurdod lleol ar gyfer Rheoli Ysgolion yn Lleol. Mae presenoldeb mewn dosbarthiadau neu unedau meithrin fel arfer ar sail rhan amser, ond tuedda presenoldeb mewn dosbarthiadau babanod/derbyn fod yn llawn amser, yn arbennig ar gyfer plant pedair blwydd oed. Darpara dosbarthiadau meithrin yn bennaf ar gyfer plant 3-4 blwydd oed, tra y darpara dosbarthiadau derbyn yn bennaf ar gyfer plant 4-5 mlwydd oed. Yn aml darpara dosbarthiadau babanod ar gyfer ystod oedran eang ac, mewn cyfran arwyddocaol o ysgolion cynradd yng Nghymru, addysgir y plant nad ydynt o oedran ysgol statudol ochr yn ochr â 'r plant sydd o'r oedran hwnnw.

Ar hyn o bryd, mae dros 3,000 o **warchodwyr plant ac** yn agos at 2,000 o **gylchoedd meithrin** neu **feithrinfeydd dydd** yng Nghymru. Fe'u rheoleiddir o dan Ddeddf Plant 1989 gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae lleiafrif o'r lleoliadau, tua 150 ar hyn o bryd wedi'u henwi gan awdurdodau lleol fel rhai sy'n gymwys i gael arian o dan y trefniadau ar gyfer eu Cynlluniau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar. Arolygir darpariaeth addysgol y lleoliadau hyn gan Estyn.

Diffinnnir **cylch meithrin** fel grŵp sy’n cynnig gofal sesiwn am ddwy awr neu fwy a heb i unrhyw sesiwn bara am fwy na phedair awr. Darpara'r rhan fwyaf o'r cylchoedd meithrin lefydd i blant rhwng dwy flwydd a hanner a phedair blwydd oed, er mai cymharol isel yw nifer y plant pedair blwydd oed. Gan amlaf, mae'r cylchoedd meithrin ond ar agor naill ai yn ystod sesiynau'r bore neu sesiynau'r prynhawn yn unig am gyfnodau o rhwng 2-3 awr. Mae lleiafrif o'r cylchoedd meithrin ar agor yn ystod sesiynau'r bore a'r prynhawn ac weithiau darparant ar gyfer plant ar sail llawn amser.

## Ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant tair blwydd oed

Yn **y sector a gynhelir** a'r **sector nas cynhelir**, mae ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant tair blwydd oed yn parhau i wella. Gellir priodoli'r gwelliant yn bennaf i'r ddarpariaeth gan Awdurdod Cwricwlwm, Cymwysterau ac Asesu Cymru (ACCAC) o arweiniad ar y canlyniadau dymunol ar gyfer dysgu plant cyn oedran ysgol gorfodol. Mae'r arweiniad wedi helpu i egluro natur y cwricwlwm blynyddoedd cynnar i athrawon ac oedolion sy'n gweithio gyda phlant ifanc iawn, ac mae hyn wedi arwain at well cysondeb o ran y gwaith cynllunio.

Yn **y sector a gynhelir**, mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant tair blwydd oed yn foddhaol, neu'n well ymron i 90% o'r lleoliadau blynyddoedd cynnar, gan gynnwys tua 60% lle mae'n dda neu'n dda iawn. Nodweddir gwaith effeithiol gan waith da wrth gynllunio'r cwricwlwm a darpariaeth o ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu wedi'u cyfateb yn briodol ag anghenion a galluoedd datblygol y plant. Rhoddir ystyriaeth ofalus i'r 'Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant' a rhoddir cyfleoedd da i'r plant wella eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau yn y chwe maes dysgu drwy chwarae a phrofiadau ymarferol eraill. Lle bo ansawdd y ddarpariaeth addysgol yn anfoddhaol, gwendidau yn y gwaith cynllunio a threfnu'r gwaith sy'n bennaf gyfrifol. Tuedda gwendidau o'r fath i fod fwyaf amlwg mewn ysgolion bach (tri o athrawon neu lai) lle gwêl yr athrawon yn aml ei bod yn anodd gosod gwaith o lefel briodol i ddosbarth lle ceir plant o dan bum mlwydd oed yn gweithio tuag at y Canlyniad Dymunol ar gyfer Dysgu yn ogystal â disgyblion hŷn yr addysgir rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol iddynt. Yn y dosbarthiadau hŷn, yn aml naill ai caiff y disgyblion eu symud yn rhy gyflym tuag at waith y Cwricwlwm Cenedlaethol neu ni roddir

profiad blynyddoedd cynnar strwythuredig digonol iddynt.

Yn y sector nas cynhelir, mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant tair blwydd oed yn foddhaol neu'n well mewn tua 55% o'r cylchoedd meithrin a'r meithrinfeydd, gan gynnwys tua 20% lle mae'n dda. Mewn 45% arall o'r meithrinfeydd a'r cylchoedd meithrin nas cynhelir, er y cyflawnir safonau boddhaol a safonau da o bryd i'w gilydd mewn rhai meysydd dysgu, golyga gwendidau yn y gwaith cynllunio, trefnu ac asesu nad yw'r plant yn datblygu cystal ag y gallent. Tuedda eu cynnydd fod yn anghyson ac anwastad, yn arbennig mewn llythrennedd cynnar a rhifedd cynnar. Ar y cyfan mae'r safonau o ran datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn foddhaol o leiaf, ac yn aml yn dda, mewn tua 85% o'r meithrinfeydd a'r cylchoedd meithrin. Mae gan y rhan fwyaf o'r cylchoedd meithrin a'r meithrinfeydd nas cynhelir gysylltiadau agos â rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol.

## Manteision addysgol a datblygiadol addysg blynyddoedd cynnar

Ymhlith manteision addysgol a datblygiadol addysg blynyddoedd cynnar i blant tair blwydd oed mae:

- cynnig gofal ac addysg gyda'i gilydd;
- helpu i hyrwyddo agweddau cadanhaol tuag at ddysgu sy'n sicrhau bod y plant mewn sefyllfa dda i ddechrau addysg ysgol statudol;
- cynorthwyo plant o gefndiroedd cartref difreintiedig i elwa'n fawr, er enghraifft mewn llythrennedd cynnar, ac felly gau'r bwlch rhyngddynt hwy a phlant o gartrefi mwy breintiedig;
- galluogi'r plant i wneud cychwyn cynnar cryf ar bethau pwysig, megis datblygiad personol a chymdeithasol, datblygiad mathemategol a sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu;
- darparu cymorth cynnar ac anogaeth i rieni/gofalwyr gymryd rhan fwy amlwg yn nysgu eu plant;
- hyrwyddo cysylltiadau agos â rhieni/gofalwyr er mwy gosod cyfeiriad ar gyfer cymorth cryf parhaus o'r cartref drwy gydol addysg y plant;
- sicrhau cymorth strwythuredig cynnar ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

## Materion

Er mwyn hyrwyddo addysgu a dysgu effeithiol pellach i blant tair blwydd oed, mae'r materion er sylw yn cynnwys:

- yr angen am well cynllunio a threfniadaeth mewn tua 45% o'r lleoliadau nas cynhelir a thua 10% o'r lleoliadau a gynhelir;
- sichrau cydbwysedd priodol ym mhob lleoliad blynyddoedd cynnar rhwng gwaith o dan gyfarwyddyd yr athro/oedolion a'r hynny yr ymgymerir ag ef o fewn dewis rhydd neu ddewis wedi'i gyfeirio gan y plant;

- yr angen parhaus am welliannau o ran ansawdd asesu a'r defnydd ohono, yn arbennig yn y sector nas cynhelir, i helpu athrawon/oedolion i ganolbwyntio'n fwy pendant ar fannau cychwyn y gellir mesur a chynllunio yn eu herbyn;

- dymunoldeb cynnwys athro blynyddoedd cynnar, cymwys wrth gynllunio a threfnu'r gwaith ymhob lleoliad;

- rhoi ystyriaeth i wella'r gymhareb oedolyn; plant, yn arbennig mewn dosbarthiadau babanod oedran cymysg;

- sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol i blant tair blwydd oed ac, wedi hynny, plant pedair blwydd oed yn cydweddu'n synhwyrol â dechrau'r Cwricwlwm Cenedlaethol;

- sicrhau yr hysbysir y rhieni/gofalwyr am gynnwys y rhaglen addysgol yn y blynyddoedd cynnar ac am gynnydd a chyflawniadau eu plant.

# MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn cytuno ag egwyddor sy'n rhoi cyfle i blant tair oed fanteisio ar brofiadau meithrin yn dair oed yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, ar ôl gosodiad cadarnhaol fel yr uchod, credwn ei fod yn hanfodol i ni ychwanegu dau gymal.

i. Cred Mudiad Ysgolion Meithrin nad yn dair oed mae plentyn yn dechrau dysgu. Mae dysgu'n broses barhaus, ac mae plentyn yn dechrau dysgu a meithrin sgiliau hanfodol o'r dydd y mae'n cael ei eni. Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn cydnabod hyn, ac yn darparu addysg a gofal o safon, yn ddi-fwlch mewn Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin.

ii. Mae'n gwbl hanfodol, os gwireddir y delfryd o ariannu addysgofal i blant tair oed, nad yw'r un sefyllfa yn datblygu ag a ddigwyddodd i blant pedair oed. Datblygodd yn frwydr am blant (am felly am arian) rhwng ysgol ac ysgol a rhwng y sector statudol a'r sector gwirfoddol. Un rhinwedd o blaid y sector gwirfoddol yw ei fod yn gallu darparu addysg a gofal y blynyddoedd cynnar pan fo plentyn yn ddwyflwydd a hanner. Canlyniad i'r system bresennol ar gyfer cyllido addysg feithrin i blant pedair oed fu diflaniad nifer helaeth o gylchoedd meithrin a 'playgroups', oherwydd fod Awdurdodau Addysg yn mynnu darparu'r addysg honno o fewn ysgolion. O'r herwydd, collodd cannoedd o blant y cyfle i elwa o brofiadau cyn-ysgolion o'r diwrnod y cyrhaeddont dwyflwydd a hanner oed. Pe byddai'r un sefyllfa yn digwydd eto, byddai cylchoedd meithrin a 'playgroups' yn diflannu yn gyfan gwbl. I'r perwyl hwn, mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn pwyso'n gryf ar y Cynulliad i sicrhau y bydd plant tair oed yn cael eu hariannu yn eu darpariaeth bresennol, ac na fyddid yn caniatáu i ysgolion ehangu eu hystod oedran ymhellach er mwyn cwmpasu rhagor o blant 3 oed. Am yr un rheswm, byddai Mudiad Ysgolion Meithrin yn gwrthwynebu unrhyw fwriad gan Awdurdodau Lleol i gynyddu darpariaeth i blant tair oed o ran amser i amser llawn lle mae cylchoedd meithrin yn cydweithio ag ysgolion i ddarparu gofal tebyg yn awr, fel 'wrap-around care'. Pe digwyddai hyn, byddai holl ymdrechion cynllun Sure Start yn gwbl ddiwerth a chyfarfodydd Partneriaethau yn ddiangen.

Dywed adroddiad 'Start Right' (Sir Christopher Ball):

"Children are most likely to thrive and learn in a secure triangle of care provided by parents, professionals and the community as a whole".

Dyna, yn gryno, holl athroniaeth Mudiad Ysgolion Meithrin - credwn ei fod yn hanfodol fod partneriaeth gref rhwng y cylch â'r rheini, a bod y cylch yn rhan o'r gymuned leol. Mae'n holl-bwysig fod cylchoedd gwirfoddol yn parhau i fodoli am sawl rheswm: maent yn sicrhau fod continuum addysg yn parhau'n ddi-dor o gylch Ti a Fi i gylch meithrin pan fo plentyn yn ddwyflwydd a hanner; maent yn arf pwysig i sicrhau adnabyddiaeth ac ymyrraeth gynnar mewn achosion o anghenion addysgol arbennig; maent yn cynnig cyngor i rieni - yn enwedig felly mewn materion ieithyddol pan fo rhieni yn ddi-Gymraeg. Ar wahân i hyn, wrth gwrs, mae holl gylchoedd meithrin Cymru yn cynnig cyflogaeth i oddeutu 1,5000 o bobl yn uniongyrchol, a nifer cyfatebol yn anuniongyrchol yn hyfforddwyr, glanhawyr, gofalwyr neuaddau ac yn y blaen, ac yn cynhyrchu incwm o dros £1,000,000 i neuaddau lleol yn ffioedd llogi yn unig.

Yn ardaloedd Seisnigedig y de-ddwyrain, mae llai o ysgolion Cymraeg nag sydd o ysgolion cyfrwng Saeseng. O'r herwydd, nid yw'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ysgolion cymunedol. Ysgolion Bro ydynt, yn tynnu o ardal eang, ac mae'n rhaid i blant deithio cryn bellter yn aml iawn, un ai ar fysiau cyhoeddus neu ar fysiau ysgol â phlant hŷn. Cylchoedd Meithrin sy'n arwain y rhei ni i ddewis addysg Gymraeg i'w plant, ac yn hwyluso'r cysylltiad rhwng y rhiant â'r ddarpar ysgol. Heb gylchoedd meithrin nid oes gan yr ysgol gysylltiad â darpar rieni. Mae'r ffaith fod cylchoedd meithrin yn rhan o'r gymuned yn ffactor hollbwysig - mae'r ddarpariaeth ar gael yn lleol, yn hwylus, ac yn hawdd ei chyrraedd - ffactorau pwysig wrth ystyried teuluoedd difreintiedig. Mae'n hanfodol nad yw cylchoedd meithrin yn cael eu gwanhau ymhellach gan unrhyw fwriad i ehangu'r ddarpariaeth i gynnwys plant tair oed.

Dyfynnwn ymhellach o 'Start Right':

"Good early learning must be appropriate to the developmental stage of three and four year olds, allowing them to explore the varieties of intelligence and styles of learning through purposeful play".

Ymhellach, o adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar Ofal Plant yng Nghymru (1999)

"Apart from the damaging effect that lowering the age of school entry is having on playgroups, there is some doubt whether it is right in principle to begin school at such a young age. We noted with interest that, in Denmark, formal schooling does not begin until the age of 7: before that age, the emphasis is on learning through play and social education, though there does seem to be a move towards introducing letterwork a little earlier than in the past. There is some concern in Wales about the quality of  the care, and of the learning experience, given to 3,4, and5 year olds at school. Particular concern has been expressed about the quality of care for younger children in small rural schools, where three year olds may be taught in the same class as children up to the age of 9. There are also problems in urban schools with large class sizes in reception classes. The form of early years education is an area for urgent debate. In our view, learning through play is the right approach for very young children."

Ac eto:

"There was consensus among our witnesses that curricula for younger children should be play-based. As Play Wales said, "Play is one of the most important parts of a child's life. It can contribute in so many ways to a child's social , emotional, physical, intellectual and creative development". Yet it seems that those planning children's services, and even many people working with children (childminders and nursery staff, as well as school teachers), still do not appreciate the importance of play. The Stragey must ensure that the childcare system allows children the freedom to develop through play".

Hoffai Mudiad Ysgolion Meithrin ategu'r sylwadau uchod, gan ychwanegu ein pryderon am y profiadau y mae plant tair  a phedair oed yn ei dderbyn o fewn llawer i ddarpariaeth statudol, yn enwedig felly mewn sefyllfaoedd lle maent yn cael eu dysgu gyda phlant o hyd at saith oed. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, does yr un oedran yn cael y sylw dyledus.

Hoffai Mudiad Ysgolion Meithrin ategu'r sylwadau uchod, gan ychwanegu ein pryderon am y profiadau y mae plant tair a phlant oed yn ei dderbyn o fewn llawer i ddarpariaeth statudol, yn enwedig felly mewn sefyllfaoedd lle maent yn cael eu dysgu gyda phlant o hyd at saith oed. Mewn

sefyllfaoedd o'r fath, does yr un oedran yn cael y sylw dyledus.

Hefyd, hoffai Mudiad ysgolion Meithrin fynegi pryderon ynglŷn â'r ffaith mai ychydig o athrawon babanod yng Nghymru sydd wedi eu hyfforddi yn benodol i ddysgu plant meithrin. O fewn y sector gwirfoddol, mae staff wedi eu hyfforddi i ddarparu gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar - llawer wedi cwblhau cymhwyster galwedigaethol cenedlaethol mewn gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar.

Does dim dwywaith, petai addysg a gofal y Blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair oed yn cael ei gynnig o fewn y sector statudol yn unig, byddai cylchoedd meithrin a 'playgroups' yn diflannu yn llwyr. Yn wir, byddai unrhyw ehangu pellach yn y sector statudol yn cael effaith andwyol ar allu cylchoedd gwirfoddol i barhau ar agor. Mae'n rhaid wrth niferoedd digonol os yw cylchoedd am barhau'n unedau hyfyw. Diffyg y mesur ar gyfer plant pedair oed oedd nad oedd canllawiau digon pendant wedi eu rhoi i'r sector statudol, ac nad oedd modd arolygu hynny o ganllawiau a gafwyd parthed ffurf y ddarpariaeth. Mae'n gwbl hanfodol nad yw'r un sefyllfa yn datblygu pe ehangid y ddarpariaeth i gynnwys plant 3 oed.

Parthed cost darparu addysg i blant tair oed, rydym o'r farn fod angen yr un cyllid ar blentyn 3 oed ag sydd ei angen ar blentyn pedair oed.

# NATIONAL CHILD MINDING ASSOCIATION

Bydd sylwadau manylach yn cael eu cyflwyno ond dyma enghraifft o rai o'n sylwadau cynnar ar eich papur:

- gellir dal i ystyried plant teirblwydd oed fel babanod, ac efallai nad ydynt hyd yn oed wedi dysgu defnyddio'r toiled;
- mae ar blant angen sefydlogrwydd, cariad a chysur er mwyn datblygu'n unigolion hyderus;
- a fydd y pwyslais parhaus ar awyrgylch 'addysgol' ar gyfer plant teirblwydd oed yn cael effaith wael ar eu cymdeithasoli a'u sefydlogrwydd emosiynol?
- a yw'r cynigion yn golygu y bydd plant teirblwydd oed yn cael lle mewn dosbarthiadau derbyn?
- yn ddelfrydol, mae ar blant ifanc angen awyrgylch hyblyg, gydag un oedolyn i bob plentyn, seiliedig yn y cartref er mwyn datblygu trwy chwarae 'rhydd' nad yw'n digwydd yn aml trwy ofal mewn sefydliadau;
- a ofynnwyd i rieni am eu hymateb?
- gallai'r argymhellion hyn waethygu hyfywedd y sawl sy'n gofalu am blant yn y farchnad gofal plant.

# THE NATIONAL FOUNDATION FOR EDUCATIONAL RESEARCH

## i) ADDYSG AR GYFER PLANT CYN OED YSGOL

Cadarnhawyd gwerth addysg ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed mewn amryw o astudiaethau.

Cytunir yn gyffredinol y dylai'r fath ddarpariaeth ganolbwyntio ar bum prif faes yn natblygiad plant:

Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
Datblygiad deallusol
Datblygiad esthetig
Datblygiad corfforol
Trosglwyddo effeithiol o'r cartref i'r ysgol

Awgrymir gan nifer o astudiaethau fod athrawon ac ymgynghorwyr yn rhoi'r pwyslais mwyaf ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Roedd hyn yn ganfyddiad yr astudiaeth gyntaf ar raddfa fawr i ymchwilio i amcanion addysg feithrin gan Taylor, Exon a Holley (1972). Cafwyd yr un canlyniad o'r arolwg a wnaed yn 1997 i arfer presennol yng Nghymru ar gyfer Asesiad Sylfaen gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA/NFER) ar ran Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC). Barn y mwyafrif mawr o addysgwyr yn yr arolwg hwnnw oedd y dylai datblygiad cymdeithasol ac emosiynol fod yn rhan annatod o unrhyw Asesiad Sylfaen statudol o blant wrth iddynt ddechrau mewn addysg ffurfiol.

Mae'r rheswm dros y pwyslais hwn yn eglur. Cyn bod plant yn gallu elwa ar addysg ffurfiol yn y dosbarth mae'n rhaid eu bod yn gartrefol yn eu byd newydd yn yr ysgol ac yn gallu gweithredu ynddo, rhaid iddynt fedru gofalu am eu hanghenion corfforol, cydweithredu â phlant eraill, a chanolbwyntio ar dasgau. Er y gall plant ddatblygu rhai o'r medrau hyn yn y cartref, golyga'r amgylchiadau mewn llawer o gartrefi mai dim ond y dosbarth meithrin ac arweiniad athrawon arbenigol sy'n gallu sicrhau datblygiad cymdeithasol ac emosiynol pob plentyn yn yr oedran allweddol hwn.

Angen arall er mwyn i blant fedru dysgu'n effeithiol yn y dosbarth yw medrau iaith digonol. Yn dair ac yn bedair oed, yn enwedig ar aelwydydd lle na cheir fawr o gyfathrebu llafar a lle mae llyfrau'n brin, mae iaith llawer o blant heb ei datblygu. Gwelir hyn yn eu geirfa gyfyngedig, ynganiad aneglur, a'u hanhawster i frawddegu'n ystyrlon. Mae angen amgylchedd ieithyddol cyfoethog ar bob plentyn, yn enwedig ar y rhai a ddisgrifir uchod, lle bydd cyfle cyson ar gyfer siarad, stori a chân yn rhan o'u profiad bob dydd. Dosbarthiadau meithrin yw'r cyfrwng gorau i ddarparu hyn.

Mae dwyieithrwydd yn Gymraeg a Saesneg yn rhan o etifeddiaeth ddiwylliannol holl blant Cymru, a hefyd yn gymhwyster economaidd sy'n dod yn fwyfwy pwysig. Addysg feithrin yn rhoi cyswllt cynnar â'r Gymraeg yw'r sylfaen ddelfrydol ar gyfer addysg Gymraeg i blant o gefndir di-Gymraeg. Mae amryw o astudiaethau mewn gwahanol wledydd wedi dangos mai cyswllt cynnar ag ail iaith sy'n rhoi'r cyfle gorau i blant "trochi" ddod yn rhugl yn yr ail iaith. Ceir adroddiadau gan Ysgolion Cymraeg fod plant o'r fath sy'n dod i mewn atynt yn bump oed wedi un neu ddwy flynedd mewn dosbarth meithrin neu gylch chwarae Cymraeg yn ymgartrefu'n gynt ac yn gwneud mwy o gynnydd na phlant sydd heb gael y cyfle hwnnw.

Mae addysg feithrin hefyd yn darparu'r cyfle i blant ddatblygu medrau deallusol mwy cyffredinol. Gellir eu harwain i ddatblygu eu cywreinrwydd a llywio hwnnw er mwyn archwilio a darganfod. Maent yn cynyddu yn eu hannibyniaeth ac yn eu gallu i gloriannu tystiolaeth a gwneud penderfyniadau ar sail y dystiolaeth honno. Maent yn dysgu cysyniadau megis lle, maint ac amser sy'n eu cynorthwyo i drefnu eu hamgylchedd a gwneud synnwyr o'r byd.

Trwy sicrhau profiadau tebyg i bob plentyn, bydd darpariaeth addysgol ar gyfer plant tair a phedair oed yn helpu lleihau'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng plant o gartrefi cyfoethog a thlawd o safbwynt diwylliannol ac ariannol. Bydd yn cynorthwyo plant o gefndir llai ffodus i elwa'n well ar addysg ffurfiol wedi iddynt ddod yn 5 oed.

Un o'r agweddau llai derbyniol ar y ddarpariaeth dan 5 oed yng Nghymru ar hyn o bryd yw diffyg cysondeb. Ceir gwahaniaethau rhanbarthol sylweddol ar draws Cymru o ran darpariaeth, oed cychwyn a safon addysg feithrin, yn sector yr awdurdodau addysg lleol (AALlau) ac o dan darparwyr eraill. Byddai darpariaeth fwy cyson yn sicrhau mwy o chwarae teg yn y cyfle addysgol sydd yna ar gyfer pob plentyn yng Nghymru.

## Cynnwys addysg feithrin

Gwelir diddordeb mawr ar hyn o bryd yng nghwestiwn beth a ddylai fod yn gynnwys addysg feithrin a faint o ddysgu ffurfiol a ddylai ddigwydd yno. Nid syndod mo hyn o gofio datblygiadau diweddar mewn polisi addysg dan 5 oed, megis cymryd mwy o blant pedair oed i mewn i ddosbarthiadau Derbyn, cyflwyno'r Canlyniadau Dysgu Dymunol (ACCAC 1996), arolygu sefydliadau plant dan 5 oed, a chyflwyno Asesiad Sylfaen statudol (ACCAC 1998).

Ychydig o astudiaethau sydd wedi edrych ar effeithiau gwahanol gwricwla dan 5 oed a sut y bydd profiadau cyn-ysgol yn dylanwadu ar berfformiad plant yn ddiweddarach yn yr ysgol. Ceir un gorolwg o astudiaethau o'r fath yn yr Unol Daleithiau gan Bob Slavin (Slavin et al., 1989). Casgliad hwn yw mai prif nodweddion rhaglenni cyn-ysgol effeithiol yw eu bod yn ".. tueddu pwysleisio archwilio, datblygiad iaith, a chwarae, nid pethau academaidd." Mewn gorolwg o ymchwil yn yr Unol Daleithiau ar ddarllen gan Jeff McQuillan (McQuillan, 1998) nodir bod plant sy'n medru darllen cyn dechrau yn yr ysgol fel arfer yn dod o gartrefi lle mae llyfrau ar gael a lle mae'r rhieni'n cefnogi eu darllen, er nad trwy'r strategaethau ffurfiol a ddefnyddir mewn ysgolion. Mae McQuillan yn adolygu tystiolaeth hefyd o nifer fach o astudiaethau arbrofol o blant yr Unol Daleithiau a ddysgwyd yn ffurfiol i ddarllen mewn oed cynnar. Dangosodd y rhain nad oedd y manteision wedi para'n hir a bod plant a ddechreuodd ddarllen yn hwyrach wedi dal y dechreuwyr cynnar erbyn tua wyth oed. Casgliad McQuillan yw mai cael trafod llyfrau gydag oedolion cefnogol yw'r ffactor allweddol, yn hytrach na dysgu medrau darllen yn ffurfiol mewn oed cynnar.

Mewn adroddiad gan Clare a David Mills (Mills a Mills, 1998), a drafodwyd yn y rhaglen Dispatches ar Sianel 4, ceir cymhariaeth o ddulliau blynyddoedd cynnar yn Lloegr â dulliau Hwngari, y Swistir Almaeneg, a Fflandrys. Yn y tair gwlad gyfandirol mae plant yn dechrau yn yr ysgol yn hwyrach - yn 6 oed - ac mae eu dulliau dysgu cyn-ysgol yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau cymdeithasol plant, hyd eu sylw, eu medrau gwrando a'u cof, ymddygiad a chysyniadau. Nid yw'r gwledydd hynny'n dysgu darllen, ysgrifennu na rhif ysgrifenedig nes bod y plant yn 6 oed oherwydd eu cred bod llawer o blant yn rhy anaeddfed i ymdopi â'r medrau hynny ynghynt. Gallai eu gorfodi i wneud hynny ddechrau cylch o fethiant addysgol. Casgliad yr awduron yw y gallai'r polisi blynyddoedd cynnar yn Lloegr fod yn niweidiol i ddatblygiad plant.

A chrynhoi'r ymchwil sy'n bod, ymddengys bod plant 5 oed a llai yn llwyddo orau pan fydd ganddynt gyfle i gymdeithasu, i wneud eu dewisiadau eu hunain, a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Argymhellir rhoi'r pwyslais ar iaith lafar, deall cysyniadau gwybyddol sylfaenol, megis amser, lle a rhif, a hefyd cael trafod llyfrau a gwrando ar bobl yn darllen iddynt. Nid ymddengys bod dysgu mwy ffurfiol, academaidd, yn sicrhau cynnydd parhaol mewn perfformiad addysgol.

## ii) EFFAITH EHANGU DARPARIAETH ADDYSG DAN 5 OED

Y prif drefniant ar gyfer plant dan 5 oed yng Nghymru yw darpariaeth feithrin yr awdurdodau addysg lleol, ond mae mathau eraill o drefniant yn cynnwys derbyn plant yn gynnar i'r ysgol gynradd, cylchoedd chwarae, meithrinfeydd preifat a gofalwyr plant. O fewn pob un o'r categoriau hyn ceir ystod o wasanaethau sy'n cynnig addysg neu ofal blynyddoedd cynnar o wahanol natur.

Cafwyd gwelliant yn y modd y cydlynir y gwasanaethau hyn trwy sefydlu Cynlluniau a Phartneriaethau Blynyddoedd Cynnar. Datblygwyd y rhain o nod y Llywodraeth i ddarparu lle addysg gynnar rhad ac am ddim i bob plentyn pedair oed.

Lle mae AALlau yng Nghymru yn darparu addysg feithrin yn barod, ni fydd ond ychydig iawn o le i ehangu, er y gellid cynyddu canran y plant yn ardal yr AALl sy'n derbyn addysg feithrin. Byddai'r ehangu mwyaf yn digwydd mewn awdurdodau nad ydynt wedi datblygu cyfundrefn gyflawn eto. Un canlyniad i hyn fyddai cynyddu'r dewis darpariaeth sydd ar gael i rieni. Mewn rhai ardaloedd gallai fod yn anos i ddarparwyr eraill gystadlu â dosbarthiadau meithrin ag adnoddau da o dan reolaeth yr AALl. Yn bendant, byddai angen cydlynu pob math o ddarpariaeth yn dynnach ym mhob ardal, a byddai hyn yn cynyddu swyddogaeth y Partneriaethau Blynyddoedd Cynnar.

Byddai angen ymchwil sylweddol i ddarpariaeth bresennol ac arfaethedig yn y maes hwn cyn medru manylu ar oblygiadau cost unrhyw ehangu mewn darpariaeth addysg dan 5 oed. Byddai'n annoeth cynnig hyd yn oed bras amcan o'r costau ar hyn o bryd.

Mae cydlynu gwasanaethau gofal ac addysg plant dan 5 oed yng Nghymru a Lloegr yn destun cynllun ymchwil a wneir ar hyn o bryd gan y SCYA. Cyhoeddir ei adroddiad terfynol ym Mawrth 2000.

Ffynonellau

A Curriculum for the Pre-school Child, Audrey M Curtis. NFER-Nelson, 1986.
Age of starting School and the Early Years Curriculum, Caroline Sharp. Papur a baratowyd ar gyfer cynhadledd flynyddol y SCYA, 1998.

# CYMDEITHAS CYLCHOEDD CHWARAE CYN-YSGOL CYMRU

### Gwerth addysgol a datblygiadol addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 oed

Ym 1998/99 roedd gan y grwpiau a oedd yn aelodau o CCChC Cymru dros 30,000 o blant yn eu cylchoedd chwarae, grwpiau gofal dydd llawn a grwpiau oedolion a phlant bach. Roedd dros 25,000 o'r plant hyn yn 3 oed neu'n iau.

Byddai ehangu'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3 oed yn cynnig cyfle i rieni ddewis man priodol i'w plant gymryd rhan mewn gweithgareddau lle gallant ddysgu drwy chwarae, a hynny yn rhad ac am ddim. Mewn cylch chwarae gellir cynllunio rhaglen benodol o weithgareddau ar gyfer y plant fel bod datblygiad cymdeithasol, corfforol, ieithyddol, creadigol ac emosiynol y plant yn cael ei gyfoethogi mewn awyrgylch ddiogel a symbylol.

Dylai'r pwyslais ar gyfer plant ifanc, a phlant ifanc iawn yw'r rhain fod ar ddysgu drwy chwarae yn hytrach nag addysg yn ei ystyr fwyaf cyfyng neu baratoi plant ar gyfer yr ysgol. Dylai'r cyfleoedd cyntaf sydd gan blant i ddysgu fod yn bleserus ac yn anffurfiol fel y rhai sy'n cael eu cynnig mewn cylchoedd chwarae. Mae angen i blant 3 oed

- ddatblygu a dysgu ar eu cyflymdra eu hunain
- yn ôl faint y maent wedi datblygu yn hytrach na'u hoedran,
- mwynhau a dysgu drwy gymdeithasu
- cymysgu â'u cyfoedion
- arbrofi gyda'r byd o'u cwmpas
- cael hwyl yn dysgu drwy chwarae

Os mai dim ond ysgolion gaiff eu hystyried fel mannau lle gellir ehangu'r ddarpariaeth addysgol bydd hyn yn gam yn ôl i blant Cymru. Mae'r cymarebau staff mewn ysgolion yn rhy uchel, yn aml mae gormod o blant yn y dosbarthiadau a'r cefndir yn aml yn amhriodol. Mae cylchoedd chwarae wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer anghenion plant ifanc ac maent yn cynnig dull cyfannol ar gyfer datblygiad plant a dysgu drwy chwarae.

Mewn ardaloedd gwledig efallai na fydd digon o blant i gyfiawnhau uned feithrin a byddai hynny yn cynyddu nifer y plant bach mewn dosbarthiadau oed cymysg mewn ysgolion.

Mae'r Gymdeithas yn annog y Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar i:

- ofyn ai'r ysgol yw'r lle iawn i'r plant ifanc iawn hyn
- ystyried adeiladu ar waith gwerthfawr y cylchoedd chwarae
- darparu adnoddau i alluogi cylchoedd chwarae i gefnogi gwaith y Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol
- mynd ati i leihau'r angen i ysgolion gynyddu nifer eu disgyblion fel y gall cylchoedd chwarae ac ysgolion gydweithio i ddarparu gofal ac addysg o safon i blant Cymru.

## Cost ehangu'r ddarpariaeth a'r effaith ar ddarparwyr gofal plant.

Ni ddylid ystyried cost ehangu o safbwynt ariannol yn unig. Mae derbyn plant 4 oed i ysgolion wedi cael effaith drychinebus ar y mudiad cylchoedd chwarae. Gellid ystyried hyn fel sgîl effaith anffodus, na chafodd ei ragweld, i'r Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol ond gobeithir y bydd y Cynulliad yn ymwybodol iawn ohoni pan fydd yn mynd ati i gynllunio ehangu'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3 oed.

Mae'n rhaid i gylchoedd chwarae gael nifer penodol o blant os ydynt am fod yn hyfyw. Dros y 2 flynedd ddiwethaf mae cylchoedd chwarae wedi mynd yn fwy fwy gwangalon a bu'n rhaid i rai gau oherwydd yr ansicrwydd parhaus. Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn amrywio o sir i sir.

Os bydd yr ehangu yn arwain at dderbyn pob plentyn 3 oed i'r ysgolion bydd hyn yn dinistrio'r cylchoedd chwarae. Mae derbyn plant 4 oed i ysgolion wedi cael effaith sylweddol ond os bydd plant 3 oed yn cael eu derbyn hefyd ychydig iawn o gylchoedd chwarae fyddai'n goroesi.

Mae cylchoedd chwarae yn werthfawr am eu bod yn annog y teulu cyfan i fod yn rhan a thrwy hynny gall y rhieni fagu hyder, a chymryd rhan mewn hyfforddiant, weithiau am y tro cyntaf erioed.

Un o fanteision cylchoedd chwarae yw bod ganddynt ran allweddol i'w chwarae o ran datblygu rhieni, menywod yn bennaf, eu galluogi i ennyn hyder yn eu gweithgareddau eu hunain a'u hannog i wneud y gorau o'u hadnoddau eu hunain. Pan ddatblygodd y mudiad cylchoedd chwarae doedd neb wedi rhagweld y fantais hon i oedolion.

Mae Cylchoedd Chwarae yn gwasanaethu eu cymunedau lleol ac nid gwneud elw yw eu nod, ond yn hytrach cael dau ben llinyn ynghyd. Gan eu bod wedi'u lleoli yn y gymuned, mae grwpiau yn cadw eu prisiau mor isel â phosibl. Mae cylchoedd chwarae yn codi'r tâl isaf posibl ar rieni/gofalwyr er mwyn talu cyflogau, rhent, costau gwresogi a goleuo. (Ar gyfartaledd y tâl yw £2.69 am sesiwn o 2.5 awr: Ffynhonnell Arolwg CCChC Cymru 1998. Bydd y cyfartaledd yn amrywio fesul sir).

Mae'r rhan fwyaf o gylchoedd chwarae yn cynnal digwyddiadau codi arian er mwyn talu am yr holl gostau eraill gan gynnwys cyfarpar, adnoddau, a lluniaeth. Mae codi arian yn straen parhaus ar y grwpiau a dyma un o'r pethau y mae nifer o'r grwpiau yn ei hoffi leiaf am redeg grwp cymunedol. Y cyflog lleiaf posibl sy'n cael ei dalu i'r staff ac nid oes unrhyw raddfeydd cyflog cydnabyddedig. Mae'r lleiafswm cyflog a thâl gwyliau hefyd wedi bod yn ergyd drom!

Ar y cyfan, nid yw cylchoedd chwarae yn derbyn unrhyw arian gan y Llywodraeth ac eithrio'r cylchoedd hynny sydd wedi denu grantiau trwy gyfrwng eu Partneriaeth Gofal Plant. Gall grwpiau sy'n perthyn i'r Mudiad Ysgolion Meithrin dderbyn grantiau bychan o'u Cymdeithas Genedlaethol drwy'r arian a ddaw o Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Ond ni all y grwpiau sy'n perthyn i CCChC Cymru ddibynnu ar hynny! Bu'r £25,000 a ddyfarnwyd i CCChC Cymru gan y Llywodraeth yn 98/99 yn gymorth i 47 o grwpiau (£520 yr un) ond derbyniwyd dros 270 o geisiadau. Mae'n debygol y bydd y £25,000 a ddyfarnwyd eleni yn cynorthwyo dros 40 o grwpiau eraill. Cynorthwyodd y £60,000 a ddaeth o Gronfa Goffa Diana Tywysoges Cymru dros 215 o grwpiau............ OND mae angen i'r Cynulliad Cenedlaethol sylweddoli bod angen adnoddau os yw cylchoedd chwarae am oroesi a chwarae eu rhan yn y Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol.

Ehangu'r ddarpariaeth wladol gan gynnwys costau cyfalaf a refeniw fydd cost fwyaf yr ehangu. Mewn ardaloedd gwledig, lle nad yw'r ddarpariaeth statudol yn helaeth, bydd raid i blant deithio'n bell i'r ysgol agosaf. Bydd costau cludo'r plant i'r ysgol yn uchel, a bydd effaith sylweddol ar y plant eu hunain. Ariannu llefydd yn y ddarpariaeth bresennol, megis cylchoedd chwarae, fyddai'r dull mwyaf cost effeithiol o ehangu am y byddai hynny'n rhoi dewis i'r rhieni.

Rhaid i bawb gael cyfle i gystadlu ar yr un telerau. Dylid ariannu pob plentyn 3 blwydd oed, nid y rhai sy'n mynychu'r ddarpariaeth statudol yn unig. Os bydd y ddarpariaeth statudol yn rhad ac am ddim bydd y rhieni yn ei ddewis hyd yn oed os nad dyma'r ddarpariaeth orau ar gyfer eu plant. Yn yr ardaloedd gwledig lle mae nifer y plant eisoes yn isel bydd y cylchoedd chwarae yn diflannu'n llwyr os mai dim ond yr ysgolion fydd yn cymryd y plant ychwanegol.

Mewn rhai gwledydd mae'r arian ar gyfer plant 4 oed, ar gyfer cylchoedd chwarae, yn amrywio rhwng £4 - £6 ond ym marn staff y cylchoedd chwarae byddai £7 yn swm fwy realistig. Mae rhai siroedd yn rhoi grantiau i grŵp yn hytrach na thalu swm penodol o arian fesul plentyn ac mae hyn yn gymorth i gynnal y grŵp yn ei gyfanrwydd, gan gynorthwyo'r holl blant.

Pe bai'r cylch chwarae lleol yn cau:-

- Byddai'r Gymuned ar ei cholled
- Ni fyddai cyfle gan y rhieni i chwarae rhan
- Bydd staff y cylchoedd chwarae a'r rhieni yn colli cyfleoedd i gael hyfforddiant
- Bydd cynhwysiant cymdeithasol, sy'n rhan annatod o gylch chwarae, yn cael ei golli
- Bydd y seiliau ar gyfer mudiadau'r dyfodol yn cael eu colli e.e. brownies, sgowtiaid, Cymdeithasau Rhieni Athrawon ac ati
- Bydd y plentyn sydd ag anghenion arbennig sy'n cael ei integreiddio i gylch chwarae yn ifanc iawn ar ei golled, yn ogystal â'r gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i'w rieni
- Bydd pob plentyn cyn oed ysgol, beth bynnag fo'u hoedran, yn colli'r cyfle i integreiddio'n gymdeithasol wrth i'r grŵp rhieni a phlant bach sy'n gysylltiedig gau hefyd.
- Bydd dieithrwch cymdeithasol yn fwy tebygol.

Mae Cylchoedd Chwarae wedi chwarae rhan amhrisiadwy dros y 30 mlynedd a mwy diwethaf yn ein cymdeithas, heb fawr o gymorth gan y Llywodraeth. Mae plant yn haeddu'r dechrau gorau mewn bywyd ac ym marn CCChC Cymru cylchoedd chwarae sy'n cynnig y dechrau gorau hwnnw. OND mae'n rhaid i gylchoedd chwarae gael adnoddau ariannol er mwyn gwella, ennill safonau ansawdd megis y cynllun achredu cylchoedd chwarae Quality Assured, ar gyfer costau rhedeg yn eu cyfanrwydd, ar gyfer hyfforddiant i wella safonau ar gyfer y plant drwy uwchraddio sgiliau staff y cylchoedd chwarae.

Fel mudiad cenedlaethol, mae CCChC Cymru yn cael ei lesteirio gan ddiffyg adnoddau ariannol a phersonél allai ddarparu hyfforddiant, cynghori grwpiau a rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i godi safonau ar gyfer dros 1100 o aelodau. Dylid hefyd ystyried cynyddu'r arian y mae ei angen ar fudiadau cenedlaethol er mwyn cynorthwyo'r cylchoedd chwarae i godi safonau a gwella arfer da.

Mae awdurdodau lleol yn amharod iawn i ariannu unrhyw gostau craidd mudiadau cenedlaethol ac mae llawer o waith caled yn cael ei wneud hefyd i chwilio am grantiau i dalu am yr ymrwymiadau sydd eisoes yn bod, a hynny ar draul codi safonau, a darparu hyfforddiant a chefnogaeth. Os bydd yr arian ar gyfer y grwpiau yn cael ei sianelu trwy Awdurdodau Lleol bydd angen iddo gael ei glustnodi'n benodol ar gyfer hynny, fel arall bydd Awdurdodau sy'n brin o arian am ei wario ar bethau eraill.

Mae CCChC Cymru yn annog y Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar i:

- ystyried buddsoddi'r arian yn nyfodol cylchoedd chwarae, ar gyfer hyfforddiant, codi safonau yn enwedig o ran cofnodi ac asesu, ennill achrediad ansawdd a thuag at gostau rhedeg

- ystyried buddsoddi mewn cymorth grant uwch ar gyfer CCChC Cymru er mwyn cefnogi'r uchod, o safbwynt strategaeth genedlaethol a galluogi'r Gymdeithas i allu fforddio cysylltu'n gadarnhaol â'r Bartneriaeth Gofal Plant gan wella ansawdd ac effeithiolrwydd

- ystyried caniatáu i blant ifanc Cymru barhau i ddysgu trwy chwarae drwy ddarparu llefydd am ddim iddynt yn eu cylch chwarae lleol.

Drwy wneud yr uchod bydd y Cynulliad yn cynnig bargen newydd ar gyfer rhieni cyn-ysgol a'u plant yng Nghymru.  Bydd hyn yn rhoi cymorth a chryfder i'r sector gwirfoddol, tra'n gweithio tuag at y Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol, a hynny mewn modd na ddangoswyd gan yr un Llywodraeth erioed o'r blaen.

# BWRDD YR IAITH GYMRAEG

Diolch am y cyfle i gynnig sylwadau ar y ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 oed. Cynigir y sylwadau isod yng nghyd destun un o ddyletswyddau pwysicaf Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sef cynnal gorolwg strategol ar addysg Gymraeg yng Nghymru.

Nodir yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig 'Childcare in Wales'

Early years education is crucial to the future of the Welsh language. The Welsh Language Board should take a keen interest in the provision of childcare and the Welsh Funding Councils should be given specific targets for advanced training in the Welsh language. The UK Government and the Assembly should recognise that additional resources will be required if childcare is to be available in the Welsh language for all who want it.

O safbwynt dyfodol dwyieithrwydd yng Nghymru cred y Bwrdd fod y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn gwbl allweddol. Drwy gyfrwng y ddarpariaeth hon, sef darpariaeth Mudiad Ysgolion Meithrin ac ysgolion cynradd Cymraeg a dwyieithog yn bennaf, caiff llawer o rieni y dewis sy'n sicrhau fod eu plant yn tyfu'n ddwyieithog. Wrth gwrs ni ellir ystyried y ddarpariaeth ar gyfer plant 3 oed ar ei ben ei hun. Rhaid ystyried yr hyn a ddaw o'i flaen, megis cylchoedd Ti a Fi, ynghyd a'r hyn a ddaw ar ei ôl. Un continuwm yw'r broses o dyfu a dysgu, ac ni ddylid codi gormod o furiau artiffisial ar y daith.

Yn ôl ystadegau a gasglwyd gan y Bwrdd mewn adroddiad diweddar, gwelir mai ychydig dros 6% o blant yn 3 oed sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yng Nghymru sef ar y cyfan y rhai hynny sydd wedi dysgu'r iaith gartref. Erbyn 11 oed mae hyn wedi cynyddu i 20% o blant, cynnydd o 14%. O safbwynt cynhyrchu siaradwyr Cymraeg felly, mae'r system addysg yn fwy effeithiol na'r cartref. Mae'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan cwbl creiddiol yn y broses hon gan nad oes amheuaeth mai gorau oll po ifanca mae plentyn yn dechrau cael cyswllt â'r Gymraeg.

O fewn y sector addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru ceir dwy broses addysgol ar waith sef addysg cynnal iaith ac addysg drochi. Gydag addysg cynnal iaith mae'r plant yn dysgu trwy gyfrwng iaith y cartref. Gydag addysg drochi, maent yn cael eu profiadau addysgol yn bennaf trwy gyfrwng ail iaith. Mae addysg drochi sef y profiad mae plant o gartrefi di Gymraeg yn ei gael mewn cylchoedd Ti a Fi a chylchoedd meithrin, ac wedyn, mewn dosbarthiadau meithrin, derbyn ac yng nghyfnod allweddol 1 mewn ysgolion, yn gwbl gyfarwydd i ni yma yng Nghymru. Mae'r deg dweud ein bod ni mewn llawer i ffordd wedi bod yn arloesi yn y maes hwn ar lwyfan byd eang ers nifer o flynyddoedd, ac mae'n darpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar y dylem fod yn falch ohonno ac yn awyddus i'w ddiogelu.

Gyda thwf Mudiad Ysgolion Meithrin ers dechrau'r saithdegau, gwelwyd datblygiad sylweddol o ran y ddarpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn ddiamheuol ni fyddid gweld twf yn y nifer o blant a sgiliau dwyieithog ag a welwyd yn y ddau gyfrifiad diwethaf oni bai am waith arloesol y mudiad hwnnw.

Yn wir cynigiodd y Mudiad gyfle i rieni ledled Cymru i ddewis addysg ddwyieithog i'w plant.
Felly wrth ystyried datblygiad addysg i blant 3 oed, rhaid cymryd i ystyriaeth y cyfle sydd gan blant yng Nghymru i ddod, o oedran cynnar iawn, yn rhugl mewn dwy iaith. Fe fydd hefyd yn bwysig ystyried sut y gellir estyn y cyfle hwn o fod yn ddwyieithog fel ei fod yn ddewis ymarferol i rieni ar gyfer eu plant. Rhaid hefyd fydd sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad ym maes blynyddoedd cynnar yn y dyfodol yn niweidiol i'r ddarpariaeth ddwyieithog sydd wedi datblygu, ond yn hytrach yn ei gryfhau.

Bu mynediad cynnar i ysgolion ac i'r drefn o addysg ffurfiol yn nodwedd amlwg o addysg yng Nghymru ers cryn amser, gyda rhai plant yn dechrau ar eu cyfnod yn yr ysgol yn dair oed a bron yn ddieithriad yn bedair oed. Da o beth fyddai ystyried priodoldeb hynny. Yn sicr gwnaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gyfraniad sylweddol o safbwynt dysgu plant i siarad Cymraeg. Ond dylid ystyried ai mewn ysgolion y dylai plant tair oed fod. Yng nghyd destun plant sy'n derbyn addysg Gymraeg gall hyn olygu taith o rai milltiroedd i'r ysgol gynradd Gymraeg agosaf a bydd rhai rhieni yn gwrthod y dewis ar y sail hynny. Onid gwell fyddai i'r plant hynny gael cyfle i ddysgu'r iaith yn eu cymunedau, ac mewn cyswllt clos â'u rhieni. Yn hyn o beth efallai y dylid ystyried trin y sectorau Cymraeg/dwyieithog yn wahanol.

Mae cytundeb cyffredinol bellach yng Nghymru, mae'n ymddangos fod cyswllt clos rhwng llwyddiant addysgiadol cyffredinol â darparu cyfleoedd chwarae strwythuredig ac anstrwythuredig a gynlluniwyd yn bwrpasol. Ers cyfnod sylweddol seliwyd gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin ar yr egwyddorion hyn, gan blethu cyswllt â'r iaith Gymraeg â gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i blant ddatblygu'n gorfforol, meddyliol, emosiynol a chymdeithasol drwy wahanol fathau o chwarae a gweithgareddau strwythuredig. Nodir y gweithgareddau hyn oll fel enghreifftiau o arferion da yn nogfen ACCAC 'Canlyniadau Dymunol ar Gyfer Dysgu Plan', er nad yw'r ddogfen hon mewn gwirionedd yn mynd i'r afael â'r sefyllfa ddwyieithog yn ei chyfanrwydd.

Gwelwyd gwelliant yn ddiweddar yn ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ac yn sicr yn ystod y trafodaethau rhwng y Bwrdd a'r Mudiad Ysgolion Meithrin rhoddwyd pwyslais cyson ar godi safonau ac ar hyfforddi staff. Cred y Bwrdd y dylai plant sy'n cael eu haddysgu'n ddwyieithog, nid yn unig gael y cyfle i ddod yn gwbl rugl yn y ddwy iaith, os nad tair neu bedair, ond hefyd y dylent gael yr addysg orau bosibl fel rhan o'r broses honno.

Gwelwyd yn ddiweddar ymryson yn digwydd rhwng y sector gwirfoddol a'r sector addysg orfodol am blant tair a phedair oed. Cnewyllyn yr ymryson hwn, wrth gwrs oedd ac yw'r awydd i gynyddu incwm yn anad dim arall. Yn sgîl yr ymrafael hwn gwelwyd nifer o gylchoedd a grwpiau chwarae'n cau oherwydd wrth i blant tair/pedair oed fynd i'r ysgolion nid oedd y grwpiau yn y sector gwirfoddol yn ddigon mawr i fod yn hyfyw yn ariannol. Collwyd felly y ddarpariaeth yn ei gyfanrwydd. Fel nodir yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig 'the loss of Welsh Medium playgroups, particularly in areas where the local school operates in English, has very serious implications for the future of the Welsh language'.

Teg, felly, fyddai sicrhau yn y dyfodol, wrth fynd ati i fireinio'r ddarpariaeth ar lefel genedlaethol, fod y ddau sector, y gwirfoddol a'r gorfodol yn cyd weithio'n effeithiol, a bod mesur a phwyso gofalus yn digwydd wrth gyflwyno newidiadau ynghyd â'u sgîl effeithiau ar bob darpariaeth a darparwr.

Dylai'r Pwyllgor felly ystyried yn ofalus eu polisïau o safbwynt y ddarpariaeth ar gyfer plant 3 oed. Dylid ystyried profiadau gwledydd eraill sydd yn cynnal systemau addysg ddwyieithog megis Awstralia, Seland Newydd, Canada a'r Ffindir ac sydd wedi gosod fframwaith priodol yn ei le ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae hi'n hynod o bwysig fod yna ystyriaeth yn cael ei roi i'r persbectif rhyngwladol a hynny er mwyn i ni elwa o lwyddiannau a phrofiadau gwledydd eraill. Wedyn gellid teilwra'r ddarpariaeth yng Nghymru ar gyfer ein sefyllfa gymdeithasol, addysgol a ieithyddol ni.

## Cost Ehangu Darpariaeth Ansawdd Uchel i Blant 3 Oed

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyllido darpariaeth yn y maes hwn drwy gyfrwng grant blynyddol i Mudiad Ysgolion Meithrin. Fel rhan o'i strategaeth ar gyfer y dyfodol cred y Bwrdd y dylid rhoi blaenoriaeth sylweddol i gefnogi gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin er mwyn rhoi'r cyfle i ragor o rieni i ddewis i'w plant fod yn ddwyieithog.

Mae'r Bwrdd ar fin cytuno strategaeth pedair blynedd gyda Mudiad Ysgolion Meithrin sy'n nodi'r hyn sydd angen i'r Mudiad ei gyflawni dros y cyfnod hwnnw.

# YR ATHRO J. R. SIBERT

Diolch i chi am ein holi ynghylch ein polisi ar Addysg y Blynyddoedd Cynnar i Blant Teirblwydd Oed. Ceir tystiolaeth gadarn fod addysg y blynyddoedd cynnar o gymorth yn natblygiad cymdeithasol ac addysgol cyffredinol plentyn. Mae'n arbennig o wir am blant o ardaloedd difreintiedig a'r rhai sy'n dioddef o amddifadu cymdeithasol. Fel clinigwyr, mae ein profiad o weithio gyda phlant a'u teuluoedd wedi ein hargyhoeddi o werth addysg y blynyddoedd cynnar. Yr ydym o'r farn ei bod wedi cael effaith bositif a phwysig.

Hefyd pan fo darpariaeth addysgol yn yr oedran hwn yn cyfuno â'r rhieni ac yn cydweithio â hwy, ceir tystiolaeth ei bod yn arwain at welliannau ym mherthynas y plentyn/rhiant, a rheolaeth y plentyn yn gyffredinol. Mae'n arbennig o wir pan fo'r ddarpariaeth yn targedu perthynas plentyn/rhiant yn benodol.

Mae addysg y blynyddoedd cynnar yn darparu cyd-destun gwych i roi pecynnau addysg iechyd priodol i deuluoedd ifanc sydd â phlant yr oedran hwn.

Yr ydym o'r farn y gellir cyfiawnhau'r gost o ehangu addysg y blynyddoedd cynnar oherwydd ei heffaith bositif. Mae'n anodd i ni, serch hynny, gynnig sylwadau ar yr effaith ar ddarparwyr gofal plant eraill.

| | |
|---|---|
| J R SIBERT | E.C STREET |
| Professor of Community Health | Consultant Child Psychologist |
| | Honorary Senior Research Associate |

# Atodiad D

# Cofnodion Pwyllgor yn ymwneud â'r Adroddiad hwn

## CYN 16 02-99(cof) - 30 Mehefin 1999

### Eitem Agenda 8: Datblygu Polisi: Cylchoedd Gwaith Drafft
### Papur: CYN 16 02-99 (tud.7)

8.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ystyried y cylchoedd gwaith arfaethedig ynghyd â'r Amserlenni.

8.2 Yn ôl y Cadeirydd mae'r wybodaeth sydd ar gael yn penderfynu ym mha drefn yr eir i'r afael ag adolygiadau datblygu polisi. Tynnodd sylw at y terfynau amser sydd wedi'u hargymell.

8.3 Yn y cyfarfod ar 14 Gorffennaf byddai'r Pwyllgor yn ystyried yn fanwl y pwnc cyntaf, sef 'Darpariaeth Addysg Gynnar ar gyfer plant teirblwydd'. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ystyried, erbyn y cyfarfod nesaf, pwy hoffent eu gwahodd i roi tystiolaeth ysgrifenedig ar yr adolygiad cyntaf. Byddai'r Clerc wedyn yn anfon gwahoddiadau i'r cyrff a'r unigolion hynny ar ôl y cyfarfod nesaf. Efallai y byddai Aelodau hefyd yn cael budd o ddarllen y Trydydd Adroddiad ar Ofal Plant yng Nghymru gan Bwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin.

8.4 Nodwyd y papur.

## CYN 16 03-99(cof) - 14 Gorffennaf 1999

### Eitem Agenda 7: Datblygu Polisi - Y Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant tei blwydd. Papur: CYN 16 03-99 (tud.5)

7.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ystyried y papur ac i nodi'r rheini yr oedd am eu gwahodd i ddarparu sylwadau ysgrifenedig.

7.2 Materion a godwyd yn y drafodaeth:

- cymeradwywyd cynnwys yr Athro Jo Sibert;
- p'un a gwmpaswyd buddiannau addysgol yn ddigonol yn y sesiwn llafar y bwriadwyd ei gynnal ar Fedi 15ed;
- gwerth addysgu plant o'r oed hwn yn anffurfiol drwy ddefnyddio dwylo a defnyddio sgiliau gwrando yn hytrach nag annog plant i ddefnyddio pensiliau ac ati;
- bod angen cydbwysedd rhwng darparu addysg a gofal;
- yr angen i gynnwys sefydliadau, cymdeithasau ac unedau meithrin arbennig eraill sy'n dangos arferion da e.e. Sefydliad Steiner (Dafydd Roberts).

7.3 Cytunodd yr Aelodau y dylid gwahodd y sefydliadau hynny a restrir yn Atodiad 3 y papur i ddarparu cyflwyniadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor ac y dylid ychwanegu'r Athro Jo Sibert a sefydliad Steiner at y rhestr hefyd.

### Pwyntiau Gweithredu

7.4 Bydd y Clerc yn gwahodd cyflwyniadau gan y sefydliadau a'r unigolion hyn.

## CYN 16 04-99 (cof) - 15 Medi 1999

### Eitem Agenda 5: Datblygiad Polisi - Darpariaeth Addysg y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant 3 Oed.

5.1 Cyfeiriwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd at yr ymatebion ymgynghori a ddosbarthwyd mewn un ddogfen, y byddai cyflwyniadau ychwanegol yn cael eu hategu iddi wrth eu derbyn. Ymddiheurodd y Clerc bod y ddogfen yn cael ei dosbarthu'n hwyr i'r Aelodau. Roedd rhai fersiynau Cymraeg heb eu derbyn ond roedd hyn oherwydd y nifer yr oedd angen eu cyfieithu yn bennaf. Roedd gwaith golygu'r ddwy fersiwn yn parhau.

5.2 Cyflwynodd y Cadeirydd westeion gwâdd o ACCAC ac Estyn, a Dr Jill Harper-Jones, Darlithydd o Goleg y Brifysgol, Abertawe, a chafodd pob un ohonynt slotiau 10 munud er mwyn amlygu pwyntiau o'u cyflwyniadau.

5.3 Cyflwynodd Brian Connolly Gary Brace a Kim Ebrahim; siaradodd y naill a'r llall i gyflwyniad sleidiau pwyntiau bwled o dan y penawdau 'Egwyddorion Darpariaeth', 'Nodweddion y Cwricwlwm' a 'Cymwysterau Cenedlaethol ar gyfer Addysg y Blynyddoedd Cynnar', yn y drefn honno. Atodir y rhain fel atodiad 2.

5.4 Cyfeiriodd Susan Lewis a Chris Abbott at gyflwyniad Estyn. Atgoffodd Ms Lewis y Pwyllgor am werth addysg i blant o dan 5 oed; mae traddodiad yng Nghymru o ddechrau mewn ysgolion cynradd yn gynnar ar gyfer y grŵp oedran hwn; roedd yr ymateb yn uwch mewn darpariaeth a gynhelir nac mewn darpariaeth nas cynhelir; roedd arolygiadau darpariaeth feithrin wedi nodi ansawdd da yn 3 oed a chadarnhaodd fod yna angen; cafwyd tystiolaeth o sylfaen gadarn yn cael ei gosod mewn rhifedd a llythrennedd; roedd hyn oll yn awgrymu cysylltiadau cryf rhwng y cartref a'r ysgol. Siaradodd Mr Abbott am fformat y ddarpariaeth a'r ffordd y dylai wahaniaethu rhwng plant o dan a thros 5 oed; dangosodd darpariaeth ar gyfer plant 3 a 4 oed ehangder a chydbwysedd gan gydnabod dewis rhwng ymagwedd yr athrawon a diddordebau plant; roedd datblygiad personol a deallusol yn ffactorau hanfodol i'w meithrin; roedd gwerth cyfraniad da gartref tuag at chwarae ac arfer gydag athrawon yn fuddiol; roedd arolygiadau wedi dangos rhai gwendidau lle cymysgwyd plant Cyfnod Allwedol 1 a phlant iau; lle gall rhai plant iau wneud mwy, roedd cynllunio darpariaeth mwy gofalus yn hanfodol. Cyfeiriodd Mr Abbott at adroddiad yn dwyn y teitl 'Arolygu Darpariaeth Addysg ar gyfer Plant Cyn Oed Ysgol Gorfodol: Canllaw ar gyfer Arolygwyr', byddai copïau yn cael eu darparu ar gyfer y Pwyllgor.

5.5 Cyfeiriodd Jill Harper-Jones at y pwyntiau bwled a nodwyd yn atodiad 3 a chynghorodd fod darpariaeth yn y sector a gynhelir yn dda iawn yng Nghymru ac iddo fod yn dda erioed yn ne Cymru. Yn ei barn hi y prif feini prawf ar gyfer darpariaeth o ansawdd uchel oedd y dylai fod yn ddatblygol briodol wrth i blant adeiladu eu delwedd eu hunain o'r byd o'u cwmpas, dylid adeiladu ar eu profiad ar ddefnyddio rhyngweithrediad cymdeithasol o ansawdd a oedd yn cydnabod mewnbwn gan rieni.

5.6 Ymhlith y materion a godwyd yn y drafodaeth roedd:

- faint o'r cymwysterau addysgu amrywiol sydd ar gael oedd yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar?;
- a oedd rhaglen hyfforddi ddigonol a chymhwyster priodol ar gyfer addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac a ddylai'r Pwyllgor edrych ar hyn ymhellach?;
- a oedd galwadau cymharol ar y ddarpariaeth o fewn ysgolion ac mewn unedau meithrin mewn mannau eraill?;
- pa mor anodd oedd hi i gylchoedd meithrin a chyrchoedd chwarae gynllunio ar gyfer y dyfodol, sut gallai hynny effeithio ar y ddarpariaeth?;
- dylai gofal plant yn y blynyddoedd cynnar gael ei ystyried, a oedd rôl ar gyfer adrannau gwasanaethau cymdeithasol?; a
- gallai cyflwyno addysg ffurfiol i blant o gefndir difreintiedig yn gynnar leihau ei gwerth.

5.7 Hysbyswyd yr aelodau fod darpariaeth hyfforddiant yn cael ei harwain yn bennaf gan alw, roedd y Mudiad Ysgolion Meithrin yn mynd ar drywydd cymhwyster priodol; mae'r Arolygwyr yn edrych ar ansawdd y ddarpariaeth, yn arbennig y graddau y mae'n galluogi datblygiad sy'n briodol i'r plentyn; nad oedd unrhyw amnewidiad am awyrgylch cartref da a'r 'dechreuad' roedd hynny'n ei roi i ddysgwyr cynnar; bu rhyw fenter yn edrych ar effeithiau amddifadedd ond dim astudiaeth hydredol gynaladwy; gosodwyd cyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol - mewn perthynas â phlant bach - yn y Ddeddf Plant. Roedd modelau 'educare' i'w canfod yn Lloegr lle cyd-ariannwyd a gweinyddwyd rhai meithrinfeydd gan awdurdodau addysg lleol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol; roedd rhywfaint o dystiolaeth bod cychwyn cynnar o anfantais i rai disgyblion.

5.8 Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr gwâdd am ychwanegu at y sylwadau a gyflwynwyd eisoes.

## CYN 16 05-99 (cof) - 29 Medi 1999

### Eitem 4 ar yr Agenda: Darpariaeth Addysg y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant Teirblwydd

4.1 Byddai'r cyflwyniadau ysgrifenedig a gasglwyd yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod nesaf ar 13 Hydref. Byddai mwyafrif y sefydliadau hynny a wahoddwyd i ddarparu cyflwyniadau ysgrifenedig wedi gwneud hynny erbyn canol yr wythnos nesaf (6 Hydref). Byddai 3 sefydliad yn rhoi cyflwyniadau llafar - Mudiad Ysgolion Meithrin, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn Ysgol Cymru a Phlant yng Nghymru. Ar 3 Tachwedd byddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn annerch y Pwyllgor.

4.2 Ymhlith y materion a godwyd yn y drafodaeth roedd:

- pryder ynglyn â nifer y cysylltiadau nad oeddent wedi ymateb;
- a oedd rhai wedi 'gwrthod' mewn gwirionedd?; ac
- onid oedd y Pwyllgor wedi ystyried cysylltu ag arbenigwyr ychwanegol yn y maes hwn efallai o dramor, a chyrff eraill yn y DU hefyd.

4.3 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau yr ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ynglŷn â phwy y dylid gofyn iddynt gyfrannu a chytunwyd ar y rhaglen. Esboniodd y Clerc fod rhai pobl yr ymgynghorwyd â hwy wedi 'gwrthod' ymateb o fewn y terfyn amser, roedd ymatebion yn dal i ddod i law.

Byddai'r rhestr ymateb derfynol yn nodi pwy nad oedd wedi ymateb. Roedd rhai Awdurdodau Addysg Lleol a Phartneriaethau'r Blynyddoedd Cynnar wedi ymateb ar y cyd. Pwysleisiodd y Cadeirydd mai prin yw'r amser i wahodd sylwadau ychwanegol os am gwrdd â'r terfyn amser arfaethedig ond petai'r Aelodau yn dymuno gwneud hynny dylent hysbysu'r Clerc cyn gynted â phosibl. Nododd fod rhai sylwadau a ddaeth i law wedi cynnwys cyfeiriad at ymchwil yr ymgymerwyd â hi yn UDA; **gofynnodd i'r Clerc ganfasio cydweithwyr am awdurdodau ychwanegol dibynadwy y gellid cysylltu â hwy i gael tystiolaeth ysgrifenedig yn gyflym iawn, os oedd yr Aelodau yn gwybod am unrhyw rai dylent ddweud wrth y Clerc. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad ei bod wedi cyfarfod ag Ombwdsmon Plant yr Iseldiroedd ac y byddai'n darparu copi o'r papur a gyflwynwyd ganddo ar ofal plant i'r Clerc.** Achubodd yr Ysgrifennydd Cynulliad ar y cyfle i hysbysu Aelodau'r Pwyllgor am y cytundeb y daethpwyd iddo ynglyn â darparu gofal plant ar gyfer y rheini a wahoddwyd i roi cyflwyniadau i'r Pwyllgor. Pan wahoddir i unigolion a sefydliadau roi cyflwyniadau i'r Pwyllgor gofynnir iddynt a oes ganddynt unrhyw ofynion gofal plant. Pe ceid digon o alw am ofal plant yna byddai'r posibilrwydd o'i ddarparu drwy'r logi 'Bws chwarae' yn cael ei ystyried. Dim ond drwy gael gwybod maint y galw ymlaen llaw y gellir cael darpariaeth gofal plant drwy'r 'Bws chwarae' ac ni ellid ei defnyddio ar gyfer gofal 'galw i mewn'.

4.4 Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad mewn perthynas â'r ffordd y câi'r ddarpariaeth gofal plant ei hariannu gan na ofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried hyn mewn perthynas â'i gyllideb. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cynulliad na thelir am hyn o gyllid y Pwyllgor.

## CYN 16 06-99 (cof) - 13 Hydref 1999

### Eitem 3 ar yr Agenda : Datblygiad Polisi - Darpariaeth Addysg y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant Teirblwydd - CYN 16 06-99 (tud.2)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd y tri sefydliad a fyddai'n gwneud cyflwyniadau i'r Pwyllgor.

**Hywel Jones, Cadeirydd Mudiad Ysgolion Meithrin**

3.2 Cyflwynodd Mr Jones Ms Rita Jones, Cyfarwyddwraig ar gyfer de ddwyrain Cymru. Esboniodd fod MYM yn sefydliad cenedlaethol a gwirfoddol a leolir mewn mwy na 400 o leoliadau yng Nghymru. Credai MYM mewn cefnogi'r broses ddysgu o enedigaeth a gwnaed hynny drwy Gylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin gan ddarparu addysg barhaus o ansawdd. Anogai MYM a dibynnai ar gyfranogiad rhieni a'u dymuniadau o ran dewis iaith, lleoliad a hyd y ddarpariaeth. Darparai MYM chwarae pwrpasol lle byddai plant yn dysgu drwy brofiad a chyfranogiad, sy'n sail bwysig ar gyfer addysg yn y dyfodol. Cyfeiriodd Mr Jones at yr adroddiad 'Start Right' a baratowyd gan Syr Christopher Ball a atgyfnerthai'r farn bod plant yn ffynnu mewn amgylchedd sicr a ddarperir gan rieni, pobl broffesiynol a'r gymuned.

3.3 Dyfynnodd y gymhareb athro/disgybl o 1:8 fel un nodweddiadol o'r sector gwirfoddol o'i chymharu â 1:13 mewn darpariaeth a gynhelir lle gallai dosbarthiadau gyrraedd 30+ o blant, roedd addasrwydd a diogelwch y lleoliad hefyd yn ffactorau pwysig. Cyfeiriodd Mr Jones at ofynion y Ddeddf Plant a oedd yn gymwys i ddarpariaeth wirfoddol ond nid i ddarpariaeth a gynhelir.

3.4 Petai darpariaeth a gynhelir yn ofynnol yn 3 oed ni fyddai unrhyw grŵp chwarae Cylch neu MYM yn goroesi. Byddai rhieni a'r gymuned yn colli adnodd gwerthfawr ar gyfer y plant ieuengaf, byddai profiad paratoadol ar gyfer addysg Gymraeg yn cael ei beryglu a byddai 2,000 o swyddi gwirfoddol yn cael eu colli. Ffactor ar wahân mewn addysg Gymraeg oedd nad oedd ysgolion yn ne ddwyrain Cymru yn amlwg yn ysgolion cymunedol. Cwblhaodd Mr Jones ei gyflwyniad gan gymeradwyo i'r Pwyllgor argymhellion 'Start Right'.

3.5 Gwahoddodd y Cadeirydd drafodaeth a gynhwysodd:

- a oedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan MYM i ysgolion cynradd a gâi eu bwydo yn cyfiawnhau mwy o adnoddau, roedd y costau cyffredinol i MYM yn uwch nag yn y sector a gynhelir lle byddai'r ddarpariaeth am ddim i rieni; nid oedd hyn wedi'i gynorthwyo drwy gyhoeddi talebau meithrin;
- y farn mai dim ond yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed y dylid derbyn plant yn yr ysgol; ac
- a oedd MYM wedi ymchwilio'n llawn i ymagwedd bartneriaeth ag AALl.

3.6 Cadarnhaodd Mr Jones fod rôl fwydo MYM yn ffactor pwysig ar gyfer addysg Gymraeg a dyma oedd yr unig gyswllt yn aml i rieni. Amlygwyd adnoddau ychwanegol, meddai, mewn Adroddiad gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a anogai Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gymryd mwy o ddiddordeb mewn ariannu gofal plant cyfrwng Cymraeg. Cadarnhaodd fod cyflwyno'r system dalebau wedi achosi problemau rhwng cyrff gwirfoddol ac awdurdodau addysg lleol. Roedd arian ychwanegol yn hanfodol er mwyn i gyrff gwirfoddol sicrhau darpariaeth leol o ansawdd, gallai hyn sicrhau a gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant hyd at y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Ar hyn o bryd mae rhai ysgolion cyfrwng Saesneg yn derbyn plant yn gynnar gan beryglu darpariaeth Gymraeg y telir amdani. Roedd MYM yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon ag awdurdodau lleol lle roeddent yn barod i weithio mewn partneriaeth. Cynghorodd Ms Jones fod MYM yn erbyn symud o ran amser i lawn amser, byddai cam o'r fath yn peryglu'r ddarpariaeth ac yn rhagfarnu ymarferoldeb Cylchoedd Meithrin.

3.7 Diolchodd y Cadeirydd i MYM am eu cyflwyniad; pwysleisiodd yr angen am strategaeth i ddarparu amgylchedd ffrwythlon a sicr lle gallai plant ifanc iawn ddysgu a chael eu cynorthwyo drwy eu profiadau bywyd cychwynnol.

**Wendy Hawkins, Swyddog Gweithredol Cenedlaethol, Cymdeithas Grwpiau Chwarae Cyn-Oed Ysgol Cymru (CGChCOYC)**

3.8 Rhoddodd Mrs Hawkins gyflwyniad sleidiau y ceir copïau ohono yn atodiad 2. Cyfeiriodd at Adroddiadau Plowden a Wolfenden ac Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar Ofal Plant yng Nghymru, pwysleisiodd yr angen am ymagwedd bartneriaeth tuag at ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar gan ddechrau gyda rhieni ac arweinwyr grwpiau chwarae, hefyd rôl grwpiau chwarae a'r ffordd roeddent yn gwasanaethu cymunedau lleol. Roedd grwpiau chwarae ac awdurdodau lleol yn dechrau gweithio gyda'i gilydd ond byddai'n cymryd amser i hyn ddatblygu yn bartneriaethau llawn. Cyfeiriodd at ddyfarniad o £25,000 ym 1998/99 i PPA Cymru a'i ddosbarthiad o £520 i bob un o 47 o grwpiau. Eleni byddai'r dyfarniad yn helpu 48 o grwpiau eraill.

3.9 Gwahoddodd y Cadeirydd drafodaeth a gynhwysodd:

- yr angen am ymagwedd fwy ymarferol tuag at weithio mewn partneriaeth;
- a fyddai derbyn plant mewn ysgolion o'r mis Medi yn dilyn pen-blwydd plentyn yn dair oed yn helpu i sicrhau sefyllfa grwpiau chwarae?;
- a oedd systemau rheoli ansawdd yn eu lle?; a
- pa ddarpariaeth oedd yna ar gyfer darpariaeth Gymraeg?

3.10 Cynghorodd Mrs Hawkins fod ymagwedd bartneriaeth ag awdurdodau addysg lleol yn datblygu ond y bu cynnydd yn araf; roedd cefnogaeth gan rieni ar gyfer darpariaeth grwpiau chwarae, gellid gwario'r arian a fyddai'n cael ei roi i ysgolion i ddarparu ar gyfer plant 3 neu 4 oed yn well ar grwpiau chwarae neu ei ddosbarthu'n hafal er mwyn darparu ar gyfer dewis gan rieni. Roedd gwasanaethau cymdeithasol lleol yn darparu cynllun achrededig lle sicrheir ansawdd, ond roedd hyn yn ddrud yn nhermau amser a chostau.

Roedd y ddarpariaeth yn ddwyieithog mewn 60% o grwpiau chwarae, disgwyliwyd i hyn godi i 75% y flwyddyn nesaf. Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Hawkins am ei chyflwyniad.

**Plant yng Nghymru Catriona Williams, Prif Weithredwraig**

3.11 Cyflwynodd Ms Williams ei chydweithwyr Pat Davies, Siân Wyn Siencyn, a'r Athro Sonia Jackson, Cadeirydd. Roedd Plant yng Nghymru yn croesawu'r ffocws a dynnodd y Pwyllgor at ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar. Roedd y sefydliad yn cymryd ymagwedd amlddisgyblaethol eang tuag at ddarpariaeth, roedd yn well ganddynt ymagwedd gyfannol yn seiliedig ar egwyddor hawliau'r plentyn. Teimlai Ms Williams fod deddfwriaeth a oedd yn effeithio ar blant yn anghyson, nid oedd deddfwriaeth ar addysg yn cynnwys lles plant. Cododd ddau brif fater - sut y gellid mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol gyda'r problemau atodol o hunan-fri isel ymhlith rhieni a gwerth grwpiau mamau a'u plant mewn rhai cymunedau fel cyswllt bywyd cymunedol.

3.12 Canolbwyntiodd Pat Davies ar anghenion plant, diffyg buddsoddiad gan y sector cyhoeddus mewn ymchwil, effeithiau niweidiol addysg ffurfiol ar oedran cynnar, gwerth cyfranogiad rhieni mewn datblygiad, problem bosibl darparu cwricwlwm gwahaniaethol gan gwmpasu ystod oedran 3 i 7. Pwysleisiodd yr angen am ddysgu drwy hwyl mewn oedran lle roedd rhychwant canolbwyntio plentyn yn fyr.

3.13 Cododd Siân Wyn Siencyn, Uwch Ddarlithydd, Coleg y Drindod, Caerfyrddin nifer o faterion hyfforddi gan bwysleisio'r angen am ddarpariaeth hyfforddiant hanfodol a chyson. Ar hyn o bryd roedd rhyw 22 o golegau addysg bellach yn cynnig tua 40 o gymwysterau, rhai ohonynt gydag achrediad. Roedd angen modiwlau'r blynyddoedd cynnar a ganolbwyntiai ar yr ifanc iawn. Dylid annog darparwyr a chynorthwy-wyr mewn grwpiau chwarae a Chylchoedd i astudio a hyfforddi tuag at ennill cymhwyster. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ymdrechu i sicrhau fframwaith hyfforddi er mwyn paratoi staff i gymhwyso fel darparwyr ar gyfer plant o dan 5 oed. Tynnodd sylw at y defnydd gan TECs o swm o £1 miliwn ar gyfer datblygu a holodd a ddefnyddiwyd hyn i'r defnydd gorau. Fel rhan o'u hastudiaeth hyfforddiant gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried lle addysg arbennig ac anghenion ethnig, ymhlith eraill.

3.14 Tynnodd yr Athro Jackson sylw at ddwy thema, sef bod angen strategaeth ar addysg y blynyddoedd cynnar o enedigaeth drwodd i'r ysgol gyda gofal dydd wedi'i gynnwys a phwysigrwydd ymchwil. Roedd gwaith diweddar wedi dangos er enghraifft y gallai addysg

ffurfiol i blant 3 a 4 oed fod yn llai na buddiol ac roedd yn fwy niweidiol i fechgyn a oedd yn amharod i eistedd a chanolbwyntio heblaw am gyfnodau byr. Canfuwyd y gallai hyn gysylltu'n uniongyrchol ag ymddieithrio a thramgwyddaeth mewn bywyd diweddarach.

3.15 Addawodd y sefydliad ddarparu llyfryddiaeth o bapurau ymchwil perthnasol i'r Clerc a fyddai'n cysylltu â Llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn iddynt fod ar gael i'r Aelodau.

3.16 Diolchodd y Cadeirydd i bob cyfrannydd am eu cyflwyniadau a gafodd eu cyfyngu'n angenrheidiol gan amser. Awgrymodd y dylid ceisio dod o hyd i gyfle i Siân Wyn Siencyn a'r Athro Jackson ddychwelyd i'r Pwyllgor i drafod y pwyntiau a godwyd yn fanylach. Awgrymodd yr Ysgrifennydd Cynulliad, o'r ymchwil y cyfeiriwyd ati o fewn y cyflwyniadau, ei bod yn werth bwrw golwg ar brofiad Seland Newydd.

**Gweithredu : y Clerc i drefnu'r cyflwyniadau ychwanegol ar gyfer y cyfarfod ddydd Mercher 15 Rhagfyr.**

## CYN 16 07-99 (cof) - 3 Tachwedd 1999

### Eitem 3 ar yr Agenda : Datblygu Polisi : Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant Teirblwydd - Cyflwyniad gan yr Athro Sonia Jackson

3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Jackson - a oedd yng nghwmni Pat Davies o Blant yng Nghymru - ac atgoffodd yr Aelodau eu bod wedi'i gwahodd i anerch y Pwyllgor yn dilyn ei chyfraniad byr iawn i'r cyfarfod ar 13 Hydref.

3.2 Cyfeiriodd yr Athro Jackson at y papur yr oedd wedi'i baratoi ar gyfer y Pwyllgor, a atodir fel Atodiad 1. Nododd y bu datblygiad cynnar plant yn destun ymchwil helaeth dros yr hanner can mlynedd ddiwethaf, gyda'r ymchwil yn syrthio i dri grŵp : sef natur plentyndod cynnar a dylanwadau ar ddatblygiad, y berthynas rhwng dysgu cynnar a chyflawniad diweddarach a strwythur addysg a'r lle a roddir i blant mewn cymdeithas.

3.3 Pwysleisiodd fod consensws cyffredinol bod darpariaeth addysg o dan oedran ysgol statudol yn y DU yn cynrychioli ymagwedd gymysglyd heb unrhyw bolisi cydlynus mewn grym. Roedd oedrannau dechrau'r ysgol yn amrywio'n rhyngwladol, roedd cymariaethau o sgoriau profion darllen, ysgrifennu a mathemateg yn dangos bod plant nad ydynt wedi dechrau dysgu ffurfiol tan eu bod yn 6 oed yn gwneud yn well mewn profion pan fyddant yn 8 oed na'r rheini a ddechreuodd yn 5 oed. Cyfeiriodd yr Athro Jackson at wahanol gyfraddau datblygu, a oedd yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Roedd cyflwyniad amhriodol i addysg ffurfiol mewn cyfnod cynnar yn arwain at i rai plant ymryddhau o addysg mewn oedran cynnar ac roedd hyn yn arbennig o wir yn achos bechgyn ifanc. Yn ei barn hi roedd angen clir am strategaeth gynhwysfawr ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer y grŵp oedran yn cynnwys plant o'r grŵp oedran 3 i 5 oed. Dylai'r strategaeth hon fod yn seiliedig ar arfer gorau ac ar ddysgu sy'n seiliedig ar fwynhad, cymhelliant a phrofiad.

3.4 Ymhlith y pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth roedd:

- prinder posibl o athrawon sydd wedi'u cymhwyso'n addas i ddarparu gofal ac addysg i blant rhwng 3 a 5 oed;
- a ellid cyflwyno ail iaith dramor fodern yn llwyddiannus i'r grŵp oedran hwn;

- y rhwystr o orfod aros i fyfyrwyr/athrawon ennill cymhwyster priodol; ac
- a wnaed unrhyw ymchwil i ddisgwyliad rhieni o'r ddarpariaeth a chynnydd o 3 blwydd oed ac uwch.

3.5 Roedd yr Athro Jackson yn ymwybodol o ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar a oedd yn cynnwys gofal y tu allan i oriau ysgol ar gyfer rhieni sy'n gweithio; gellid defnyddio ail iaith yn dda fel y gwelwyd eisoes yng ngwaith y grwpiau meithrin yng Nghymru; gellid ystyried cymhellion ar gyfer sefydliadau hyfforddi athrawon er mwyn eu hannog i gynnig cyrsiau addas. Coleg y Brifysgol, Abertawe a ddarparai'r unig gwrs gradd mewn astudiaethau plentyndod ar hyn o bryd, gobeithiai'r Athro Jackson y gellid annog darparwyr eraill i ddilyn yr esiampl; lle byddai hyn yn achosi oedi o ran cyflenwi athrawon cymwys gellid gwneud y defnydd gorau o adnoddau dynol profiadol presennol. Soniodd Pat Davies bod Plant yng Nghymru yn cynnal arolygon o hyfforddiant y blynyddoedd cynnar a gofal plant y byddent yn ymgynghori yn eu cylch. O ran disgwyliadau rhieni roedd yr Athro Jackson yn teimlo y byddai gan rieni safbwyntiau synhwyrol ar yr hyn sy'n chwarae adeiladol a'r hyn sy'n chwarae adloniadol yn unig.

3.6 Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Jackson am ei chyflwyniad.

## Eitem 4 ar yr Agenda : Datblygu Polisi - Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant Teirblwydd - Cyflwyniad gan CLlLC

## Papur: CYN 16 07-99 (tud.3)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr CLlLC - sef y Cynghorydd Jeff Jones, Neil Harries, Cyfarwyddwr Addysg AALl Caerffili ac Edgar Lewis, Cyfarwyddwr Addysg Sir Ddinbych. Roedd y Gymdeithas wedi ymateb i'r ymgynghoriad ac wedi cytuno i gyflwyno eu safbwyntiau a darparu sylwadau ar oblygiadau cost newidiadau i'r ddarpariaeth. Amlygodd y Cynghorydd Jones y materion allweddol, a gynhwysir yn y papur a atodir fel Atodiad 2. Dymunai'r Gymdeithas weithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau darpariaeth o ansawdd ledled Cymru sy'n seiliedig ar bartneriaethau gyda phob darparwr gofal ac addysg i blant yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol.

4.2 Roedd yr Aelodau yn falch o nodi ymagwedd gadarnhaol y Gymdeithas tuag at y mater a'u dymuniad i weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel. Ymhlith y pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth roedd:

- mewn ardaloedd sy'n gymdeithasol ddifreintiedig roedd rhieni yn ddibynnol ar y sector cyhoeddus, sut gallai darpariaeth yn y dyfodol integreiddio egwyddorion 'Cychwyn Cadarn' a'r 'Strategaeth Gofal Plant' er budd plant a gyflwynir i'r ysgol ar oedran cynnar?

- croesawyd ymagwedd bartneriaeth wirioneddol ond yr her oedd sicrhau bod partneriaethau o'r fath yn gweithio yn ymarferol;

- roedd yna fwlch yn y ddarpariaeth breifat mewn ardaloedd difreintiedig ac yn ardaloedd tlawd Caerdydd roedd yna fylchau yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar, hefyd ni allai rhai rhieni fforddio talu am ofal cyn-ysgol;

- byddai angen i'r awdurdodau sicrhau bod darpariaeth ddigonol o addysg y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg;

- yr angen i sicrhau darpariaeth gost-effeithiol drwy archwilio safonau a lefelau presennol y ddarpariaeth yn effeithiol;
- a allai CLlLC helpu'r Pwyllgor i ddiffinio'r system orau ar gyfer plant Cymru.

4.3 Roedd y Gymdeithas o'r farn y byddai mynediad pob Awdurdod Addysg Lleol i wasanaethau cymdeithasol ac arbenigedd addysg yn darparu cydweithrediad mewnol da ond cydnabu y byddai angen arbenigedd allanol effeithiol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth. Dangosodd archwiliad a gynhaliwyd ym 1995 fod 25% o blant 3 blwydd oed mewn darpariaeth llawn amser, 50% mewn darpariaeth rhan amser a 50% gartref; un nod allai fod rhoi 100% o blant teirblwydd mewn darpariaeth rhan amser; mewn nifer o ardaloedd roedd plant yn mwynhau darpariaeth gymysg o AALl ac, er enghraifft, MYM/PPA yn ystod y dydd. Byddai AALl yn fodlon cefnogi cynlluniau peilot. Byddai'r Gymdeithas yn gweithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i weithredu'r ddarpariaeth ond er mwyn darparu cyngor ystyrlon â chostau roedd angen i'r Cynulliad Cenedlaethol roi arwydd o'i ymagwedd strategol.

## CYN 16 10-99(cof) - 15 Rhagfyr 1999

### Eitem 5 ar yr Agenda: Datblygiad Polisi: Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant Teirblwydd

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr Athro Edward Melhuish a oedd wedi darparu ymateb i ymgynghoriad y blynyddoedd cynnar ac a wahoddwyd i annerch y Pwyllgor ar y gwersi i'w dysgu o brofiad Ewrop ar ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar.

5.2 Roedd yr Athro Melhuish wedi casglu gwybodaeth o'i ymchwil ei hun, gwaith darllen arall a dwy astudiaeth hydredol ar addysg cyn oed ysgol yn Lloegr ac Iwerddon yr oedd yn cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd. Dangosodd i'r Pwyllgor sut yr effeithiai cefndir teuluol plant ar ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar a gâi'r plant. Mae copïau o'r sleidiau data y cyfeirir atynt yn Atodiad B.

5.3 Roedd ymchwil a nodwyd ym 1993 wedi dangos bod y galw am ddarpariaeth cyn oed ysgol yn gysylltiedig â'i hargaeledd ac â chyflogaeth rhieni. Dangosodd y ffigurau ar yr adeg honno fod gan y rhan fwyaf o wledydd yn Ewrop lefel uwch o gyflogaeth llawn amser ymhlith rhieni a darpariaeth eang gyfatebol ar gyfer plant teirblwydd a hŷn. Roedd newidiadau i batrymau cyflogaeth merched, yn arbennig, yn y DG yn symud y DG tuag at y model Ewropeaidd mewn darpariaeth ar gyfer plant teirblwydd a hŷn. Byddai'r adroddiad Darpariaeth Effeithiol Addysg Cyn Oed Ysgol (EPPE) i'w gyhoeddi yn ystod y Gwanwyn 2000 yn darparu gwybodaeth ar effaith nodweddion teuluol ar gynnydd plant yn ystod y blynyddoedd cyn oed ysgol.

5.4 Holodd ar ba ffurf y dylai'r ddarpariaeth fod. Dangosai adroddiadau diweddar a rhai sydd i ddod fod gofal plant yn deillio o ddwy ffynhonnell, sef y sail addysgol sydd yna yn ymestyn i dderbyn yr elfen ofal a'r ffynhonnell gyferbyniol. Dangosai profiad mewn gwledydd Sgandinafaidd fod plant cyn oed ysgol yn dysgu orau drwy ymagwedd ymarferol a strwythuredig i sgiliau a ffeithiau a gyflwynir drwy gyfrwng chwarae, mae cynnydd dilynol yn 6 oed yn well nag yn y DG.

5.5 Yr allwedd i gyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel oedd cael staff profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Roedd gan y rhan fwyaf o wledydd Ewrop gymhwyster tair blynedd a leolir yn y coleg gyda chyfran uchel o brofiad ymarferol. Mewn rhai gwledydd ni fyddai myfyrwyr yn dechrau'r cwrs hwn hyd nes y byddant yn 20 oed. Yng Nghymru byddai'n awgrymu bod y Pwyllgor yn edrych ar ddatblygu rhaglen hyfforddi yn seiliedig ar fodel CGC sef adeiladu ar brofiad ond yn gwneud cynnydd drwy unedau mesuradwy.

5.6 Roedd y cymharebau o staff i blant yn bwysig hefyd. Yn 3 i 6 oed y gymhareb disgybl staff:plentyn yw 1:8 ar gyfer llawn amser a 1:13 ar gyfer rhan amser. Yn ei farn ef nid oedd y gymhareb gyffredinol hon mor bwysig â sicrhau bod pob plentyn yn gweithio mewn grŵp bach gyda chymarebau o 1:1 neu 1:2 am o leiaf awr y dydd. Roedd manteision i gymarebau uchel ac isel ac roedd y ddau brofiad o werth i ddatblygiad sgiliau plant. Roedd yn bwysicach bod plant yn cael darpariaeth reolaidd o'i chymharu â darparu darpariaeth llawn amser i rai a dim i'r lleill. Dangoswyd mai rheoleidd-dra darpariaeth a roddai'r canlyniadau gorau.

5.7 Bu Cymru yn llwyddiannus iawn drwy'r Mudiad Ysgolion Meithrin wrth ddarparu darpariaeth ddwyieithog. Profiad Ewrop oedd mai yn anaml y câi plant eu cyflwyno'n ffurfiol i ail iaith tan lawer yn hwyrach ond roedd cyfran uwch o blant yn Ewrop yn byw mewn diwylliant aml-ddiwylliant. Dylai Cymru sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn cael ei chynnal.

5.8 Ym marn yr Athro Melhuish gellid dod o hyd i'r enghreifftiau gorau o ddarpariaeth ar gyfer plant ifanc yn Sgandinafia a Gogledd yr Eidal. Roedd gan y gwledydd a'r ardaloedd hyn hanes hir o ddarparu gofal plant o ansawdd uchel yn y sector cyhoeddus. Credai y dylai unrhyw raglen hyfforddi yng Nghymru gynnwys o'i mewn gyfleoedd i weithio am gyfnodau byr yn y gwledydd a'r ardaloedd hyn. Credai y byddai hyn yn ffordd ragorol o gyflwyno hyfforddeion i arfer gorau ac agor eu meddyliau i ffyrdd newydd o gyflwyno gofal ac addysg i blant bach.

5.9 Atgoffodd Ysgrifennydd y Cynulliad y Pwyllgor eu bod wedi'u gwahodd i achlysur agor Arddangosfa Reggio Emilia yr oedd yn ei hagor yng Nghaerdydd ar 4ydd Ionawr. Roedd hon yn enghraifft ragorol o waith canolfannau Babanod-Plant Bach a chanolfannau cyn oed ysgol yn ardal Reggio yr Eidal.

5.10 Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Melhuish am ei gyflwyniad diddorol ac ysgogol. Atgoffodd yr Aelodau eu bod wedi derbyn sylwadau pob ymatebydd wedi'u coladu ac adroddiad amlinellol gyda'u papurau ar gyfer y cyfarfod diwethaf CYN 16 09-99(tud.1). Gofynnodd i'r Aelodau dreulio peth amser yn ystod gwyliau'r Nadolig yn darllen y dogfennau hyn ac ystyried yn arbennig y materion yr oedd angen i'r Pwyllgor eu hystyried wrth lunio eu casgliadau a'u hargymhellion. Er mwyn hwyluso'r drafodaeth yn y cyfarfod nesaf ar 26 Ionawr gofynnodd i'r Aelodau roi eu sylwadau i'r Clerc erbyn 17 Ionawr ar y materion a nodwyd ac yn arbennig os byddent am i faterion eraill gael eu cynnwys. Byddai'r Clerc yn tynnu'r rhain ynghyd mewn papur i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf.

5.11 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor eu bod i fod i gyflwyno eu hadroddiad terfynol i'r Cynulliad cyn gwyliau'r Pasg a golygai hyn fod yn rhaid cytuno ar yr adroddiad terfynol yn y cyfarfod ar 1 Mawrth.

## CYN 16 01-00 (cof) - 26 Ionawr 2000

### Eitem 5 ar yr Agenda: Datblygu polisi - Addysg Gynnar ar gyfer Plant Teirblwydd CYN 16 09-99 (tud.1)

5.1 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor eu bod wedi derbyn pob cyflwyniad bwriadedig a chyflwyniadau ysgrifenedig gan nifer o sefydliadau ac unigolion. Paratowyd adroddiad drafft a grynhodd y gwaith yr ymgymerwyd ag ef hyd yn hyn ac a nododd y materion allweddol yr oedd yn rhaid i'r Pwyllgor eu hystyried wrth ddod i'w gasgliad terfynol a llunio ei argymhellion. Unwaith roedd y Pwyllgor wedi cytuno ar yr adroddiad byddai'n cael ei gyflwyno gerbron y Cyfarfod Llawn i'w ddadlau, roedd dyddiad dros dro sef 4 Ebrill wedi'i bennu ar gyfer y ddadl.

5.2 Tynnodd Ysgrifennydd y Cynulliad sylw'r Aelodau at y materion, ac fe'u trefnwyd o dan chwe phrif bennawd a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at glywed barn yr Aelodau arnynt. Yn arbennig roedd ganddi ddiddordeb clywed a oedd y Pwyllgor yn ardystio'r egwyddorion a nodwyd yn y papur yn tanategu dysgu a datblygiad cynnar. Cyflwynodd y Cadeirydd y pwynt penodol hwn i'r Aelodau a gadarnhaodd eu bod yn cytuno â'r egwyddorion fel y'u nodwyd yn yr adroddiad drafft.

5.3 Amlygodd Ysgrifennydd y Cynulliad nifer o feysydd allweddol eraill y byddai angen i'r Pwyllgor eu hystyried a chytuno arnynt. Ar fater ar wahân dymunai archwilio dulliau dysgu a datblygu amgen i'r trefniadau cwricwlaidd cyfredol ar gyfer plant 5 oed yn yr ysgol. Derbyniodd fod hyn yn fater tymor hwy gan fod arolwg cynhwysfawr o'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd gael ei gwblhau ac y byddai ysgolion yn gweithredu'r newidiadau o fis Medi 2000. Cynigiodd y dylid ymgymryd ag astudiaeth er mwyn ystyried y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer plant 5 oed yn seiliedig ar arfer da yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Byddai'r arolwg hwn yn bwydo i mewn i'r arolwg mawr nesaf o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, a fyddai'n dechrau ymhen rhyw 2 i 3 blynedd.

5.4 Cytunodd y Pwyllgor y byddai hon yn astudiaeth ddefnyddiol, a allai fod yn sail i'r arolwg nesaf o'r cwricwlwm.

5.5 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ystyried yr adroddiad drafft ger eu bron. Roedd y drafodaeth ar batrwm y ddarpariaeth a fyddai fwyaf priodol i Gymru yn amlygu'r ystod eang o opsiynau a oedd ar gael. Daeth yr Aelodau i'r casgliad nad oedd ganddynt yr arbenigedd a throsolwg eang o'r hyn a oedd yn 'arfer gorau' yn y Deyrnas Unedig, Ewrop ac mewn mannau eraill. Roedd yn hanfodol bod yr hyn a gyflwynwyd yng Nghymru yn briodol i anghenion Cymru, yn arbennig gan y byddai gan bob plentyn 3 blwydd oed hawl statudol iddo. Cytunasant fod anghenion y plentyn yn hollbwysig ac y dylai unrhyw ddarpariaeth fod â phlentyn yn wraidd iddi. Mewn perthynas â darparwyr roedd yr Aelodau o'r farn bod angen 'economi gymysg' o ddarpariaeth er mwyn sicrhau dewis ymhlith rhieni i'w plentyn, dylid cyflwyno hyn yn gyfannol drwy bartneriaethau gwirioneddol rhwng darparwyr.

5.6 Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor benodi ymgynghorydd arbenigol i werthuso'r wybodaeth a dderbynnir gan y Pwyllgor, ystyried arfer gorau mewn gwledydd eraill a darparu adroddiad i'r Pwyllgor ynghyd ag argymhellion am yr hyn a fyddai'r ddarpariaeth orau i Gymru.

Cytunodd yr Aelodau i'r cynnig hwn. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc gysylltu â swyddogion Ysgrifennydd y Cynulliad i ddrafftio cylch gorchwyl ar gyfer yr ymgynghorydd arbenigol i'r Pwyllgor ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf. Cytunwyd y dylid dosbarthu'r llythyr i Aelodau erbyn

dydd Gwener 4 Chwefror ynghyd â'r papur yn esbonio'r weithdrefn i'w dilyn wrth benodi'r ymgynghorydd arbenigol. Cytunwyd ar ben hynny y dylid penodi'r ymgynghorydd arbenigol cyn y Pasg os yn bosibl.

## CYN 16 02-00(cof) - 9 Chwefror 2000

### Eitem 2 ar yr Agenda: Datblygu polisi - Y Ddarpariaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar
### Papur: -CYN 16 02-00 (tud. 1)

2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y Pwyllgor wedi cytuno yn ei gyfarfod diwethaf (26 Ionawr) y dylid penodi Ymgynghorydd Arbenigol i'w gynorthwyo â'r rhan nesaf o'r arolwg. Roedd Atodiad A i'r papur gerbron y Pwyllgor yn cynnwys manyleb swydd, manyleb person a datganiad drafft i'r wasg. Gwahoddwyd yr aelodau i gytuno â phob un.

2.2 Wrth drafod cododd y pwyntiau canlynol:

- cydnabuwyd fod y gwaith yn mynd rhagddo yn dda;
- awgrymwyd bod angen pwyslais ar nodi'r ffurf orau o ddysgu y gellid ei chyflwyno i blant o'r oed hwn;
- dylai'r ymgynghorydd arbenigol fod yn ymrwymedig i gydraddoldeb cyfle ac ystyried polisi'r Cynulliad Cenedlaethol ar gynhwysiant cymdeithasol;
- roedd angen sicrhau y byddai dimensiwn Cymreig, gwybodaeth am yr arfer Ewropeaidd gorau ac ymrwymiad i gynnwys addysgol - yn ogystal â gofal - yn rhan o'r fanyleb ar gyfer y swydd;
- dylid diwygio'r cyfeiriad yn y fanyleb swydd at 'gofal plant a blynyddoedd cynnar' i ddarllen 'addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant' a dylai cyfeiriadau at gylchoedd chwarae ddarllen cylchoedd chwarae 'gwirfoddol';
- dylai 'goblygiadau dros dro' ddarllen 'goblygiadau ariannol';
- dylid atgyfnerthu'r cyfeiriad yn yr hysbyseb at angen am ymwybyddiaeth o arfer cyfredol, yn yr un modd dylid egluro'r cysylltiad rhwng y prosiect a dysgu am oes;
- dylai'r ymgynghorydd arbenigol fod yn ymwybodol o'r goblygiad hyfforddi sy'n gysylltiedig ag unrhyw waith ehangu a gwella i ansawdd y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar; ac
- awgrymwyd y dylid dosbarthu'r hysbyseb swydd i'r Prifysgolion yng Nghymru ag adrannau addysg perthnasol.

2.3 Rhoddodd y Cadeirydd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r papurau yn nodi'r gofynion priodol; cwmpaswyd y dimensiwn Cymreig yn y fersiynau drafft. Pwysleisiodd hefyd y byddai gofyn i'r ymgynghorydd arbenigol wneud argymhellion yn eu hanfod ar ganfyddiadau'r ymgynghori ac na fyddai gofyn iddo ymgymryd ag ymchwil newydd. Pe bai'r brîff yn cael ei ehangu i gynnwys gwaith newydd byddai rheolau ymgynghori yn berthnasol. Cytunodd y Pwyllgor â'r fanyleb swydd, y fanyleb person a'r hysbyseb drafft, yn amodol ar y tri diwygiad a awgrymwyd a'r pwyslais i'w roi i 'ymwybyddiaeth o arfer cyfredol yn y fanyleb person.

2.4 Cynigiodd y Cadeirydd mai panel penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor ddylai ffurfio'r panel cyfweld- y Cadeirydd, Ysgrifennydd y Cynulliad a Lorraine Barrett.

2.5 Wrth drafod cododd y pwyntiau canlynol:

- awgrymwyd y dylai cyfweliadau am y swydd fod yn ddwyieithog;
- nid oedd y polisi o gydbwysedd pleidiau ar y panel penodiadau wedi caniatáu ar gyfer elfen ddwyieithog i bob un o enwebeion y pwyllgor; ac
- yn unol â'r arweiniad ar ymgynghorydd arbenigol, gallai'r panel gyfweld ymgeiswyr.

2.6 Nododd y Cadeirydd y byddai pob cais a'r papurau ategol yn cael eu cyfieithu ar gyfer y broses archwilio a chyfweld. Cytunwyd y dylid cynnwys Owen John Thomas a Jenny Randerson ar y panel cyfweld. Cynhwyswyd dyddiadau awgrymiedig ar gyfer dethol a chyfweld yn y papur, byddai'r Clerc yn cadarnhau argaeledd yr Aelodau.

2.7 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ystyried yr adroddiad interim drafft, yn arbennig y crynodeb o gasgliadau, ac i gyflwyno unrhyw sylwadau drafftio i'r Clerc erbyn dydd Gwener 11 Chwefror. Yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau drafftio byddai trefniadau'n cael eu gwneud i argraffu'r Adroddiad Interim mewn pryd i gynnal trafodaeth lawn arno ar 4 Ebrill. Cytunwyd nad oedd bellach angen y cyfarfod ychwanegol a amserlenwyd ar gyfer dydd Iau 17 Chwefror i drafod yr adroddiad.

# Atodiad E

# Llyfryddiaeth

## Darpariaeth Blynoeddoedd Cynnar ar gyfer plant teirblwydd

### Cyfeiriadau

Cyfeirir at y dogfennau a'r gwefannau hyn yn y cyflwyniadau a ddaeth i law neu fe gyfeiriwyd atynt mewn cyflwyniadau llafar.


| | | |
|---|---|---|
| | The Cost, Quality and Outcomes Study - an outline of a major American Research Study | www.fpg.unc.edu/~NCEDL |
| | Long Term Outcomes of Early Childhood Programs (sic) Vol 5, No3, Winter 1995 | www.futureofchildren.org |
| ACCAC | The Desirable Outcomes for Children's Learning | ACCAC |
| ACCAC | Draft Framework for Qualifications and Training in Early Years Education, Childcare and Playwork Sector | |
| Audit Commission (1997) | Counting to Five | |
| Ball, C (1994) | Start Right: the Importance of Early Learning, Report to the RSA | RSA |
| Barnett, W.S. & Escobar E.M (1990) | Economic Costs and benefits of early intervention In Meisels S.J. & Shonkoff J.P (eds) Handbook of Early Childhood Interventions. | Cambridge: University Press |
| Bennet, N & Kell, J (1989) | Good Start? Four year olds in infant schools. | Blackwell |
| Bredkamp S. & Rosengrant T. (eds) (1992) | Reaching Potentials: appropriate curriculum and assessment for young children | Washington DC: National Association forthe Education of Young Children |
| Bredkamp, S & Copple, C (eds) (1997) | Developmentally appropriate practice in early childhood programs | *Washington DC.* NAEYC |
| Carnegie Task Force (1994) | Starting Points - Meeting the needs of our youngest children | New York: Carnegie Corporation |
| Cleave, S., & Brown, S. | Early to School: Four-year-olds in infant classes. | NFER Nelson |

| | | |
|---|---|---|
| Cox, Theo. (ed) | Combatting Educational Disadvantages: Meeting the needs of vulnerable children | London: Falmer Press |
| Curtis, A.M. (1998) | A Curriculum for the Pre-school Child | NFER Nelson |
| David, T. (1990) | Under five - under educated? | Buckingham: Open University *Press* |
| Eurydice – The Information Network on Education in Europe | Facilities and Condition in Pre-School Provision | www.eurydice.org/present.html |
| Hurst, V. & Joseph, J. (1998) | Supporting Early Learning - the way forward | Buckingham: Open University Press |
| Melhuish, E.C., Sylva, K., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I., Taggart, B., Dodson, A., Jeavons, M, Lewsi, K., Morahon, M. & Sadler, S. (1999) | Parent, family and child characteristics in relation to type of pre-school and socio – economic differences. Technical Paper 4: EPPEProject | London: University of London, Institute of Education/DfEE |
| Mills, C. & Mills, D. (1998) | Britains Early Years Disaster, Survey of Research Evidence for Channel 4 television Documentary "Too Much, Too Young". | |
| Moss, P. (1999) | Renewed Hopes and Lost Opportunities: early childhood in the early years of the Labour Government | Cambridge Journal of Education, Vol 29 No2, 1999 |
| Moss. P. & Penn. H. (1994) | Valuing quality in early childhood services | London: Paul Chapman |
| Moss. P. & Penn. H. (1996) | Transforming nursery education | London: Paul Chapman |
| Municipality of Reggio Emilia, Infant-Toddler Centers and Preschools (1996) | Catalogue of the Exhibit -'The Hundred Languages of Children'. October 1997, (2nd edition) | Reggio Children S.r.l Italia |
| Nabuco. M.E.M. (1996) | The Effects of Three Early Childhood Curricula in Portugal on Children's Progress in the First Year of Primary School. PhD Thesis | Institute of Education, University of London |

| | | |
|---|---|---|
| New Zealand - Department of Education | Better Beginnings. Early Childhood Education in New Zealand | www.ecdu.govt.nz |
| Northern Ireland Council for Curriculum, Examination and Assessment | Curricular Guidance for Pre-School Education | |
| Oliver, Smith & Barker | Effectiveness of Early Interventions | Thomas Coram Research Unit |
| Osborn, A. & Millbank, J. (1999) | The Effects of Early Education | Clarenden Press |
| Qualifications and Curriculum Authority (England) | Early Learning Goals | |
| Report of the National Commision on Education (1993) | Learning to Succeed | Paul Hamlyn Foundation |
| Rumbold Commitee Report (1990) | Starting with Quality | HMSO |
| Sammons, P., Sylva, K., Melhuish, E.C., Siraj-Blatchford , I., Taggart, B. Dodson, A., Jeavons, M., Lewsi, K., Morahon, M., & Sadler, S. (1999) | Characteristics of the Effective Provision of Pre-school Education (EPPE) project sample at entry to the study.<br>Technical Paper 2, EPPEProject | London: University of London, Institute of Education/DfEE |
| Scottish Consultative Council on the Curriculum (1999) | A Curriculum Framework for Children 3-5 in Scotland | |
| Schweinhart, L.J & Weikart, D.P | The High Scope Perry Preschool Study Videocassette | High/Scope Press Ypsilanti, MI, USA |
| Schweinhart, L.J., Barnes H.V, Weikart, D.P. & Epstein, A.S | Significant Benefits: The High Scope Perry Preschool Study Through Age 27 | High/Scope Press Ypsilanti, MI, USA |
| Sharp, C. (1998) | Age of Starting School and the Early Years Curriculum | NFER |

| | | |
|---|---|---|
| Siraj-Blatchford, I., Sylva, K., Melhuish E.C , Sammons et al. (1999) | Contextualising EPPE: Interviews with Local Authority co-ordinators and centre managers Technical Paper 3, EPPE Project | London: University of of London Institute of *Education* |
| Sylva K., Sammons P., Melhuish E.C and Siraj- Blatchford I. (1999) | An Introduction to the EPPE Project. Technical Paper 1, EPPE Project. | London: University of London, Institute of Education/DfEE |
| Sylva K., Siraj- Blatchford I., Melhuish, E.C., Sammons, P. et al (1999) | Characteristics of the centres in the EPPE sample: Observational profiles. Technical Paper 6, EPPE Project | London: University of London, Institute of Education/DfEE |
| Sylva, K. (1997) | The Early Years Curriculum: Evidence Based Proposals Paper to SCM Conference | |
| UNICEF | Towards a Comprehensive Strategy for the Development of the Young Child, (an Intragency Policy Review) | www.ecdgroup.com/archive/po.html |
| Y Swyddfa Gymreig | The National Childcare Strategy in Wales (Green Paper) | |